# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad

**Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Mai 2015**



## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE DL (Chair)**

**Mary Carter**

**Stuart Castledine**

**Yr Athro Monojit Chatterji**

**Yr Athro Laura McAllister**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price,** Clerc

**Dan Collier,** Dirprwy Glerc

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: **Taliadau@Cynulliad.Cymru**

# Cynnwys

Rhagymadrodd ........ 3

Crynodeb Gweithredol ........ 5

1. Ymagwedd y Bwrdd Taliadau at yr Adolygiad ........ 7

    Swyddogaethau ac Amcanion ........ 7

    Egwyddorion ........ 8

    Y Cyd-destun Strategol ........ 9

    Adolygiad o'r Penderfyniad ........ 10

    Y Fethodoleg ........ 10

    Rhaglen Waith at y Dyfodol ........ 14

2. Esblygiad y Cynulliad ........ 15

    Edrych ymlaen ........ 15

3. Taliadau Aelodau'r Cynulliad ........ 18

    Egwyddorion ........ 19

Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ........ 21

    Gwybodaeth allweddol ........ 21

    Y sefyllfa gyfredol yn neddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig ........ 21

    Cyfanswm y taliadau – cymhariaeth rhwng y deddfwrfeydd ........ 23

    Cefndiroedd Aelodau'r Cynulliad a etholwyd yn 2011 ........ 26

    Mynegeio o 2017/18 ymlaen ........ 29

Pensiynau Aelodau'r Cynulliad ........ 30

    Adolygiad y Bwrdd ........ 31

    Trefniadau llywodraethiant ........ 36

    Y camau nesaf ........ 36

Cyflogau Deiliaid Swyddi ........ 37

    Egwyddorion ........ 37

    Y fethodoleg ........ 37

    Rolau sy'n cael eu talu ........ 38

    Rolau yn Llywodraeth Cymru ........ 39

    Rolau yn y Cynulliad Cenedlaethol ........ 43

Crynodeb o'r penderfyniadau ar daliadau ..... 49
Ystyriaethau cydraddoldeb ..... 51
4. Staffio a Chymorth i'r Grwpiau ..... 52
Egwyddorion ..... 53
Capasiti'r staff ..... 53
Y Gronfa Polisi ac Ymchwil ..... 54
Cymorth i grwpiau pleidiau ..... 56
Tâl ac Amodau Staff Cymorth ..... 60
Taliadau ..... 60
Dileu swydd ..... 60
Materion cyflogaeth eraill ..... 61
Ystyriaethau cydraddoldeb ..... 62
5. Ad-dalu treuliau eraill ..... 64
Cymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad ..... 64
Egwyddorion Cymorth Ariannol ..... 65
Llety Preswyl ..... 66
Costau Swyddfa ..... 70
Teithio ..... 72
Trefniadau i Aelodau'r Cynulliad sy'n Ymadael â'u Swydd ..... 73
Ystyriaethau cydraddoldeb ..... 74
6. Costau ..... 77
**Atodiad A: Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau** ..... 81
**Atodiad B: Ymgyngoriadau** ..... 84
**Atodiad C: Dogfennau cefndir** ..... 85
**Atodiad D: Log Effaith Cydraddoldeb** ..... 86

# Rhagymadrodd

O fis Mai 2016 ymlaen, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n sefydliad pur wahanol i'r un a grëwyd ym 1999. Mae'r blynyddoedd ers hynny wedi gweld newidiadau radicalaidd o ran pwerau, cyfrifoldebau a disgwyliadau'r sefydliad a'i Aelodau.

Mae'r Bwrdd Taliadau ("y Bwrdd") yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwaith y Bwrdd yw gosod pecyn o daliadau a chymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad sy'n eu galluogi i gyflawni eu rôl fel ein cynrychiolwyr cenedlaethol. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd yn anelu at sicrhau bod y taliadau a'r cymorth iddynt yn deg, yn cynnig gwerth am arian, ac yn cymryd cymaryddion priodol yng Nghymru i ystyriaeth.

Mae fy nghydweithwyr ar y Bwrdd a minnau'n credu bod y Penderfyniad sy'n cael ei gyhoeddi heddiw yn gwneud hynny. Nid yw rhai o'r penderfyniadau unigol wedi bod yn boblogaidd ymysg y cyhoedd a'r Aelodau. Mae eraill wedi cael derbyniad da. Mae'r Bwrdd wedi gwrando ar yr adborth – cadarnhaol a negyddol – ac wedi'i bwyso a'i fesur yn ei ystyriaethau.

Mae'r egwyddorion a sefydlodd y Bwrdd ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad wedi parhau, ac maent yn dal yn briodol heddiw. Ond mae'r sefyllfa gyfansoddiadol a'r hinsawdd economaidd wedi newid.

Yn y Pumed Cynulliad, bydd yr Aelodau'n ymdrin ag amrediad ehangach a dyfnach o ddeddfwriaeth nag erioed o'r blaen. Am y tro cyntaf, bydd ganddynt bwerau arwyddocaol o ran trethu a benthyca. Ac mae canlyniad Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi[1] yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli rhagor o bwerau o fewn cyfnod amser byr iawn.

Mae'r Bwrdd wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn flwyddyn cyn Etholiad Cyffredinol Cymru ym mis Mai 2016 er mwyn i ddarpar ymgeiswyr yr etholiad wybod pa gymorth a thaliadau a fydd ar gael iddynt.

Rwy'n ymwybodol bod y cymorth ariannol a fydd ar gael yn un agwedd yn unig ar yr hyn sy'n angenrheidiol er mwyn chwalu rhwystrau a denu amrediad amrywiol o ymgeiswyr o safon i sefyll mewn etholiad i'r Cynulliad. Yn yr Adroddiad hwn, mae'r Bwrdd hefyd wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n gosod meincnod newydd yn y maes hwn o ran cyrff taliadau seneddol.

[1]*Hysbysiad i'r wasg gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig https://www.gov.uk/government/news/landmark-funding-announcement-and-new-powers-for-wales-in-st-davids-day-agreement*

Ar y pleidiau gwleidyddol y mae'r cyfrifoldeb bellach: mae'r Bwrdd wedi cynnig pecyn y mae'n credu ei fod yn briodol i ddenu Aelodau o'r safon y mae ar y Cynulliad ei hangen er mwyn sicrhau Llywodraeth effeithiol, deddfau o safon, a gwaith craffu trylwyr ar y Gweinidogion. Dylai pleidleiswyr Cymru fynnu a disgwyl cael ymgeiswyr o safon eithriadol i'w cynrychioli yn eu Cynulliad Cenedlaethol.

Mae fy nghydweithwyr ar y Bwrdd a minnau'n ddiolchgar i bawb sydd wedi helpu yn ystod ein gwaith, sef y rhai yn y Cynulliad, yr Aelodau etholedig a'u staff yn eu gwahanol rolau, a'r ystod eang o bobl y tu allan i'r Cynulliad y mae eu cyfraniadau wedi'n helpu i gyrraedd ein casgliadau. Un fantais benodol yn y Cynulliad wrth roi prawf ar y cynigion a oedd yn dechrau dod i'r amlwg oedd cael deialog adeiladol â grwpiau cynrychioliadol bach o Aelodau a'u staff. Rydym hefyd am ddiolch i'r aelodau hynny o'r cyhoedd a'r sefydliadau yn y gymdeithas sifil a ymatebodd i'n hymgyngoriadau ehangach.

Bydd y Cynulliad a etholir yn 2016 yn Senedd ym mhopeth ond ei enw; rwy'n credu bod gwaith y Bwrdd wedi llunio cyfundrefn daliadau sy'n briodol i'r sefydliad, ac i'r heriau sydd o'n blaen.



**Sandy Blair CBE DL**
**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

**Mai 2015**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhesymeg y Bwrdd ar gyfer y newidiadau arwyddocaol y mae'n eu cyflwyno yn nhaliadau a chymorth Aelodau'r Pumed Cynulliad.

Mae'r sefydliad wedi newid yn ddirfawr ers ei sefydlu ym 1999, a daw rhagor o newid i rym yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Cydnabu'r Bwrdd hyn a cheisiodd sicrhau y gall yr Aelodau gyflawni eu hystod gynyddol o gyfrifoldebau. (Pennod 2)

Mae'r Bwrdd wedi gwneud nifer o benderfyniadau sy'n buddsoddi rhagor o adnoddau yng ngallu'r Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynyddu lefel taliadau'r Aelodau er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n briodol y cyfrifoldebau uwch a chynyddol sydd arnynt (Pennod 3);

- Creu rôl newydd Uwch-gynghorwr i hybu gallu'r Aelodau i ymdopi â galwadau eu rôl (Pennod 4); ac

- Ymestyn a hybu'r defnyddio ar y Gronfa Polisi ac Ymchwil (PRF) er mwyn annog yr Aelodau i wneud mwy i gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'u hetholwyr (Pennod 4).

Mae'r Bwrdd hefyd wedi ceisio torri costau a dileu lwfansau pan nad oes modd eu cyfiawnhau mwyach. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- Diwygio cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad er mwyn lleihau tua 30%[2] ar gost pensiynau yn y dyfodol i'r trethdalwr a chynyddu'r swm y mae'r Aelodau yn ei gyfrannu eu hunain (Pennod 3);

- Capio cyfanswm y cyllid sydd ar gael i helpu grwpiau'r pleidiau yn y Cynulliad (Pennod 4);

- Dileu'r lwfans cyfyngedig a oedd ar gael am aros dros nos i Aelodau sy'n byw yn agos i'r Cynulliad (Pennod 5).

Bwrdd annibynnol a neb arall sy'n gyfrifol am ei benderfyniadau. Er hynny, mae'r Bwrdd wedi ymgynghori ar y pedair prif ffrwd waith, ac eto ar y Penderfyniad yn ei grynswth. Yn ystod ei broses benderfynu, mae'r Bwrdd wedi gwrando ac wedi myfyrio ar yr adborth a ddaeth i law (Pennod 1).

Mae'r adolygiad o'r Penderfyniad wedi gweld bod yr ystod o gymorth ychwanegol ac ad-daliadau am dreuliau'n effeithiol i raddau helaeth. Gan hynny, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno mân newidiadau er mwyn sicrhau bod yna ragor o ryddid i'r Aelodau, ond bod y system yn dal yn un gadarn (Pennod 5).

---

[2] *Bydd cyfraniad y cyflogwr at y pensiwn yn gostwng o 23.8% o'r gyflogres i ryw 16.6%*

Mae'r Bwrdd wedi nodi system o gymorth ariannol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn gost-effeithiol. Mae'r gwariant wedi'i godi mewn rhai meysydd, ac wedi'i ostwng mewn meysydd eraill. Bydd pecyn cyffredinol y Pumed Cynulliad yn costio mwy na'r Pedwerydd Cynulliad, ond mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn fuddsoddiad priodol yng ngallu'r Cynulliad yn y dyfodol ac mewn democratiaeth yng Nghymru. Mae manylion llawn cost y Penderfyniad, a'r treuliau a ysgwyddwyd dros ddwy flynedd yr adolygiad i'w gweld yn yr adroddiad hwn (Pennod 6).

# 1. Ymagwedd y Bwrdd Taliadau at yr Adolygiad

*Mae'r bennod hon yn nodi swyddogaethau ac amcanion y Bwrdd ac yn ystyried y cyd-destun ehangach y mae wedi gwneud ei Benderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad ynddo.*

1. Cafodd Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("y Mesur")[3] y Cydsyniad Brenhinol gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 22 Gorffennaf 2010. Cafodd pum aelod eu penodi i'r Bwrdd gan Gomisiwn y Cynulliad ym mis Medi 2010 (gweler Atodiad A i gael aelodaeth y Bwrdd).

2. Ym mis Medi 2013, ymddiswyddodd ein Cadeirydd, Syr George Reid, o'r Bwrdd oherwydd salwch. Etholwyd Sandy Blair yn ei le gan y Bwrdd ym Mis Hydref 2013 ac mae wedi llywio'r Adolygiad o'r Penderfyniad o'r cyfnod cynnar drwodd i'r diwedd. Penodwyd yr Athro Laura McAllister yn aelod o'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2014.

## Swyddogaethau ac Amcanion

3. Mae swyddogaethau'r Bwrdd wedi'u nodi yn adran 3 o'r Mesur, ac maent yn ymwneud â gwneud Penderfyniad ar daliadau holl Aelodau'r Cynulliad a thaliadau atodol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau ychwanegol. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i'r Bwrdd benderfynu ar system o lwfansau a staff cymorth i Aelodau'r Cynulliad.

[3] *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010,* http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/mwa2010/mwa_20100004_en_1

4. Mae'r Mesur hefyd yn nodi tri amcan y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio eu cyflawni wrth wneud ei Benderfyniad, sef:

   – darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;

   – darparu adnoddau ar gyfer aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel aelodau o'r Cynulliad; a

   – sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

5. Mae adran 13 o'r Mesur yn darparu na chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un Penderfyniad ynglŷn â chyflogau Aelodau'r Cynulliad ac un ynglŷn â chyflogau Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer pob tymor Cynulliad. Er hynny, caiff y Bwrdd wneud Penderfyniad arall cyn diwedd tymor Cynulliad os yw wedi'i fodloni bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod hynny'n gyfiawn ac yn rhesymol.

6. O ganlyniad i'r Ddeddf Seneddau Tymor Penodol, cafodd tymor pedair blynedd y Cynulliad ei gynyddu i bum mlynedd. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Bwrdd ddefnyddio'r ddarpariaeth ynglŷn ag amgylchiadau eithriadol a nodwyd uchod er mwyn pennu cyflog ar gyfer 2015-16, sef y bumed flwyddyn yn y Cynulliad hwn.

## Egwyddorion

7. Mae'r Bwrdd yn ymroddedig o hyd i'r egwyddorion a sefydlodd pan gafodd ei sefydlu am y tro cyntaf yn 2010 ac a gyhoeddwyd yn ei adroddiad cyntaf, *Addas i'r Diben*, sef:

   – **diben strategol**
   dylai'r Penderfyniad gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;

   – **iawn i Gymru**
   rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru; a

   – **gwerth am arian**
   dylai'r system o gymorth ariannol gynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr.

8. Yn ychwanegol, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i system cymorth ariannol i'r Aelodau sy'n gadarn, yn glir ac yn dryloyw.

## Y Cyd-destun Strategol

9. Mae'r Bwrdd yn glir bod rhaid i'r system o daliadau a chymorth ariannol gael ei thargedu ar ategu diben strategol y Cynulliad fel deddfwrfa a rôl yr Aelodau yn y broses honno. Gan hynny, mae wedi canolbwyntio ar dargedu adnoddau i helpu'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau craidd: craffu ar bolisïau a chyllid; dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; deddfu; a chynrychioli eu hetholwyr.

10. Yn benodol, o ganlyniad i'r adolygiad, mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad bod yr angen mwyaf am gymorth ariannol yn gysylltiedig â sicrhau gallu'r holl Aelodau i graffu ar weithredoedd Llywodraeth Cymru. Mae gwaith craffu cadarn a heriol yn gydran hanfodol mewn llywodraethu effeithiol.

11. Cafodd Penderfyniad cyntaf y Bwrdd yn 2010 ei wneud yng nghyd-destun amgylchiadau ariannol ac economaidd y cyfnod. Rhewodd y Bwrdd gyflogau Aelodau'r Cynulliad ar lefelau 2010 tan 2014-15.

12. Gan rag-weld yr etholiad yn 2016, mae'r adolygiad wedi tanlinellu bod angen buddsoddi yng ngallu'r Cynulliad i ymdrin â'i gyfrifoldebau cynyddol.

13. Mae'r Bwrdd yn gwybod ar sail ei ymgyngoriadau nad yw cynyddu cost gwleidyddiaeth yn boblogaidd ymysg y cyhoedd – nac ymysg yr Aelodau ychwaith yn aml. Er hynny, nid chwilio am boblogrwydd yw cylch gorchwyl y Bwrdd, ond gwneud yr hyn y mae'n barnu ei fod yn gywir. Ym marn y Bwrdd, mae gallu annigonol yn peri risg sylweddol na fydd y Pumed Cynulliad yn gweithredu'n effeithiol.

14. Mae cyfrifoldebau'r Cynulliad wedi cynyddu drwy gydol bywyd y Cynulliad. Er hynny, trigain yw nifer yr Aelodau o hyd, heb ragolwg y bydd hyn yn newid yn y tymor byr. Beth bynnag fo maint y Cynulliad, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau bod ei Benderfyniad yn arfogi'r Aelodau â'r adnoddau i wneud eu gwaith.

15. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael blaenoriaeth uchel yn y Pumed Cynulliad. Mae pob agwedd ar waith y Bwrdd wedi'i hasesu o safbwynt cydraddoldeb gan arbenigwyr allanol ac wedi'i hystyried gan y Bwrdd. Y nod oedd sicrhau bod rhwystrau'n cael eu dileu ble bynnag yr oedd modd. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae proffil uwch wedi'i roi i allu'r Bwrdd i dalu treuliau eithriadol – fel hyn gall y Bwrdd ymateb i anghenion penodol unigolion nad ydynt o bosibl wedi cael sylw mewn mannau eraill yn y Penderfyniad.

## Adolygiad o'r Penderfyniad

16. O'r cychwyn cyntaf, roedd yn eglur i'r Bwrdd fod arno angen barn glir ynglŷn â diben sylfaenol y Cynulliad, er mwyn i'r Penderfyniad fod yn addas i'w ddiben. Yn benodol, roedd rhaid i'r Bwrdd ddeall y newidiadau pwysfawr sydd wedi digwydd ers y Penderfyniad cyntaf yn 2010 a'r heriau sydd o'n blaen. Ymdrinnir yn fanylach ag esblygiad y Cynulliad ym Mhennod 3.

17. Er mwyn llunio Penderfyniad newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, sefydlodd y Bwrdd bedair ffrwd waith i sicrhau bod pob un yn cael ei hystyried yn llawn: Pensiynau, Cyflogau, Cymorth a Lwfansau. Ymdrinnir â'r elfennau sy'n ffurfio Lwfansau ym Mhennod 5, Ad-dalu treuliau eraill.

## Y Fethodoleg

18. Penderfynodd y Bwrdd yn y dyddiau cynnar y dylai ei waith gael ei arwain gan dystiolaeth a bod yn gyfranogol ac yn dryloyw.

19. Er mwyn i bobl Cymru hyderu'n llawn yn system daliadau'r Cynulliad, rhaid iddi fod yn amlwg yn addas i'w ddiben ac yn dryloyw. Yn rhinwedd ei swydd fel y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ddylunio system o'r fath, mae'r Bwrdd wedi ceisio cadw at safonau uchel o briodolder a thryloywder yn ei waith ei hun ac ymgorffori'r egwyddorion hynny yn fframwaith taliadau ariannol a chymorth y Cynulliad.

### Adolygiad Tryloyw

20. Mae'r Bwrdd yn anelu at sicrhau bod ei waith yn dryloyw ac y gall unrhyw un sydd â diddordeb ddilyn y cynnydd. Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi agendâu a chofnodion ei gyfarfodydd ar ei wefan;[4] ers mis Mehefin 2014, mae'r Bwrdd hefyd wedi cyhoeddi llythyrau at Aelodau yn tynnu sylw at y penderfyniadau allweddol a wnaed ym mhob cyfarfod; manylion cysylltu a gwahoddiad parhaus i gynnig sylwadau neu i godi materion; a hysbysiadau i'r cyfryngau i roi gwybod i'r cyhoedd am gynnydd, cynigion a phenderfyniadau.

21. Mae'r Bwrdd wedi ymgynghori'n eang ac wedi mabwysiadu rhagdybiaeth o blaid cyhoeddi'r ymatebion i ymgyngoriadau.

22. Mae'r Bwrdd yn mynd ati'n rheolaidd i rannu ei ymgyngoriadau a'i gynigion gyda'r cyrff taliadau ar gyfer deddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig gan gynnwys uwch-swyddogion yn Senedd yr Alban, Panel Adolygiad Ariannol Annibynnol Cynulliad Gogledd Iwerddon, ac Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (y Deyrnas Unedig).

[4] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgCommitteeDetails.aspx?ID=375

23. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i roi tystiolaeth iddo yn ystod gwaith yr adolygiad a'r Penderfyniad.

24. Dechreuodd y Bwrdd ar ei waith i ddiwygio cynllun pensiwn yr Aelodau yn 2012 gan mai dyna un o'r meysydd gwaith mwyaf ymestynnol a chymhleth. Gwelir manylion llawn yr adolygiad, a'r ymgynghori yn hyn o beth, ym Mhennod 2.

## Adolygiad Cyfranogol

25. Mae'r Bwrdd bob amser wedi bod yn glir bod rhaid i'r rhai y bydd y Penderfyniad yn effeithio arnynt gael eu cynnwys ym mhroses yr adolygiad. Cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr o bob plaid yn y Cynulliad, â staff Aelodau a chynrychiolwyr o'u hundebau llafur, ac â Chadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Mae'r Bwrdd wedi rhoi gwybod yn gyson i'r Aelodau am ei waith, drwy ysgrifennu atynt hwy a'u staff ar ôl pob cyfarfod, a chynnal cyfarfodydd rheolaidd â grwpiau cynrychioliadol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a'r staff cymorth.[5]

26. Cynhaliodd aelodau'r Bwrdd drafodaethau hefyd â deiliaid rhai swyddi ychwanegol yn y Cynulliad, gan gynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, y Llywydd, y Dirprwy Lywydd ac un o Gomisiynwyr y Cynulliad, i sicrhau golwg ar y cyfrifoldebau ychwanegol sy'n perthyn i'r rolau hynny.

27. Dechreuodd y Bwrdd ar ei adolygiad o agweddau eraill ar y Penderfyniad ym mis Mawrth 2014 drwy gyfres o drafodaethau 'Chatham House'[6] gyda ffigurau uwch yn y Cynulliad, gan gynnwys arweinwyr y pleidiau, y Llywydd, Comisiynwyr a sylwedyddion allanol. Edrychodd y Bwrdd ar realiti gwaith yr Aelodau yn y Cynulliad heddiw a'r rhagolygon ar gyfer deddfwrfa fach sydd â chyfrifoldebau cynyddol.

28. Cyfarfu'r Cadeirydd a'r aelodau eraill â'r Comisiwn y Cynulliad ym mis Hydref 2014 i glywed eu hasesiad hwy o gyfeiriad strategol y sefydliad a sut y gallai Penderfyniad y Bwrdd effeithio arno.

29. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi cynnal sesiynau galw heibio yn fynych sy'n caniatáu i'r Aelodau rannu unrhyw bryderon a all fod ganddynt ynghylch agweddau penodol ar y Penderfyniad. Mae hyn wedi bod yn ffynhonnell wybodaeth i'r Bwrdd, gan ganiatáu iddo lunio'i benderfyniadau yng ngoleuni profiad ymarferol yr Aelodau.

30. I ddiweddaru ei dystiolaeth, gwahoddodd y Bwrdd holl Aelodau'r Cynulliad i lenwi arolwg ar-lein yn ddienw. Diben yr arolwg oedd casglu eu sylwadau am faterion ynglŷn â thaliadau.

---

[5] *Mae'r llythyrau at yr Aelodau'n cael eu cyhoeddi fel rhan o'r drefn ar dudalen cyhoeddiadau'r Bwrdd.* *http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=11701*

[6] *Chatham House: rheol neu egwyddor sy'n golygu y gall gwybodaeth a ddatgelir yn ystod cyfarfod gael ei datgelu gan y rhai a fu'n bresennol, ond na chaniateir i ffynhonnell yr wybodaeth gael ei hadnabod yn bendant na thrwy ymhlygiad*

Roedd yn siomedig mai dim ond 17 o Aelodau (28%) a ymatebodd. Er bod y dystiolaeth yn werthfawr, roedd hyn yn golygu na chafwyd darlun llawn o farn Aelodau'r Cynulliad.

31. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cydweithio ag arbenigwyr ymchwil mewnol y Cynulliad i sicrhau bod penderfyniadau'r Bwrdd wedi'u llywio gan ystod eang o wybodaeth ystadegol a gwybodaeth arall sy'n berthnasol.

### Ymgynghori â'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd

32. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Bwrdd wedi adolygu pob agwedd ar y Penderfyniad, ac wedi gofyn barn y cyhoedd drwy sawl ymarfer ymgynghori agored.

33. Yn ychwanegol at ymgyngoriadau'r Bwrdd ar y Penderfyniad terfynol, cafwyd ymgyngoriadau penodol hefyd ar y cymorth sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad (Medi 2014), Lwfansau Aelodau'r Cynulliad (Hydref 2014), cyflogau Aelodau'r Cynulliad (Tachwedd 2014) a dau ar gynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad (Ebrill a Gorffennaf 2014). Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus olaf, ar ddrafft o'r Penderfyniad cyfan, i ben ar 8 Ebrill 2015.

34. Cymerodd y Bwrdd gamau i hybu ymwybyddiaeth o'r ymgyngoriadau drwy'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy gysylltu'n uniongyrchol a'r rhai yr oedd yn disgwyl y byddai ganddynt ddiddordeb yn y Penderfyniad ac yn nodau'r Bwrdd, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol nad oes ganddynt gynrychiolaeth yn y Cynulliad ar hyn o bryd, y gymdeithas ddinesig a chynrychiolwyr busnes.

35. Roedd yn siomedig cael cyn lleied o ymatebion ymgynghori oddi wrth y sefydliadau hyn a gweld nifer cyfyngedig yr ymatebion gan y cyhoedd. Bydd y Bwrdd yn ystyried ymhellach beth arall y gallai ei wneud yn y dyfodol i roi gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau a'u cynnwys yng ngwaith y Bwrdd er mwyn creu dadl wybodus ac ehangach y tu hwnt i'r ymateb yn y cyfryngau.

36. Mae rhestr lawn o ddolenni ag ymgyngoriadau'r Bwrdd, a dogfennau perthynol eraill, ar gael ar ei wefan. Ceir ystod o ddolenni hefyd yn Atodiad C.

### Arbenigwyr allanol

37. Pan gyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad cyntaf yn 2011, doedd dim amser i edrych yn drwyadl ar y rolau y mae'r Aelodau yn eu chwarae yn y Llywodraeth.  Y tro hwn, roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau proses fwy trylwyr i gasglu tystiolaeth ac felly, yn sgil proses dendro, cafodd yr Hay Group[7] ei benodi i edrych ar y pwysau cymharol sy'n cael eu rhoi ar y gwahanol rolau sydd gan yr Aelodau.

38. Hefyd, comisiynodd y Bwrdd ail ddarn o waith i edrych ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag eu cynnig eu hunain i gael eu hethol. Coleg Busnes, Cyfraith, Addysg a Gwyddorau

[7] *Gweler Atodiad C i gael dolen i'r adroddiad hwn*

Cymdeithasol Prifysgol Bangor a enillodd y tendr hwn.[8] Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod maint cymharol fach y sampl yn yr arolwg hwn yn ei gwneud yn anodd inni dynnu casgliadau cadarn o'r pwyntiau a godwyd.

39. Wrth ddatblygu cynllun pensiwn newydd i Aelodau'r Cynulliad, cafwyd cyngor hefyd gan arbenigwyr actiwaraidd a chyfreithiol. Rydym yn ddiolchgar i PWC a Wragge, Lawrence and Co. am eu cyfraniadau a'u cyngor.

40. Roedd y Bwrdd yn ymwybodol hefyd o waith cyrff taliadau eraill – yn enwedig ein cydweithwyr ar Banel Adolygiad Ariannol Gogledd Iwerddon a'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA).

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

41. Mae'r ddeddfwriaeth a'i sefydlodd yn gosod y Bwrdd o dan ddyletswydd i sicrhau na fydd yr un ymgeisydd sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol yn cael ei atal rhag sefyll i gael ei ethol. Ar ddechrau'r broses o adolygu'r cyfan o'r pecyn taliadau a fydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad, cytunodd y Bwrdd y dylai gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn darganfod sut y gallai ei gynigion effeithio ar grwpiau gwahanol o bobl sydd wedi'u diogelu rhag gwahaniaethu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

42. Gan hynny, cynhaliodd y Bwrdd asesiad o'r Penderfyniad ar seiliau cydraddoldeb yn ystod pob cyfnod, i sicrhau nad oedd yr un adran o'r gymdeithas yn debyg o gael ei hatal mewn modd anghymesur rhag sefyll yn etholiadau'r Cynulliad ar sail ariannol.

43. Cafodd Diverse Cymru eu penodi i helpu gwaith y Bwrdd yn hyn o beth. Maen nhw wedi defnyddio'u harbenigedd i adolygu ymgyngoriadau'r Bwrdd, gan godi cwestiynau a materion a gafodd ragor o sylw gan y Bwrdd wedyn yn ei ystyriaethau pellach. Trafododd y Bwrdd ei gynnydd hefyd gyda Diverse Cymru mewn cyfarfod ar 16 Ionawr 2015.

44. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnwys cwestiwn am gydraddoldeb yn ei holl ymgyngoriadau. Yn yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd wedi ceisio prif-ffrydio ei ystyriaeth ar faterion cydraddoldeb. Ym mhob pennod mae rhai o'r materion cydraddoldeb mwyaf arwyddocaol sydd wedi'u codi a sut y gallai'r Bwrdd fynd i'r afael â hwy wedi cael eu hamlygu.

45. Byddai'r cyfle i weld data cydraddoldeb yn fodd i'r Bwrdd wneud penderfyniadau mwy gwybodus yn y dyfodol. Nid yw'r data hwn yn cael ei gasglu ar hyn o bryd. Gan hynny, mae'r Bwrdd yn annog y Comisiwn i ystyried y ffordd orau iddo gasglu data cydraddoldeb ynglŷn â'r Aelodau a'u staff yn y Pumed Cynulliad.

46. Mae'r log materion, lle cofnododd ac asesodd y Bwrdd faterion cydraddoldeb, ynghlwm yn Atodiad D. Mae'r Bwrdd yn credu bod y gwaith a wnaed yn gosod meincnod newydd ar

---

[8] *Gweler Atodiad C i gael dolen i'r adroddiad hwn*

gyfer cyrff taliadau seneddol ar draws y Deyrnas Unedig a'i fod yn awgrymu na ddylai'r Penderfyniad atal neb sydd â'r sgiliau a'r diddordeb priodol rhag ceisio cael ei ethol.

## Rhaglen Waith at y Dyfodol

*Cyflogau Staff Cymorth, Costau Swyddfeydd a Llety Preswyl*

47. Er bod y Bwrdd wedi pennu'r egwyddorion ynglŷn â strwythur Cyflogau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, Costau Swyddfa a Llety Preswyl, mae'r penderfyniadau terfynol ar yr union lefelau a fydd yn gymwys ar ddechrau'r Cynulliad nesaf wedi'u gohirio er mwyn iddynt gael eu gosod yng ngoleuni amodau'r farchnad gyfoes yn 2016.

*Pensiynau Aelodau'r Cynulliad*

48. Rhaid i'r Cynllun Pensiwn newydd i'r Aelodau sydd wedi'i lunio gan y Bwrdd gael ei gymeradwyo gan Drysorlys EM cyn y gall ddod i rym. Mae deialog â Thrysorlys EM wedi'i chynnal drwy gydol yr adolygiad, ac mae'r Bwrdd yn optimistig y bydd cymeradwyaeth yn cael ei rhoi. Disgwylir i'r broses gael ei chwblhau, ac y caiff y cynllun terfynol ei gymeradwyo, yn nes ymlaen yn yr haf.

*Cadeiryddion Pwyllgorau*

49. Mae'r Bwrdd wedi pennu cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau ar sail cyfansoddiad presennol y pwyllgorau. Os ceir newid sylweddol yn strwythur y pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad, yna bydd angen i'r Bwrdd ailedrych ar ei benderfyniadau.

*Adolygu, Archwilio a Chloriannu*

50. Yn unol â'r Mesur, bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu effaith ei Benderfyniad yn ystod y Pumed Cynulliad. Bydd yn cymryd i ystyriaeth y modd y mae'r Penderfyniad yn gweithio, unrhyw newid annisgwyl yn swyddogaethau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau newydd eraill sy'n berthnasol ym marn y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn cynnal archwiliadau pan fo'u hangen i sicrhau bod unrhyw weithdrefnau newydd yn gweithio'n effeithiol a bydd yn parhau i ymgynghori'n agos ag Aelodau'r Cynulliad, eu staff a'r cyhoedd.

# 2. Esblygiad y Cynulliad

51. Gweler y ffeithlun ar y tudalennau nesaf.

## Edrych ymlaen

52. Ers 1999, mae'r Cynulliad wedi newid gryn dipyn, gan sicrhau pwerau a chyfrifoldebau newydd ehangach yn gyson. Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi yw'r cam diweddaraf yn y daith honno.

53. Mae gwaith a chyfrifoldebau'r Aelodau wedi esblygu ochr yn ochr â'r sefydliad. Ar un adeg roedd yn swydd lai ymestynnol, ond erbyn hyn nid oes fawr o wahaniaeth rhwng rôl Aelod Cynulliad ac MSP yn yr Alban, ac ychydig bach yn unig rhyngddi a rôl AS yn San Steffan.

54. Yr hyn sy'n glir yw y bydd y Cynulliad yn dal i esblygu. Gwyddys bod y Cynulliad yn debyg o gael rhagor o bwerau o ganlyniad i Fil Cymru yn y dyfodol a fydd yn codi yn sgil proses Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r Bwrdd wedi seilio ei Benderfyniad ar yr hyn y mae'n ei wybod. O 2016 ymlaen, bydd gan y Cynulliad bwerau codi trethi yn ychwanegol at arlwy ehangach o bwerau deddfu a phwerau polisi. Mae'r symudiad i alluogi'r Cynulliad i'w alw ei hun yn "Senedd" hefyd yn gydnabyddiaeth o'r newid yn ei statws. Mae'r Penderfyniad wedi ceisio adlewyrchu'r newid hwn yn natur a rôl y sefydliad a sicrhau bod gan ei Aelodau y gallu i ateb disgwyliadau pobl Cymru.

# Hanes y Cynulliad

**18 Medi 1997** - Cynhelir refferendwm. Mae mwy na hanner - 50.3 y cant - o blaid Cynulliad i Gymru

1 — Y Cynulliad Cyntaf **1999-2003**

2 — Yr Ail Gynulliad **2003-2007**

3 — Y Trydydd Cynulliad **2007-2011**

4 — Y Pedwerydd Cynulliad **2011-2015**

## 1

**6 Mai 1999**
Etholiadau'r Cynulliad Cyntaf.

**27 Tachwedd 2001**
Y cynnig cyntaf i dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng gwahanol rannau'r Cynulliad, sef y llywodraeth (y weithrediaeth) a'r senedd (y ddeddfwrfa). O hyn ymlaen, caiff y term Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ddefnyddio i ddisgrifio'r Cabinet a'i waith.

**14 Chwefror 2002**
Mae'r Cynulliad yn pleidleisio dros 'y rhaniad cliriaf posibl rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad.

**18 Ebrill 2002**
Sefydlir Comisiwn Richard i wneud argymhellion ynghylch pwerau'r Cynulliad.

## 2

**31 Mawrth 2004**
Cyhoeddir adroddiad Comisiwn Richard, sy'n argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael mwy o bwerau i wneud deddfau.

**6 Hydref 2004**
Mae'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid gwahanu'r Llywodraeth a'r Cynulliad ac i gael mwy o bwerau deddfu.

**25 Gorffennaf 2006**
Cyhoeddir Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n darparu ar gyfer refferendwm bellach ar bwerau deddfu llawn ac i senedd y DU roi'r hawl i'r Cynulliad wneud deddfau fesul Bil drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

3

**6 Mehefin 2007**
Etholir Comisiynwyr i oruchwylio staff a materion busnes i'r Cynulliad.

**9 Gorffennaf 2008**
Daw Mesur cyntaf y Cynulliad yn gyfraith yng Nghymru yn dilyn cymeradwyaeth yn y Cyfrin Gyngor gan Ei Mawrhydi y Frenhines, sef y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008. Dyma'r gyfraith Gymreig gyntaf i gael ei phasio ers y ddegfed ganrif.

**21 Gorffennaf 2010**
Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yw Mesur Arfaethedig cyntaf Comisiwn y Cynulliad i gael cymeradwyaeth Frenhinol. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu panel annibynnol a fydd yn gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol.

**4 Mawrth 2011**
Cyhoeddwyd canlyniad swyddogol refferendwm 2011 ar bwerau deddfu'r Cynulliad. Y nifer a bleidleisiodd yn y refferendwm oedd 35.6 y cant. Pleidleisiodd 63.5 y cant o blaid a phleidleisiodd 36.5 y cant yn erbyn.

4

**12 Tachwedd 2012**
Rhoddir Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Cymreig cyntaf i'w basio o dan bwerau newydd y Cynulliad, sef Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.

**20 Mawrth 2014**
Caiff Bil Cymru ei gyflwyno yn Senedd y DU a chaiff ei Ddarlleniad Cyntaf. Caiff papur gorchymyn, Bill Cymru: grymuso ac atebolrwydd ariannol, ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU i gyd-fynd â'r Bil.

**17 Rhagfyr 2014**
Rhoddir Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Cymru 2014 yn y Senedd, gan roi pwerau trethu a benthyca i'r Cynulliad, a newid rhai trefniadau etholiadol.

**27 Chwefror 2015**
Mae Cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi yn nodi glasbrint ar gyfer dyfodol datganoli, gan gynnwys cyllid gwaelodol a phwerau ychwanegol dros ynni, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Fodd bynnag, bydd gweithredu datganoli pellach yn fater i Lywodraeth nesaf y DU yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015.

# 3. Taliadau Aelodau'r Cynulliad

*Yn y bennod hon, mae'r Bwrdd yn amlinellu sut mae wedi penderfynu ar y taliadau i'r Aelodau.*

*Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r cyflog sylfaenol ac wedi nodi na chafodd y cynnydd yng nghyfrifoldebau Aelodau cyffredin ei adlewyrchu yn y Penderfyniad blaenorol. Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai'r cyflog sylfaenol gael ei osod yn £64,000 o fis Mai 2016 ymlaen.*

*Mae'r newidiadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud yng nghynllun pensiwn yr Aelodau yn lleihau ystod a maint y buddion a ddarperir gan y cynllun a'r gost i'r trethdalwr, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau dalu mwy.*

*Comisiynodd y Bwrdd ymchwil fanwl i gloriannu rolau'r Gweinidogion, y Llywyddion a deiliaid swyddi eraill. Mae wedi pennu cyflogau i adlewyrchu'r newid ym mhwysau'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd ganddynt ac mae wedi codi'r cyflogau a delir i ddeiliaid swyddi yn y ddeddfwrfa o'u cymharu â deiliaid swyddi yn y llywodraeth. Drwyddi draw, bydd cyfanswm cost cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi'n gostwng rhwng 2015-16 a 2016-17.*

55. Mae adran 13 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud un Penderfyniad (gan gynnwys mecanwaith uwchraddio, os yw'n briodol) ynglŷn â chyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer y cyfan o bob tymor Cynulliad. Er hynny, mae'r Bwrdd yn cael adolygu'r elfen hon os yw o'r farn, yn ystod Cynulliad, fod yna amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn "gyfiawn ac yn rhesymol"[9] gwneud hynny.

56. Wrth wneud y Penderfyniad, mae'n ofynnol i'r Bwrdd asesu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan yr Aelodau. Gan hynny, mae'n bwysig ystyried sut mae'r rhain wedi newid dros amser.

57. Mae'r llinell amser ym Mhennod 3 yn nodi'r prif gerrig milltir ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu ym 1999

58. Tri phwynt hollbwysig yn esblygiad cyfrifoldebau'r Cynulliad yw:

    2007 – pan gafodd deddfwrfa annibynnol ei sefydlu am y tro cyntaf, gan ddarparu bod pwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar gael;

    2011 – pan allai'r pwerau deddfu hynny gael eu defnyddio heb gyfraniad gan San Steffan neu Whitehall;

    2016 – pan fydd pwerau cyllidol ar gael am y tro cyntaf i'r Cynulliad.

    Disgwylir y bydd pwerau ychwanegol dros yr amgylchedd, ynni a thrafnidiaeth, yn ogystal â phwerau arwyddocaol i'r Cynulliad dros faterion etholiadol a'i faterion ei hun, yn cael eu datganoli yn gynnar yn Senedd nesaf y Deyrnas Unedig.

59. Wrth wneud y Penderfyniad, mae'r Bwrdd yn glir y dylai cyfanswm taliadau'r Aelodau (eu cyflogau a chyfraniadau'r cyflogwr at eu pensiynau) adlewyrchu cyfrifoldeb a phwysau'r swydd yn bennaf, yn hytrach na'r llwyth gwaith.

60. Bydd Aelodau'r Cynulliad nesaf yn gyfrifol ar eu pen eu hunain am greu cyfreithiau yng Nghymru yn y meysydd polisi datganoledig; mae ehangder y cyfrifoldeb datganoledig hwnnw dros bolisïau yn debyg o gynyddu ymhellach eto; fe fyddan nhw'n gyfrifol am agweddau ar y gyfundrefn drethu a benthyciadau'r llywodraeth ac felly bydd ganddynt reolaeth dros ysgogiadau cyllidol am y tro cyntaf; byddant yn parhau i ymdrin â materion lleol yn amrywio o ad-drefnu ysbytai i gau ysgolion i gyfuno cynghorau; ac fe wnânt hyn o dan chwyddwydr cyson y cyfryngau gan weithio oriau anghymdeithasol ac wythnosau o drigain awr o leiaf. Bydd yr Aelodau hynny nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ynglŷn â'r cyfan o'i

---

[9] *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, adran 13, (4)*

gwariant a'i gweithredoedd polisi a deddfu a thros fynegi gweledigaeth amgen ar gyfer y dyfodol.

61. Er bod y farn bod y Cynulliad yn rhy fach yn cael ei derbyn yn fwyfwy, mae'r Bwrdd yn nodi nad oes cynnydd yn nifer Aelodau'r Cynulliad yn debyg o ddigwydd cyn 2021. Mae wedi gwneud ei benderfyniadau ar y rhagdybiaeth mai trigain o Aelodau Cynulliad a geir o hyd drwy gydol y Pumed Cynulliad.

# Cyflogau Aelodau'r Cynulliad

## Gwybodaeth allweddol

62. Yn 2015-16 mae'r Aelodau'n cael cyflog sylfaenol o £54,391. Amcangyfrifir bod cyfanswm eu taliadau – gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at y pensiwn (yr hen gynllun) o 23.8% - oddeutu £67,300.

63. Mae'r data allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd yn cynnwys:

- Cymariaethau ag uwch-gyflogau eraill yn y sector cyhoeddus;
- Cymariaethau â deddfwrfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig;
- Cymariaethau ag enillion canolrifol yng Nghymru;
- Cymariaethau ag uwch-gyflogau eraill yn y sector cyhoeddus
- Data a gasglwyd gan yr Hay Group;
- Ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflogau, ac ar y Penderfyniad Drafft ar gyfer y Pumed Cynulliad (ffurfiol ac anffurfiol);
- Adborth y rhanddeiliaid;
- Adwaith y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol i'r ymgyngoriadau.

64. Wedi cymryd yr holl dystiolaeth hon i ystyriaeth, mae'r Bwrdd o'r farn nad yw cyflog sylfaenol Aelod yn adlewyrchu ei gyfrifoldebau erbyn hyn.

65. O ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen, bydd cyflog sylfaenol Aelod yn £64,000. Bydd hyn yn cynyddu (neu'n gostwng) bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn enillion Cymru, fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd cyfanswm taliadau Aelod o'r Cynulliad yn 2016 – gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at y pensiwn (y cynllun newydd) o ryw 16.6% – oddeutu £74,600.

## Y sefyllfa gyfredol yn neddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig

66. Y cynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig sy'n cynnig y gymhariaeth agosaf â rôl a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad. Mae'r adran hon yn nodi'r sefyllfa gyfredol ym mhob un.

### San Steffan

67. Mae'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) wedi dangos ei fod yn bwriadu gosod cyflog sylfaenol Aelod Seneddol (AS) yn £74,000 o'r Etholiad Cyffredinol ym mis Mai 2015 ymlaen[10] (sef cynnydd o 9.3%). Byddai'r cyflog yn cael ei fynegeio â'r newid blynyddol yn enillion cyfartalog yr economi cyfan wedyn. Mae'r penderfyniad hwn yn dibynnu ar adolygiad statudol ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig, a disgwylir y

[10] *Yn dibynnu ar adolygiad ar ôl yr Etholiad Cyffredinol*

penderfyniad terfynol gan IPSA cyn mis Medi 2015 (er y caiff unrhyw newid yn y cyflog a/neu'r ddarpariaeth ar gyfer pensiwn ei ôl-ddyddio i fis Mai).

68. Dwy o'r prif ystyriaethau i IPSA oedd bod tâl ASau wedi syrthio y tu ôl i dâl rolau tebyg ers 2007, a'r berthynas rhwng tâl ASau ac enillion cyfartalog cenedlaethol.

69. Cafodd IPSA feirniadaeth sylweddol am ei benderfyniad gan y cyhoedd ac ASau.

70. Ochr yn ochr â chynnydd arwyddocaol yn y cyflog sylfaenol, mae cynllun pensiwn ASau wedi'i newid i roi lefel is o fuddion yn gydradd ag eraill yn y sector cyhoeddus. Disgwylir i gyfradd cyfraniad y cyflogwr ostwng i 12.4% o'i lefel bresennol o 20.4%. Er hynny, os caiff penderfyniadau presennol IPSA eu dilysu yn nes ymlaen eleni, yna o gofio Penderfyniad y Bwrdd, byddai cyfanswm taliadau ASau yn dal dros £10,000 yn fwy nag Aelodau'r Cynulliad.

### Yr **Alban**

71. O 2002 ymlaen, cafodd cyflog Aelod o Senedd yr Alban (MSP) ei bennu yn 87.5% o gyflog AS yn San Steffan. Ar ddiwedd 2013, cafodd y cysylltiad awtomatig â thâl ASau ei dorri fel bod tâl MSPs yn newid bellach yn unol â newidiadau yn enillion gweithwyr sector cyhoeddus yr Alban. Mae'r cyflog sylfaenol a chyflogau deiliaid swyddi wedi cynyddu fel hyn ers 2015.

72. Ar 17 Mawrth 2015, pleidleisiodd Senedd yr Alban i gymeradwyo cyflog sylfaenol i MSPs o £59,089 ar gyfer 2015-16. Mae cynnydd arall – yn unol â chynnydd i weithwyr sector cyhoeddus yr Alban – ar y gweill ar gyfer 2016-17. Er hynny, does dim bwriad ar hyn o bryd i adolygu cynllun pensiwn MSPs (sydd â chyfradd cyfraniad cyflogwr o 20.2%) yn yr un modd â San Steffan, Gogledd Iwerddon a Chymru.

73. O ran cyfanswm y taliadau, mae'r Bwrdd yn amcangyfrif – a bwrw y bydd cyflog MSPs yn cynyddu yn 2016-17 yn ôl swm tebyg i 2015-16 – y byddai MSP yn cael tua £71,500 yn 2016.

### Gogledd Iwerddon

74. Mae tâl yr Aelodau yng Ngogledd Iwerddon yn cael ei bennu gan Banel Adolygu Ariannol Annibynnol (IFRP) a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth sy'n adlewyrchu'n deddfwriaeth ninnau. Mae'r Panel wedi gosod cyflog sylfaenol MLAs yn £48,000 tan ddiwedd y Cynulliad yn 2016. Ymgynghorodd y Panel yn ddiweddar ar newid cynllun pensiwn yr Aelodau ar gyfer y mandad nesaf, a daw ei ymgynghoriad ar gyflogau i ben ddiwedd Mai 2015. Mae'r IFRP yn cydnabod mai'r rheswm allweddol pam y mae cyflog MLAs yn is na'r deddfwrfeydd eraill yw bod cynifer ohonynt am bob pen o'r boblogaeth a bod hyd a lled a dyfnder eu cyfrifoldebau unigol yn llai nag yn y deddfwrfeydd eraill.

### Cymru

75. Pan gafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei sefydlu i ddechrau, roedd cyflog Aelod yn adlewyrchu argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB). Hanfod gwaith yr SSRB y pryd hwnnw (ac mewn adolygiadau dilynol yn 2001 a 2004) oedd pwyso a mesur rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad o'u cymharu ag ASau San Steffan a chymaryddion yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

76. Er nad oes cysylltiad uniongyrchol mwyach rhwng taliadau ACau a thaliadau ASau, mae'n dal yn un o'r cymaryddion amlycaf a mwyaf perthnasol. Yn y deugain o etholaethau yng Nghymru, mae'r AC a'r AS lleol yn cynrychioli'r un ardal, mae rhai hyd yn oed yn rhannu swyddfeydd a staff. Mae'r gymhariaeth yn un naturiol.

77. Yn 2007, pan gafodd gweithrediaeth a deddfwrfa ar wahân a phwerau deddfwriaeth sylfaenol eu cyflwyno, cafodd cyflog sylfaenol AC ei bennu yn 82% o gyflog sylfaenol AS. Ers hynny, mae cyflog AC wedi gostwng o'i gymharu â chyflog AS. Pe bai cyflog AC yn 2015 yn dychwelyd i lefel a fyddai'n cyfateb i 82% o gyflog AS, byddai'n cael ei bennu oddeutu £60,700. Mae pwysau rôl yr AC wedi cynyddu gryn dipyn wrth gwrs ers 2007. Er ei bod yn anodd cymharu'n uniongyrchol ar gyfer 2016, mae cyflog AC yn y Pumed Cynulliad yn debyg o fod ychydig yn fwy nag 82% o gyflog AS.[11]

## Cyfanswm y taliadau – cymhariaeth rhwng y deddfwrfeydd

78. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Bwrdd wedi ystyried cyflog Aelodau yng nghyd-destun cyfanswm y taliadau. Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif syml iawn o werth cyfanswm y taliadau ar gyfer y rôl – hynny yw, y cyflog sylfaenol a chyfraniad y cyflogwr at y cynllun pensiwn. Fel yr oedd yn glir yn nogfen ymgynghori'r Bwrdd ar bensiynau, gall cyfraniad y cyflogwr amrywio gryn dipyn yn ôl y rhagdybiaethau isorweddol a ddefnyddir ac felly fel dangosydd bras yn unig y dylid edrych ar hyn.

79. Yn achos ASau, mae ffigurau 2015 yn adlewyrchu penderfyniad presennol IPSA ar y tâl sylfaenol ac maent yn cyfrifo cyfraniad pensiwn ar sail Adroddiad Terfynol IPSA ar Dâl a Phensiynau, Rhagfyr 2013.[12] Mae ffigurau'r Alban yn cynnwys cyfraniad o 20.2% gan y cyflogwr fel y gwelir yng nghyfrifon blynyddol y cynllun ar gyfer 2013-14.

---

[11] *Mae hyn wedi'i seilio ar y ffigur a ragdybiwyd yn Nhabl 1 gan nad yw cyflogau ASau 2016 yn hysbys. Defnyddiwyd amcangyfrif yr OBR o dwf enillion y Deyrnas Unedig (3.1%).*

[12] *Mae Adroddiad Terfynol IPSA ar Dâl a Phensiwn yn nodi cyfraniad gan y trethdalwr o 54% at gynllun sy'n costio 22.9% o'r gyflogres, sy'n awgrymu cyfraniad gan y cyflogwr o 12.4% o'r cyflog.*

**Tabl 1: Amcangyfrif o gyfanswm y taliadau yn seneddau'r Deyrnas Unedig**

| Amcangyfrif o gyfanswm y taliadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyflog | Cyfradd cyfraniad y cyflogwr am wasanaeth yn y dyfodol $ | Amcangyfrif o gyfraniad y cyflogwr (i'r £100 agosaf) | Amcangyfrif o gyfanswm y taliadau (i'r £100 agosaf) |
| AC | 2014 | Cynllun pensiwn cyfredol | £53,852 | 23.80% | £12,800 | £66,700 |
| | 2015 | Cynllun pensiwn cyfredol | £54,391 | 23.80% | £12,900 | £67,300 |
| | 2016 | Cynllun pensiwn newydd | £64,000 | 16.60% | £10,600 | £74,600 |
| MSP | 2014 | Cynllun pensiwn cyfredol | £58,678 | 20.20% | £11,900 | £70,500 |
| | 2015 | Cynllun pensiwn cyfredol | £59,090 | 20.20% | £11,900 | £71,000 |
| | *2016~* | *Cynllun pensiwn cyfredol* | *£59,500* | *20.20%* | *£12,000* | *£71,500* |
| AS | 2014 | Cynllun pensiwn cyfredol | £67,060 | 20.40% | £13,700 | £80,700 |
| | 2015 | Cynllun pensiwn newydd | £74,000 | 12.40% | £9,200 | £83,200 |
| | *2016^* | *Cynllun pensiwn y dyfodol* | *£76,300* | *12.40%* | *£9,500* | *£85,800* |

~ Nid yw'r ffigur italig ar gyfer MSPs yn 2016 yn hysbys. Er mwyn cymharu, defnyddiwyd cynnydd 2014-15 yn enillion y sector cyhoeddus (0.7%) ar gyfer 2015-16 hefyd.
^ Nid yw'r ffigur italig ar gyfer ASau yn 2016 Er mwyn cymharu, defnyddiwyd amcangyfrif yr OBR o dwf enillion y Deyrnas Unedig (3.1%).
$ Dangosir cyfraddau'r cyfraniadau er gwybodaeth. Bydd gan gynlluniau pensiwn gwahanol fuddion a threfniadau aelodaeth gwahanol ac mae'n bosibl nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â'i gilydd.

## Cyd-destun Cymru

80. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo o hyd i'r egwyddor bod rhaid i'w benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru a'r amgylchiadau ariannol ehangach sy'n effeithio ar Gymru. Roedd safle cyflog Aelod Cynulliad yn nosbarthiad enillion Cymru yn un o'r elfennau pwysig yn y dystiolaeth a ddefnyddiodd y Bwrdd i gyfiawnhau ei benderfyniad i rewi tâl am bedair blynedd cyntaf y Pedwerydd Cynulliad. Yn 2009, amcangyfrifwyd bod cyflogau'r Aelodau yn y 2% uchaf o'r holl enillwyr, ac yn y 5% uchaf o blith 'Rheolwyr ac Uwch-swyddogion' Cymru.

81. Mae'r tabl (isod) yn dangos sut y byddai tâl Aelodau'n edrych yn 2015 pe bai wedi dilyn newidiadau mewn prisiau, enillion canolrifol yng Nghymru neu'r enillion yn yr 80fed canradd o reolwyr ac uwch-swyddogion yng Nghymru ers 2010.

82. Pe bai'r cyflog wedi dilyn un o'r dangosyddion hyn ers 2010, sef y sylfaen y seiliwyd y rhewiad arno, byddai wedi cyrraedd rhwng £59,800 a £63,600 erbyn 2016.

**Tabl 2: pe bai cyflog AC wedi dilyn newidiadau mewn amryw o fynegeion ers 2010**[13]

| | | Cyflog AC pe bai wedi cydredeg ers y flwyddyn sylfaen 2010, â'r newidiadau blynyddol yn y canlynol: | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn galendr | Cyflog gwirioneddol AC | CPI | Enillion Canolrifol yng Nghymru | Rheolwyr ac Uwch-swyddogion 80% | RPI |
| 2010 | 53,852 | - | - | - | - |
| 2011 | 53,852 | 56,300 | 54,400 | 57,500 | 56,650 |
| 2012 | 53,852 | 57,800 | 54,900 | 58,500 | 58,450 |
| 2013 | 53,852 | 59,300 | 56,000 | 60,000 | 60,230 |
| 2014 | 53,852 | 60,200 | 56,700 | 59,800 | 61,660 |
| 2015# | 54,391 | 60,300 | 58,000 | 61,200 | 62,270 |
| 2016# | 64,000 | 61,000 | 59,800 | 63,100 | 63,580 |

Ffynonellau: Arolwg Blynyddol SYG o Oriau ac Enillion a'r CPI. Amcangyfrifol CPI 2015 a 2016 o ragolygon yr OBR ynglŷn â Chyllideb 2015.

# Y cynnydd cyfartalog mewn enillion yn 2015 a 2016 o amcangyfrifon yr OBR o gynnydd yn y Deyrnas Unedig o 2.3% yn yr enillion cyfartalog yn 2015 a chynnydd o 3.1% yn 2016.

83. Ystyriodd y Bwrdd hefyd lefel uwch-gyflogau yn y sector cyhoeddus, cyflogau mewn galwedigaethau proffesiynol eraill, a safle cyflogau ACau yn y dosbarthiad enillion. Er enghraifft, yn 2012/13, enillodd mwy na 1,100 o unigolion yng nghyflogaeth yr awdurdodau lleol yng Nghymru fwy na £60,000 y flwyddyn. Yn yr un modd, roedd y mwyafrif o'r uwch-reolwyr yn Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Byrddau Iechyd, yr Heddlu a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai mewn amryw o alwedigaethau proffesiynol i gyd yn ennill cyflogau ar yr un lefel neu yn uwch – yn aml gryn dipyn yn uwch – na'r lefel y mae'r Bwrdd yn ei chyflwyno ar gyfer Aelodau'r Pumed Cynulliad.

84. Yn yr ymatebion ymgynghori, awgrymodd llawer o bobl fod y Bwrdd wedi methu adnabod realiti'r economi yng Nghymru. Mae'r Bwrdd yn deall y teimlad hwn – mae'r enillion cyfartalog yng Nghymru yn isel ac mae llawer o bobl wedi gweld newid bach, neu

[13] *Cymerwyd ffigur cyflog AC yn 2010 fel man cychwyn ym mhob colofn. Addaswyd y ffigur hwnnw wedyn dros y blynyddoedd i adlewyrchu'r newid canrannol yn y dangosydd chwyddiannol hwnnw, i ddangos sut y byddai cyflogau ACau wedi cymharu dros amser â'r newid yn y dangosyddion hyn. Er enghraifft, yn y golofn CPI, mae cyflog AC o £53,852 yn 2010 yn cael ei godi yn unol â'r newid yn y CPI blynyddol bob blwyddyn. Felly, byddai cymhwyso'r amcangyfrif o'r newid yn y CPI at gyflog AC yn 2010 yn arwain at gyflog o £61,000 yn 2016.*

ddim newid o gwbl, yn eu tâl yn y blynyddoedd diwethaf. Eto i gyd, mae'r data economaidd a welwyd wedi arwain y Bwrdd i'r casgliad *bod* ffigur rhwng £60,000 a £70,000 yn briodol yn fras ar gyfer cyflog sylfaenol Aelod yn y Pumed Cynulliad. Yn wir, pe bai'r cyflog sylfaenol wedi codi yn unol â nifer o fesurau rhesymol ers 2010, fe fyddai'n fwy na £60,000 erbyn hyn.

85. Wrth ddod i'w gasgliad, mae'r Bwrdd hefyd wedi cymryd i ystyriaeth y gostyngiad yn lefel gymaradwy'r buddion yn y cynllun pensiwn, o ganlyniad i'r newidiadau sy'n cael eu gwneud, ac, yn bwysig iawn felly, o ganlyniad i bwysau ychwanegol y cyfrifoldeb sydd gan yr Aelodau bellach ac a fydd ganddynt yn y dyfodol.

## Cefndiroedd Aelodau'r Cynulliad a etholwyd yn 2011

86. Ystyriodd y Bwrdd hefyd gefndiroedd Aelodau'r Cynulliad ar sail adroddiad Cymdeithas Hansard yn 2013 - *Assembly Line? -The Experiences and Development of new Assembly Members.*[14] Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am gefndir proffesiynol Aelodau Cynulliad newydd ac yn gofyn am eu tâl yn eu cyflogaeth flaenorol.

87. O'r 23 o Aelodau newydd yn sgil etholiad 2011, roedd 15 yn ddynion ac wyth yn fenywod, roedd dau wedi bod yn Aelodau Seneddol yn San Steffan ac roedd 11 wedi bod yn gynghorwyr lleol. Roedd y grŵp yn cynnwys chwe chyfreithiwr, pump o athrawon neu ddarlithwyr, ynghyd ag eraill a oedd â phrofiad mewn newyddiaduraeth, gwaith cymdeithasol, busnes, tai, plismona a gwaith elusennol a chymunedol.

88. O'r 23 o Aelodau newydd, ymatebodd 12 am sut roedd cyflog sylfaenol AC (£53,852) yn cymharu â'u henillion blaenorol cyn cael eu hethol. Dywedodd hanner fod eu cyflog wedi codi, dywedodd hanner ei fod wedi gostwng neu heb newid. Nododd dau AC fod eu cyflog wedi codi mwy na £30k a dywedodd dau ei fod wedi gostwng mwy na £30k.

## Arolwg y Bwrdd Taliadau ymysg yr Aelodau

89. Rhwng Mai a Mehefin 2014, cafodd yr holl Aelodau eu gwahodd i lenwi arolwg byr ar-lein. Gwrthododd y Grŵp Llafur gymryd rhan yn yr arolwg. O'r 30 o Aelodau eraill, 17 a ymatebodd. O gofio cyfrifoldebau eu rôl, gofynnwyd i'r Aelodau ddweud a oedden nhw'n credu bod lefelau eu cyflogau'n rhy isel, yn agos ati neu'n rhy uchel.

90. O'r 15 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, dywedodd wyth fod lefelau'r cyflog yn agos ati ac roedd y saith arall yn meddwl eu bod yn rhy isel. Ddywedodd neb eu bod yn rhy uchel.

91. Nid yw'n syndod bod y ffigurau hyn wedi'u hadlewyrchu yn yr atebion i'r cwestiwn nesaf yn yr arolwg, a ofynnodd am y band tâl y dylai'r cyflog sylfaenol fod ynddo. Dywedodd

[14] *Gellir lawrlwytho adroddiad Cymdeithas Hansard yma:* *http://www.hansardsociety.org.uk/assembly-line-new-ams/*

saith y dylai cyflog sylfaenol AC fod rhwng £50,000 a £60,000, dywedodd saith arall mai yn yr amrediad £60,000 - £70,000 a dywedodd un fwy na £70,000.

## Ymatebion ymgynghori

92. Yr elfen o'r Penderfyniad sy'n ymwneud â chyflogau yw'r unig un o feysydd gwaith y Bwrdd sydd wedi tanio ymateb cyhoeddus. Yn sgil sylw helaeth yn y cyfyngau ledled Cymru, cafodd y Bwrdd 65 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflogau (Tachwedd 2014 – Ionawr 2015), a 36 yn rhagor o ymatebion i'r Penderfyniad Drafft (Mawrth – Ebrill 2015). Ar y cyflogau yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn yn canolbwyntio bron yn llwyr.

93. Er ein bod yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgyngoriadau, siom i'r Bwrdd oedd nifer isel yr ymatebion a gafwyd. Er bod arolygon yn dal i ddangos cefnogaeth i'r sefydliad, mae'n glir bod yna waith i'w wneud o hyd i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r rhan bwysig sy'n cael ei chwarae gan yr Aelodau ym mywyd Cymru.

94. Mae yna farn bendant ymysg y rhai a ymatebodd fod talu cyflog uwch i'r Aelodau yn amhoblogaidd ac yn anhaeddiannol. Cyfeiriodd llawer at gyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus, ac yn arbennig y sector iechyd a/neu addysg, fel rheswm pam na ddylai'r Aelodau gael cyflog uwch. Dadleuai rhai ymatebion fod amgylchiadau'r economi, a'r wasgfa ar wariant cyhoeddus yn golygu na oedd yr amser yn iawn i gynyddu taliadau i'r Aelodau o gwbl. Dadleuai cyfran lai nad oedd perfformiad yr Aelodau – neu ansawdd yr Aelodau – yn haeddu codiad tâl. Roedd lleiafrif bach yn amau a ddylai'r Cynulliad fodoli fel sefydliad. Ychydig iawn o'r ymatebion a aeth ati i drafod y dadleuon manwl ynghylch pwysau a chyfrifoldeb y swydd a nodwyd gan y Bwrdd.

95. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgyngoriadau, ailedrychodd y Bwrdd ar y rhesymeg y tu ôl i'w gynnig gwreiddiol ynghylch lefel briodol o gyfanswm taliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad cyn iddo gyhoeddi'r ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad drafft. Edrychodd y Bwrdd eto ar ei syniadau yn sgil yr ymgynghoriad terfynol hwnnw. Mae'r Bwrdd yn deall y gall ymddangos yn annheg bod un grŵp o weithwyr yn cael codiad cyflog pan nad yw grwpiau eraill yn ei gael. Mae'n cydnabod hefyd mai isel yw poblogrwydd gwleidyddion a pharch tuag atynt. Er hynny, rôl y Bwrdd annibynnol yw edrych ar yr holl dystiolaeth a defnyddio'n profiad a'n barn i benderfynu ar yr hyn sy'n briodol – cafodd y Bwrdd ei sefydlu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cymryd o ddwylo'r gwleidyddion ac yn cael eu seilio ar dystiolaeth, nid ar yr hyn a fydd yn boblogaidd.

96. Ar ôl ystyried yn ofalus, welodd y Bwrdd ddim byd o sylwedd yn y naill set o ymatebion ymgynghori na'r llall i newid ei farn bod £64,000 yn lefel dâl briodol ar gyfer pwysau gwaith Aelod Cynulliad yn y Pumed Cynulliad.

## Casgliad

97. Er mai di-nod fu'r cynnydd mewn enillion yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ffaith bod tâl Aelodau wedi'i rewi ers 2010 yn golygu eu bod wedi llithro i lawr y dosbarthiad enillion o'u cymharu ag enillwyr eraill yng Nghymru, yn arbennig felly enillwyr mawr. Bydd y newidiadau y mae'r Bwrdd yn eu gwneud yng nghynllun pensiwn yr Aelodau yn y Cynulliad nesaf yn rhoi rhyw fesur o wrthbwysau yn erbyn gwerth cyfanswm taliadau'r Aelodau. Yn y cyfamser, mae tâl y grŵp cymaradwy amlycaf – Aelodau Seneddol – yn cynyddu'n arwyddocaol ar ôl yr Etholiad Cyffredinol, heb gynnydd yn y cyfrifoldebau, i lefel sy'n fwy na gwneud iawn am y buddion yn eu cynllun pensiwn.

98. Erbyn hyn, mae cyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad o ran deddfu yn arwyddocaol, a does dim cymhariaeth rhwng y cyfrifoldebau hyn a chyfrifoldebau eu rhagflaenwyr mewn mandadau blaenorol. O edrych ymlaen, bydd cyfrifoldebau'r rhai a etholir yn 2016 yn fwy byth – gan gynnwys yn fwyaf amlwg bwerau dros drethu a benthyciadau llywodraeth am y tro cyntaf ond hefyd cynnydd tebygol arall yn ehangder y cymhwysedd deddfwriaethol. Ar gyfer Cynulliad 2016-21 o leiaf, bydd y cyfrifoldebau yn nwylo trigain o unigolion, sef y ddeddfwrfa leiaf yn y Deyrnas Unedig ac un sy'n llai na bron hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddant yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn heb y cysur sydd gan Aelodau Seneddol o gael ail siambr i ddiwygio'u gwaith.

99. Chafodd cynnig y Bwrdd ynglŷn â chyflogau sylfaenol mo'i dderbyn yn wresog gan y cyhoedd, Aelodau unigol o'r Cynulliad na'r pleidiau gwleidyddol. Er hynny, mae'r Bwrdd yn dal o'r farn bod cyflog o £64,000 a chyfraniadau cyflogwr at y pensiwn o ryw 16.6% o'r cyflog (i lawr o 23.8% o'r cyflog yn y cynllun pensiwn cyn 2016) yn gyfanswm taliadau sy'n briodol er mwyn peidio ag atal person o safon rhag gwneud gwaith anodd ac ymestynnol sydd â phroffil uchel a lefelau uchel o sylw gan y cyhoedd a lle nad yw sicrwydd y swydd yn dibynnu o reidrwydd ar berfformiad personol.

100. Mewn ymateb i'r ymgyngoriadau mae rhai wedi dweud nad yw'r to presennol o Aelodau'n werth y cyflog hwn. Nid yw hyn yn berthnasol i'r dyfarniad y mae'n rhaid i'r Bwrdd ei wneud. Barn y Bwrdd yw bod rôl Aelod Cynulliad yn werth y lefel hon o gyfanswm taliadau. Mater i'r pleidiau yw dewis unigolion o safon i'w cynnig i'r etholwyr i'w cynrychioli ac i wneud y deddfau a'r penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar ddyfodol Cymru.

101. Wedi ystyried ystod o ddangosyddion y Deyrnas Unedig a dangosyddion Cymru-yn-unig, mae'r Bwrdd yn credu y dylai newidiadau yn y dyfodol yn y cyflog a delir i'r Aelodau adlewyrchu newidiadau yn yr enillion cyfartalog yng Nghymru.

102. Yn yr ymgyngoriadau, dywedodd llawer o'r ymatebwyr y byddai newidiadau yng nghyflogau'r sector cyhoeddus yn fynegai priodol ar gyfer cyflog Aelodau Cynulliad. Dyna sy'n digwydd yn yr Alban. Er hynny, ym marn y Bwrdd, dylai tâl Aelodau gael ei gyplysu â thâl yr amrediad ehangaf posibl o etholwyr. Gan hynny, y newid blynyddol – i fyny ynteu i lawr – ym mynegai ASHE[15] o Enillion Canolrifol Cymru a fydd yn cael ei fabwysiadu fel y mesur uwchraddio. Bydd hyn yn cael ei asesu a bydd y gyfradd yn cael ei chyhoeddi bob mis Mawrth (o 2017 ymlaen) a daw i rym o'r 1 Ebrill dilynol.

*[15] ASHE – Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, a gynhyrchi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Enillion Blynyddol Gros Canolrifol gweithwyr amser-llawn yng Nghymru (a oedd wedi bod yn yr un swydd ers o leiaf 12 mis).*

# Pensiynau Aelodau'r Cynulliad

*Y cefndir*

103. Rhwng 1999 a 2008, cododd cyfraniad y trethdalwr at gynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad o 18.5% i 23.8% o gyflogau Aelodau a deiliaid swyddi.

104. Yn *Addas i'r Diben*, fel Penderfyniad interim, penderfynodd y Bwrdd ddefnyddio a chapio lefel y cyfraniad ar y pryd (23.8%) nes inni wneud ein hadolygiad llawn o Gynllun Pensiwn yr Aelodau. Daeth y Bwrdd i'r casgliad hefyd y dylai adolygiad llawn o ddarpariaethau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gael ei ohirio nes bod yr adroddiad terfynol gan Gomisiwn Annibynnol Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Hutton, ac arfarniad actiwaraidd y cynllun ar gyfer 2011, ar gael.

105. O ganlyniad i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror 2013, mae Deddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus 2013 (PSPA), sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer newid cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, yn gymwys i Gynllun Aelodau'r Cynulliad. Gan hynny, y PSPA fydd yn llywodraethu rhai o ofynion cynllun pensiwn newydd i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys ei drefniadau llywodraethu.

106. Mae'r Bwrdd wedi trafod ei gynigion drwy gydol y broses gyda Thrysorlys EM i sicrhau bod y trefniadau'n cydymffurfio â gofynion y PSPA a bydd angen i Drysorlys EM gymeradwyo'r cynllun terfynol yn nes ymlaen eleni.

107. Y newidiadau allweddol sy'n deillio o gynllun dewisol y PSPA a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw:

- cynllun pensiwn Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa (CARE);
- cyfradd gronni o 1/50 o'r enillion pensiynadwy bob blwyddyn. (Awgrymodd cynllun dewisol Llywodraeth y Deyrnas Unedig 1/60, ond, ar sail costiadau'r cynllun newydd, mae'r Bwrdd wedi cytuno gyda Thrysorlys EM (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol) mai cyfradd gronni o ryw 1/50 a fabwysiedir);
- Oedran Pensiwn Arferol wedi'i gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag yw'r uchaf);
- Y pensiynau sydd eisoes yn cael eu talu i gynyddu yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig: ar hyn o bryd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a ddefnyddir;
- Defnyddio cap ar gostau i sicrhau bod y cynllun yn parhau'r fforddiadwy (o dan ddiffiniadau'r PSPA) yn y tymor hir;

- Cyfundrefn lywodraethu wahanol. Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Pensiynau gael ei benodi ac arno gynrychiolaeth gyfartal o du’r cyflogwyr a’r gweithwyr.

## Adolygiad y Bwrdd

108. Yr adolygiad o’r pensiwn oedd y rhan fwyaf cymhleth yn dechnegol o waith y Bwrdd. Cafwyd tri ymgynghoriad ar bensiynau.

109. Edrychodd yr ymgynghoriad cyntaf ym mis Medi 2012 ar y materion a’r opsiynau ynglŷn â pha fath o gynllun y dylid ei gael i’r Aelodau – a daeth i’r casgliad mai cynllun Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa (CARE) fyddai’r dull mwyaf priodol.

110. Yn yr ymgynghoriad ym mis Ebrill 2014, edrychwyd ar opsiynau dangosol, wedi’u costio, ynglŷn â gwahanol fuddion a chyfraniadau, a mathau o amddiffyniad trosiannol.

111. Wedyn lluniodd yr adborth cyfyngedig i’r ymgynghoriad hwn yr ymgynghoriad manylach ym mis Gorffennaf 2014, a oedd yn cynnwys cynigion penodol ynghylch strwythur y buddion, y cyfraddau cyfrannu tebygol a sut y byddai’r cynllun yn gweithio. O ganlyniad i’r ymatebion i’r ymgynghoriad, gwnaeth y Bwrdd newidiadau bach yn y strwythur buddion ac yn y model o sut y byddai’r cynllun yn gweithio.

112. Er mai dyrnaid yn unig o ymatebion a gafodd y Bwrdd i’r ymgyngoriadau hyn, mae’r ymatebion a ddaeth i law wedi bod yn bwyllog ac wedi ymdrin â’r materion perthnasol.

113. Mae’r Bwrdd wedi cydgysylltu’r gyson ag Ymddiriedolwyr y cynllun presennol a’n cynghorwyr allanol wrth ddatblygu’r cynllun newydd. Mae Ymddiriedolwyr y cynllun presennol yn benodol wedi bod yn ddiwyd wrth gadw llygad ar y cynnydd, ac yn ffynhonnell werthfawr ar gyfer adborth ar yr awgrymiadau.

114. Mae gwaith y Bwrdd wedi elwa o gael cyngor cyfreithiol Wragge, Lawrence and Co; cyngor actiwaraidd gan PWC a gohebiaeth a thrafodaethau hefyd ag Adran Actiwarïaid y Llywodraeth (GAD), Ymddiriedolwyr y Cynllun pensiwn presennol a swyddogion Trysorlys EM. Mae’r Bwrdd yn ddiolchgar i bawb am eu cyfraniadau.

115. I grynhoi, bydd y Bwrdd yn cyflwyno cynllun newydd i’r Aelodau a fydd yn lleihau’r gost i’r trethdalwr ac yn cynyddu’r cyfraniadau y bydd yr Aelodau eu hunain yn eu gwneud. Cynllun CARE yn hytrach na chynllun cyflog terfynol fydd y cynllun hwn, a hynny yn unol â phroses debyg ar draws llawer o’r sector cyhoeddus. Mae hyn eisoes wedi digwydd yn San Steffan yn achos pensiynau Aelodau Seneddol, ac mae ar y gweill yn achos Aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon.

116. Drwy’r ymgyngoriadau i gyd, mae un neges wedi bod yn glir – sef y dylai aelodau’r cynllun presennol gadw’r buddion y maent wedi’u cronni hyd yn hyn. Mae’r Bwrdd yn credu bod hynny’n deg ac yn rhesymol ac mae wedi sicrhau mai felly y bydd hi.

117. Mae’r tabl isod yn nodi prif fuddion y cynllun newydd, a chymhariaeth â’r cynllun presennol.

**Tabl 3: Nodweddion y cynllun newydd a'r cynllun presennol i'w cymharu**

| Y prif fuddion/telerau cychwynnol | Y cynllun presennol | Y cynllun ar ôl 2016 |
|---|---|---|
| Y math o fudd | Cyflog Terfynol (er bod deiliaid swyddi'n cael eu cyfrifo ar sail CARE) yn ôl cyfradd gronni o 1/40 neu 1/50 | Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa |
| Ailbrisio | Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig: y CPI ar hyn o bryd | Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig: y CPI ar hyn o bryd |
| Codiadau pensiwn | Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig: y CPI ar hyn o bryd | Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig: y CPI ar hyn o bryd |
| Y gyfradd gronni flynyddol[1] | 1/50 neu 1/40 | 1/50 o'r enillion |
| Oedran Ymddeol Arferol (NRA) | 65 | 65 oed i bob unigolyn neu Odran Ymddeol y Wladwriaeth os yw'n uwch |
| Pensiwn priod/partner sy'n goroesi (os bydd yr aelod yn marw pan fo'r pensiwn yn cael ei dalu) | 5/8 o bensiwn yr Aelod | 1/2 o'r pensiwn gwirioneddol sy'n daladwy adeg marwolaeth yr aelod[2] |

[1] *Yn y cynllun presennol, caiff yr Aelodau ddewis eu cyfradd gronni, ac mae'r mwyafrif wedi dewis cynyddu eu cyfraniadau personol, a chronni fesul 1/40. Yn y cynllun newydd, fesul 1/50 yn unig y bydd modd cronni.*

[2] *O dan y cynllun presennol câi'r priod/partner sy'n goroesi 5/8 o'r pensiwn gwirioneddol sy'n daladwy ar ddydiad y farwolaeth.*

| Y prif fuddion/telerau cychwynnol | Y cynllun presennol | Y cynllun ar ôl 2016 |
|---|---|---|
| Pensiwn priod/partner sy'n goroesi (os bydd yr aelod yn marw mewn swydd) | 5/8 o bensiwn yr Aelod | 1/2 o'r pensiwn a fyddai wedi cronni erbyn Oedran Ymddeol Arferol[3] |
| Pensiwn priod/partner sy'n goroesi (os bydd pensiynwr gohiriedig yn marw) | 5/8 o bensiwn yr Aelod | 1/2 o'r pensiwn gohiriedig a fyddai wedi bod yn daladwy adeg marwolaeth yr aelod[4] |
| Cyfandaliad marwolaeth mewn swydd | 4 x cyflog pensiynadwy | 2 x cyflog |
| Y Gyfradd Gyfraniadau Safonol ar sail rhagdybiaethau ariannol Trysorlys EM | 34.3% | 27.6%[5] |
| Cyfraniad yr Aelod ar sail rhagdybiaethau ariannol Trysorlys EM | 10% ar gyfer 1/40<br>6% ar gyfer 1/50 | 11.0% ar gyfer 1/50[6] |
| Cyfraniad y 'Cyflogwr' ar sail rhagdybiaethau ariannol Trysorlys EM[7] | 23.8% | 16.6%[8] |
| Rhaniad cyfraniadau Cyflogwr/Aelod | 71:29 ar hyn o bryd | 60:40 |
| Darpariaethau'r Cap ar Gostau'r Cyflogwr (angenrheidiol o dan PSPA) | I'w cytuno gyda Thrysorlys EM | I'w cytuno gyda Thrysorlys EM |

[3] *O dan y cynllun presennol câi'r priod/partner sy'n goroesi 5/8 o'r pensiwn a fyddai wedi cronni erbyn Odran Ymddeol Arferol.*

*4 O dan y cynllun presennol câi'r priod/partner sy'n goroesi 5/8 o'r pensiwn gohiriedig a fyddai'n daladwy ar ddyddiad y farwolaeth.*

*5 Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif o gost darparu diogelwch trosiannol, sy'n 1.2% o'r gyflogres am bum mlynedd. Dim ond cost croniadau yn y dyfodol sy'n hysbys. Nid yw'r ffigurau'n caniatáu ar gyfer cyfraniadau sy'n angenrheidiol er mwyn dileu unrhyw ddiffyg gwasanaeth yn y gorffennol.*

[6] *Ffigur dangosol yw hwn – nes ceir cymeradwyaeth Trysorlys EM. Gall amrywio ym mlynyddoedd y dyfodol hefyd.*

[7] *Amcangyfrifol o'r cyfraddau cyfrannu cyfartalog yw'r rhain, ac mae'n bosibl na fyddant yn gymwys i Aelodau unigol.*

[8] *Ffigur dangosol yw hwn – nes ceir cymeradwyaeth Trysorlys EM. Gall amrywio ym mlynyddoedd y dyfodol hefyd.*

| Y prif fuddion/telerau cychwynnol | Y cynllun presennol | Y cynllun ar ôl 2016 |
|---|---|---|
| Trosglwyddo i mewn | Caniateir trosglwyddo i mewn o gynlluniau perthnasol. | Ni chaniateir trosglwyddo i mewn mwyach |
| Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) | Caiff Aelodau brynu pensiwn ychwanegol o dan AVCs y cynllun. | Does dim AVCs newydd yn y cynllun newydd. |
| Diogelu Trosiannol ("grandfathering") | D/G | Pum mlynedd o ddiogelu trosiannol o fis Mai 2016 i'r rhai a oedd o fewn 10 mlynedd i'r Oedran Ymddeol Arferol yn Ebrill 2012. |
| Rheol 80 | Cafodd Rheol 80 ei dileu o'r cynllun i aelodau newydd (neu'r rhai â bwlch yn eu gwasanaeth) o 6 Ebrill 2007 ymlaen. Mae Aelodau a fu mewn swydd yn barhaus cyn 6 Ebrill 2007 yn cadw eu hawl i ymddeol yn gynnar o dan Reol 80. | Mae Rheol 80 yn cael ei dileu o'r cynllun newydd. Fel trefniant trosiannol, bydd ar gael i'r rhai sydd â gwasanaeth di-dor yn y cynllun ers cyn 1 Ebrill 2007 hyd at y dyddiad y maent yn ymddeol yn gynnar. |

118. Mae'r PSPA yn nodi gofynion ynghylch llywodraethu cynlluniau pensiwn. Cafodd rhai o'r gofynion hyn eu dylunio gan gadw cynlluniau mawr y sector cyhoeddus mewn cof; er enghraifft pan fo angen i'r cyflogwyr a'r gweithwyr gael eu cynrychioli yn llywodraethiant y cynllun. Mae'r Bwrdd Taliadau wedi cydgysylltu'n agos â Thrysorlys EM i gymhwyso'r gofynion hyn yn briodol at y cynllun newydd.

119. Mae'r PSPA yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Pensiynau gael ei greu i oruchwylio gweinyddiaeth y cynllun gan Reolwr Cynllun. Bydd swyddogaeth Rheolwr Cynllun yn dal i gael ei chyflawni gan Gomisiwn y Cynulliad. Bydd angen penodi'r Bwrdd Pensiynau.

120. Mae'r PSPA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Pensiynau gynnwys niferoedd cyfartal o gynrychiolwyr i'r cyflogwyr a'r gweithwyr. Ar ôl ystyried amryw o opsiynau, ac ar ôl cydgysylltu â'r rhanddeiliaid, mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd y Bwrdd Pensiynau yn cynnwys:

- Dau gynrychiolydd a enwebir gan Aelodau presennol a blaenorol o'r Cynulliad ("gweithwyr");
- Dau gynrychiolydd a ddewisir gan Gomisiwn y Cynulliad ("cyflogwyr")
- Ymddiriedolwr annibynnol proffesiynol i fod yn Gadeirydd a fydd yn dod â phrofiad arbenigol o bensiynau i'r Bwrdd Pensiynau

121. Mae'r Bwrdd yn credu bod ymddiriedolwyr yn rhoi gwasanaeth gwerthfawr a'u bod yn gydran bwysig o ran llywodraethiant da mewn cynlluniau. Mae cynlluniau pensiwn yn wynebu dyfodol anodd, gydag ystod o heriau ehangach, a bydd mwyfwy o angen am gyngor arbenigol. Mae'r Bwrdd hefyd yn credu ei bod yn bwysig i'r cynllun pensiwn newydd fod yn batrwm o dryloywder a llywodraethiant da.

## Y camau nesaf

122. Fel cynllun pensiwn newydd yn y sector cyhoeddus, mae ar gynllun yr Aelodau angen cymeradwyaeth Trysorlys EM, ac mae'r Bwrdd yn rhag-weld y bydd hynny'n digwydd yn ystod haf 2015 er mwyn i'r cynllun fod yn fyw yn union ar ôl etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016. Nes bod cymeradwyaeth derfynol Trysorlys EM wedi'i rhoi, mae'r Bwrdd yn methu cadarnhau y bydd manylon mân y cynllun yn cyfateb i'r dyluniad presennol. Er hynny, nid yw'r Bwrdd yn bwriadu gwneud addasiadau eraill i ddyluniad y cynllun cyn ei gyflwyno i'r Trysorlys.

# Cyflogau Deiliaid Swyddi

123. Mae adran 13 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud un Penderfyniad ynglŷn â lefelau cyflogau'r Aelodau ar gyfer pob Cynulliad gan gynnwys ystyried unrhyw gyflogau ychwanegol sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi.

## Egwyddorion

124. Mae penderfyniadau'r Bwrdd ar dâl yn cael eu seilio ar egwyddor Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB), sef:

> *"pay should reflect levels of responsibility, rather than workload."*[24]

125. Mae'r Bwrdd yn cytuno bod yr egwyddor hon yn arbennig o berthnasol wrth bwyso a mesur cyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi.

126. Yn unol â'i nod o gynyddu capasiti strategol y Cynulliad, ystyriodd y Bwrdd i ba raddau yr oedd gan ddeiliaid swyddi gyfrifoldeb dros gymhelliant a chapasiti strategol y Cynulliad a sut mae cyflogau ychwanegol yn gwobrwyo'r gwaith hwnnw.

127. Adolygodd y Bwrdd lefelau cyflogau ychwanegol yng ngoleuni ei Benderfyniad ar lefelau cyflog sylfaenol yr Aelodau, fel y trafodwyd o'r blaen yn y ddogfen hon.

## Y fethodoleg

128. Er mwyn casglu tystiolaeth ar rolau deiliaid swyddi, cyfarfu'r Bwrdd â deiliaid pob math o swydd a thynnu ar ganlyniadau ei arolwg ymysg yr Aelodau, a holodd yr Aelodau am y cyfrifoldebau ychwanegol a oedd yn perthyn i'w swyddi ac a oedd cyflog ychwanegol wedi bod yn ffactor yn eu penderfyniad i ymgymryd â swydd neu, yn wir, i beidio â gwneud.

129. Mae'r Bwrdd yn glir nad lefel y cyflogau ychwanegol yw'r prif reswm y bydd Aelodau'n ymgymryd â swyddi. Er hynny, mae'r cyfrifoldebau ychwanegol yn gallu bod yn sylweddol, a dylent gael eu hadlewyrchu mewn taliadau.

130. Yn 2010 nododd y Bwrdd fod angen adolygiad llawn, wedi'i seilio ar dystiolaeth, a chafodd hwn ei orffen yn 2011.[25] Fel rhan o'r adolygiad ar gyfer y Pumed Cynulliad, comisiynodd y Bwrdd ddadansoddiad arbenigol o'r rolau a'r gwahanol gyfrifoldebau y

[24] *P4, Adroddiad Rhif 48 yr SSRB: Review of Parliamentary Pay and Allowances, Volume I, 2001*
[25] *Hysbysiad i'r wasg ac ynddo ddolen i'r adroddiad* http://www.assembly.wales/cy/newhome/Pages/newsitem.aspx?itemid=804

maent yn eu cynnwys. Bu'r adroddiad a gafwyd gan yr Hay Group wedyn yn ddylanwadol yn syniadau'r Bwrdd.

131. Ymgynghorodd y Bwrdd ar gyflogau deiliaid swyddi fel rhan o ymgynghoriad mis Tachwedd 2014 "Newidiadau Arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch Cyflogau'r Aelodau yn y Pumed Cynulliad". Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd am ddeiliaid swyddi'n benodol. Dim ond un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft a soniodd am ddeiliaid swyddi – gan awgrymu mai dim ond y Gweinidogion a ddylai gael unrhyw gyflog ychwanegol.

## Rolau sy'n cael eu talu

132. Dechreuodd y Bwrdd drwy ystyried pa rolau a ddylai gael eu talu.

133. Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai cyflogau ychwanegol gael eu talu i ddeiliaid y rolau a ganlyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Y Llywydd
- Y Dirprwy Lywydd
- Arweinwyr Grwpiau'r Wrthblaid
- Cadeiryddion Pwyllgorau
- Comisiynwyr y Cynulliad
- Aelodau'r Pwyllgor Busnes

134. Daeth i'r casgliad hefyd y dylai cyflogau ychwanegol gael eu talu i ddeiliaid y rolau a ganlyn yn Llywodraeth Cymru:

- Prif Weinidog Cymru
- Gweinidog
- Y Cwnsler Cyffredinol
- Dirprwy Weinidog

135. Nid yw llawer o rolau Aelodau'r Cynulliad sydd wedi'u disgrifio yn gynt yn yr adroddiad hwn, ynglŷn â goruchwylio a herio'r weithrediaeth, yn cael eu gwneud – drwy ddiffiniad - gan y rhai sy'n aelodau o Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, cafodd ystyriaethau'r Bwrdd eu rhannu'n ddwy adran: y naill yn ymwneud â gwaith y weithrediaeth: Prif Weinidog Cymru, y Gweinidogion, y Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol; a'r llall yn ymwneud â gwaith y Cynulliad fel deddfwrfa a sefydliad.

136. Cafodd yr ymagwedd at bennu lefel cyflog ychwanegol pob un o'r rolau hyn ei bwydo gan ymchwil yr Hay Group ar bwysau swyddi a'i seilio ar benderfyniad y Bwrdd ynghylch cyflog sylfaenol Aelod o'r Cynulliad.

## Rolau yn Llywodraeth Cymru

137. Yn y paragraffau a ganlyn, dangosir yr elfen o'r cyflog i'r rhai sy'n chwarae rôl yn y weithrediaeth fel cyfanswm cyflog. Mae'r Bwrdd yn teimlo mai dyma'r ffordd symlaf i ddangos y penderfyniadau a'i bod yn adlewyrchu'r ffaith mai prif sbardun y taliadau i aelod o'r Llywodraeth fydd ei gyfrifoldebau yn y weithrediaeth yn hytrach na'r dyletswyddau craidd sydd gan Aelodau eraill y Cynulliad (dwyn y Llywodraeth i gyfrif, craffu ar ddeddfwriaeth, cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor ac ati). Yn ymarferol, bydd cyfanswm y cyflog yn cynnwys y cyflog sylfaenol y mae'r holl Aelodau yn ei gael a chyflog ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd benodol sy'n cael ei dal.

138. Y swm sy'n cael ei dalu i Brif Weinidog Cymru a chyflog sylfaenol holl Aelodau'r Cynulliad yw'r paramedrau y mae pob penderfyniad arall ar gyflogau i ddeiliaid swyddi yn y Llywodraeth wedi'u gwneud o'u mewn.

### *Prif Weinidog Cymru*

139. Swydd Prif Weinidog Cymru yw'r swydd wleidyddol bwysicaf yng Nghymru. Mae iddi gyfrifoldeb mawr, llwyth gwaith mawr a llawer o sylw gan y cyhoedd. Ac eto i gyd, mae'r Bwrdd yn ymwybodol hefyd fod pawb sy'n ymgymryd â rolau o'r fath yn gwneud hynny am eu bod yn dymuno gwasanaethu eu gwlad, nid oherwydd y cyflog a gynigir. Yn wir, pe bai Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, neu Brif Weinidogion unrhyw un o'r cenhedloedd datganoledig, yn cael eu talu ar gyfradd sy'n adlewyrchiad cywir o bwysau eu swyddi, mae bron yn sicr y byddent yn cael llawer gwaith yn fwy na'r symiau presennol.

140. Yn ôl yr ymchwil a wnaeth yr Hay Group, aseswyd bod pwysau rôl Prif Weinidog Cymru gryn dipyn yn is na phwysau rôl Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, ychydig bach yn is na phwysau rôl Prif Weinidog yr Alban ac yn yr un amrediad â phwysau rôl Gweinidog yng Nghabinet y Deyrnas Unedig.

141. Mae cyflog Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi gostwng yn arwyddocaol yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gyfres o benderfyniadau gwleidyddol. Er hynny ac er nad yw cyflog y Prif Weinidog yn feincnod arbennig o fuddiol ar gyfer pwyso a mesur cyflog Prif Weinidog Cymru, mae'r Bwrdd o'r farn na fyddai modd cyfiawnhau talu mwy na hynny.

142. Gan hynny, penderfynodd y Bwrdd osod cyfanswm cyflog Prif Weinidog Cymru yn £140,000.

143. Ers i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, mae Senedd yr Alban wedi pleidleisio ym mis Mawrth 2015 i gynyddu tâl Prif Weinidog yr Alban i £144,687 o fis Ebrill 2015 ymlaen. Bydd yn codi bob blwyddyn yn unol â chyflogau'r sector cyhoeddus yr Alban.

**Tabl 4: Cyflogau'r Prif Weinidogion yn y Deyrnas Unedig[26]**

| | Y DU (2015) | Yr Alban (2015) | Gogledd Iwerddon (2015) | Cymru (2015) | Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Sylfaenol yr Aelodau | £74,000[27] | £59,089 | £48,000 | £54,391 | £64,000 |
| Y Prif Weinidogion | £142,500[28] | £144,687 | £120,000 | £135,261 | £140,000 |

## *Gweinidogion*

144. Mae gan y Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru lefel uchel o gyfrifoldeb gweithredol. Yn ôl adroddiad yr Hay Group, "These are significant political and managerial roles with a major impact on life in Wales".

145. Mae portffolios rhai Gweinidogion yn fwy na'i gilydd ac er bod y Bwrdd wedi ystyried yr achos dros eu talu'n wahanol, daeth i'r casgliad y dylid cael un lefel gyflog i'r holl Weinidogion. Maent i gyd yn aelodau o Gabinet sy'n cymryd cydgyfrifoldeb dros brif benderfyniadau'r llywodraeth a mater i Brif Weinidog Cymru yw'r cylch gorchwyl sy'n cael ei roi i bob un.

146. Asesodd yr Hay Group fod pwysau'r rôl yn cyfateb i rôl Gweinidog Gwladol yn llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cyflog Gweinidog Gwladol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2015 yw £98,740. Mae hefyd yn awgrymu y byddai rôl â phwysau tebyg mewn man arall ym marchnad y Deyrnas Unedig yn denu cyflog o oddeutu £278,000.

147. Ar ôl cymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, penderfynodd y Bwrdd osod cyflog Gweinidog yn Llywodraeth Cymru yn £100,000.

[26] *Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2015.*

[27] *Mae'r ffigur hwn yn agored i gael ei adolygu gan yr IPSA ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig.*

[28] *Dangosir Cyflogau Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar lefelau 2014 – gan fod Gweinidogion y Llywodraeth Glymblaid wedi ildio cynnydd arfaethedig o 0.62% yng nghyflogau'r Gweinidogion ar gyfer 2015/16. Gallai hynny newid ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig. Os bydd cyflogau'r Gweinidogion yn aros ar y lefelau presennol ac os bydd yr IPSA yn rhoi ei godiad arfaethedig ar waith, byddai'r cynnydd yng nghyflogau sylfaenol ASau yn ychwanegu £6,940 arall at y cyflog cyfun.*

**Tabl 5: Cyflogau'r Gweinidogion yn y Deyrnas Unedig**[29]

| | Y DU (2015) | Yr Alban (2015) | Gogledd Iwerddon (2015) | Cymru 2015 | Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Sylfaenol yr Aelodau | £74,000[30] | £59,089 | £48,000 | £54,391 | £64,000 |
| Gweinidog Cabinet | £134,565[31] | £103,495 | £86,000 | £96,340 | £100,000 |
| Gweinidog Gwladol (Y DU yn unig) | £98,740[32] | D/G | | | |

## Dirprwy Weinidogion

148. Fel yn achos Gweinidogion, mae pwysau cyfrifoldebau Dirprwy Weinidogion yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai wedi bod yn gyfrifol am fynd â deddfwriaeth drwy'r Cynulliad ac mae gan eraill bortffolios a allai fod wedi'u rhannu ar draws sawl Gweinyddiaeth yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

149. Nid yw Dirprwy Weinidogion yn aelodau o'r Cabinet. Mae pob un yn atebol i un neu ragor o Weinidogion. Gan hynny, mae yna wahaniaethau sylfaenol rhwng pwysau eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd hwy a chyfrifoldeb ac atebolrwydd y Gweinidogion.

150. Asesiad yr Hay Group oedd bod pwysau'r rôl yn cyfateb i Is-Ysgrifennydd Seneddol yn llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cyflog Is-Ysgrifennydd Seneddol yn 2015 yw £89,435. Mae'r Hay Group hefyd yn awgrymu y gallai rôl ac iddi bwysau tebyg ym marchnad gyffredinol y Deyrnas Unedig ennill £145,000, ac y byddai'r cyflog mewn man arall yn y sector cyhoeddus/dielw oddeutu £123,000.

[29] *Job Evaluation and Remuneration Benchmarking for Assembly Members, Hay Group, Awst 2014, t18*

[30] *Mae'r ffigur hwn yn agored i gael ei adolygu gan yr IPSA ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig.*

[31] *Dangosir Cyflogau Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar lefelau 2014 – gan fod Gweinidogion y Llywodraeth Glymblaid wedi ildio cynnydd arfaethedig o 0.62% yng nghyflogau'r Gweinidogion ar gyfer 2015/16. Gallai hynny newid ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig. Os bydd cyflogau'r Gweinidogion yn aros ar y lefelau presennol ac os bydd yr IPSA yn rhoi ei godiad arfaethedig ar waith, byddai'r cynnydd yng nghyflogau sylfaenol ASau yn ychwanegu £6,940 arall at y cyflog cyfun.*

[32] *Gweler uchod.*

151. Ar ôl cymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, penderfynodd y Bwrdd osod cyfanswm cyflog Dirprwy Weinidog yn £85,000.

**Tabl 6: Cyflogau'r Gweinidogion yn y Deyrnas Unedig**

| | Y DU (2015) | Yr Alban (2015) | Gogledd Iwerddon (2015) | Cymru (2015) | Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl Sylfaenol yr Aelodau | £74,000[33] | £59,089 | £48,000 | £54,391 | £64,000 |
| Dirprwy Weinidog | £100,620[34] | £86,905 | £60,000 | £80,776 | £85,000 |
| Is-Ysgrifennydd Seneddol (Y DU yn unig) | £89,435[35] | D/G | | | |

## *Y Cwnsler Cyffredinol*

152. Mae gan y Cwnsler Cyffredinol rôl unigryw. Yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfraith Llywodraeth Cymru, y Cwnsler Cyffredinol yw prif gynghorydd cyfreithiol y Llywodraeth ac mae'n cynrychioli'r Llywodraeth yn y llysoedd. Gall gyfeirio materion hefyd at y Goruchaf Lys i gael dyfarniad. Mae rôl y Cwnsler Cyffredinol o ran y tri Bil Cynulliad sydd wedi'u hystyried gan y Goruchaf Lys yn dangos mor bwysig yw'r rôl wrth lunio pwerau deddfu'r Cynulliad a safle cyfansoddiadol Cymru.

153. Er nad yw deiliad presennol y swydd yn Aelod o'r Cynulliad, mae e'n atebol i'r Cynulliad ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau statudol; mae'n ateb cwestiynau yn y Cynulliad bob pedair wythnos ac mae'n bresennol yn y Cabinet. O ran egwyddor, fe allai'r swydd gael ei dal gan Aelod o'r Cynulliad, ond mae'r Bwrdd yn cytuno â barn y Cwnsler Cyffredinol presennol ac aelodau o'r Llywodraeth fod natur y rôl heddiw yn debyg o ofyn sgiliau uwch-gyfreithiwr. Er bod y rôl fel y'i disgrifiwyd i'r Bwrdd yn un amser-llawn, mae'r deiliad presennol yn gwneud rhywfaint o waith preifat hefyd.

154. Mae swyddi i Swyddogion Cyfraith ar gael ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn y cenhedloedd datganoledig eraill. Er hynny, mae diffyg cymesuredd y swyddi – er

[33] *Mae'r ffigur hwn yn agored i gael ei adolygu gan yr IPSA ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig.*

[34] *Gweinidog Gwladol. Dangosir Cyflogau Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar lefelau 2014 – gan fod Gweinidogion y Llywodraeth Glymblaid wedi ildio cynnydd arfaethedig o 0.62% yng nghyflogau'r Gweinidogion ar gyfer 2015/16. Gallai hynny newid ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig. Os bydd cyflogau'r Gweinidogion yn aros ar y lefelau presennol ac os bydd yr IPSA yn rhoi ei godiad arfaethedig ar waith, byddai'r cynnydd yng nghyflogau sylfaenol ASau yn ychwanegu £6,940 arall at y cyflog cyfun.*

[35] *Gweler uchod*

enghraifft diffyg awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru – yn golygu ei bod wedi bod yn anodd i'r Bwrdd wneud cymhariaeth uniongyrchol o ran pwysau a thaliadau'r swydd.

155. Yn ôl asesiad yr Hay Group mae pwysau'r rôl yn cyfateb i Weinidog yn Llywodraeth Cymru a Gweinidog Gwladol yn llywodraeth y Deyrnas Unedig (gweler Tabl 5, uchod).

156. Ym marn y Bwrdd, mae'r rôl yn bwysig ac mae cryn bwysau yn perthyn iddi. Er hynny, nid yw'r Bwrdd wedi'i argyhoeddi y dylai'r cyflog a gynigir fod ar y lefel a allai gael ei hennill gan uwch-gyfreithiwr cyfansoddiadol yn gweithio'n amser-llawn mewn practis preifat fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr.

157. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu gosod cyflog y Cwnsler Cyffredinol ar yr un lefel â chyflog Gweinidog, sef £100,000.

## Rolau yn y Cynulliad Cenedlaethol

158. Mae i'r rolau a ganlyn gyfrifoldebau ychwanegol uwchlaw cyfrifoldebau Aelod Cynulliad cyffredin. Ym marn y Bwrdd, mae'r rhain yn allweddol er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol weithio'n effeithiol fel corff seneddol ac felly maent yn haeddu taliadau ychwanegol. Mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylai cyflogau ychwanegol gael eu talu i ddeiliaid yr amrywiol swyddi hyn gan eu bod yn arwain ac yn sbarduno gwaith strategol y sefydliad cyfan.

### *Y Llywydd*

159. Y Llywydd yw arweinydd y Cynulliad, gan siarad ar ei ran a gwarchod a gorfodi pwerau'r Cynulliad. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, y Llywydd sy'n pennu cyfeiriad strategol y sefydliad ei hun. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, y Llywydd sy'n arwain wrth drefnu busnes ffurfiol y Cynulliad yn ogystal â chadeirio'i drafodion yn y Cyfarfod Llawn a dyfarnu ar y drefn.

160. Yn hanesyddol, mae taliadau'r Llywydd wedi bod yr un fath â thaliadau Gweinidog. Cafodd pwysau'r swydd hon felly eu cadarnhau gan ymchwil yr Hay Group. Er hynny, ym marn y Bwrdd, yn rhinwedd ei swydd fel pennaeth cangen deddfwriaethol cyfansoddiad Cymru, mae'r rôl hyd yn oed yn fwy arwyddocaol.

161. O ganlyniad, mae'r Bwrdd wedi penderfynu codi'r cyflog uwchlaw cyflog Gweinidog. Bydd cyfanswm cyflog y Llywydd yn £105,000.

**Tabl 7: Cyflogau y Llywyddion a'r Llefaryddion yn y Deyrnas Unedig**

| | Y DU (2015) | Yr Alban (2015) | Gogledd Iwerddon (2015) | Cymru (2015) | Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tâl Sylfaenol yr Aelodau** | £74,000[36] | £59,089 | £48,000 | £54,391 | **£64,000** |
| **Llefarydd/Llywydd** | £142,826[37] | £103,495 | £92,000 | £96,340 | **£105,000** |

## *Y Dirprwy Lywydd*

162. Yn absenoldeb y Llywydd, mae'r Dirprwy yn cyflawni'r cyfan o'r un cyfrifoldebau ynglŷn â thrafodion ffurfiol y Cynulliad. Er nad yw'n un o ofynion ffurfiol y rôl, mae'r deiliaid presennol wedi ymgymryd hefyd ag amryw o rolau eraill , er enghraifft, cadeirio un o bwyllgorau craffu craidd y Cynulliad.

163. Fel mewn deddfwrfeydd eraill, ac yn y Cynulliad presennol, mae'r rôl yn cael ei thalu ar yr un lefel â Dirprwy Weinidog.

164. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd cyfanswm cyflog y Dirprwy Lywydd yn £85,000.

**Tabl 8: Cyflogau'r Dirprwy Lywyddion a'r Dirprwy Lefaryddion yn y Deyrnas Unedig**

| | Y DU (2015) | Yr Alban (2015) | Gogledd Iwerddon (2015) | Cymru (2015) | Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tâl Sylfaenol yr Aelodau** | £74,000[38] | £59,089 | £48,000 | £54,391 | **£64,000** |
| **Dirprwy Lefarydd/ Dirprwy Lywydd** | £108,430[39] | £86,905 | £57,000 | £80,776 | **£85,000** |

[36] *Mae'r ffigur hwn yn agored i gael ei adolygu gan yr IPSA ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig..*

[37] *Dangosir cyflogau ychwanegol y Llefarydd a'r Dirprwy Lefarydd ar lefelau 2014. Gallai hynny newid ar ôl Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig. Os bydd y cyflogau ychwanegol yn aros ar y lefelau presennol, byddai'r cynnydd yng nghyflogau sylfaenol ASau yn ychwanegu £6,940 arall at y cyflog cyfun.*

[38] *Gweler uchod*

[39] *Cadeirydd y Pwyllgor Ffyrdd a Moddau, Tŷ'r Cyffredin, gweler y troednodyn blaenorol ynghylch y Llefarydd.*

165. Mae llawer o fusnes craidd y Cynulliad yn cael ei gyflawni drwy waith ei bwyllgorau. Mae gan gadeiryddion Pwyllgorau – drwy arwain, llunio agendâu eu pwyllgorau, a chynrychioli eu pwyllgorau yn y Cyfarfod Llawn, y cyfryngau a bywyd cyhoeddus Cymru – ran bwysig mewn ategu a sbarduno nodau strategol y Cynulliad.

166. Yn adroddiad y Bwrdd yn 2011 ar daliadau deiliaid swyddi, ceisiwyd diffinio rôl a chyfrifoldebau cadeiryddion pwyllgorau y teimlai'r Bwrdd eu bod yn haeddu taliadau ychwanegol.[40] Roedd yn dda gan y Bwrdd weld y disgrifiad rôl yn cael ei dderbyn wedyn gan Bwyllgor Busnes y Cynulliad a'i hybu fel ffordd o osod disgwyliadau'r Cynulliad ynglŷn â'i gadeiryddion. Ers hynny, mae sawl cadeirydd pwyllgor wedi defnyddio'r disgrifiad rôl i gasglu adborth ar eu perfformiad oddi wrth aelodau eu pwyllgorau ac eraill, ac fel sylfaen ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

167. Mae'r rhain i gyd yn gamau cadarnhaol sydd i'w croesawu. Mae'r Bwrdd hefyd yn gefnogol iawn i'r uchelgais a ddisgrifiwyd yn adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar bwyllgorau o'r radd flaenaf yn y byd[41] a'r arwyddocâd yn mae'n ei weld yn rôl cadeirydd pwyllgor.

168. Mae'r Bwrdd yn rhannu awydd y Comisiwn, a fynegwyd yn ei Adolygiad o Gymorth i Bwyllgorau yn 2013, i weld rhaglen o weithgareddau datblygu proffesiynol systemataidd i gadeiryddion pwyllgor. Er nad mater i'r Bwrdd ei fynnu yw hwn, mae'r Bwrdd yn gobeithio y byddai pob deiliad swydd, ac nid dim ond cadeiryddion pwyllgorau, yn dymuno cymryd cyfleoedd i ddatblygu a gloywi eu sgiliau.

169. I fod yn effeithiol, bydd angen i raglen datblygu proffesiynol yn unswydd i gadeiryddion pwyllgorau gael cefnogaeth ddilys gan y deiliaid swyddi eu hunain, Comisiwn y Cynulliad a grwpiau'r pleidiau yn y Cynulliad.

170. Os oes cadeiryddion galluog sy'n perfformio'n dda, mae effeithiolrwydd swyddogaethau craffu a deddfu'r Cynulliad yn cael eu gwella'n fawr. Hebddynt, fydd y Cynulliad byth yn gweithredu fel y senedd o'r radd flaenaf yn y byd y mae Comisiwn y Cynulliad yn anelu ati. I gydnabod hyn, mae'r Bwrdd wedi penderfynu cynyddu'r cyflog ychwanegol sy'n cael ei dalu i gadeiryddion pwyllgorau.

171. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, pennodd y Bwrdd ddwy lefel o gyflog ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau. Mae cadeiryddion y pwyllgorau craidd sy'n craffu ar ddeddfwriaeth, cyllid a pholisïau yn cael eu talu ar lefel uwch sef £13,000 ar ben cyflog sylfaenol yr Aelod. Mae cadeiryddion dau bwyllgor – Deisebau a Safonau Ymddygiad – yn cael eu talu yn ôl 2/3 o'r gyfradd honno, hynny yw £8,660 ar ben y cyflog sylfaenol. O ran egwyddor, mae'r Bwrdd yn fodlon parhau i ddilyn y dull hwn. Ar sail system bwyllgorau

[40] *Taliadau Deiliaid Swyddi, Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011*

[41] *Adolygiad o'r Cymorth i Bwyllgorau,* Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhagfyr 2013.

sy'n cyfateb yn fras i un heddiw, penderfynodd y Bwrdd y dylai cyfradd uwch cyflogau ychwanegol cadeiryddion pwyllgorau fod yn £13,000, gan godi cyfanswm y cyflog i Aelod sy'n llenwi'r swydd honno i £77,000. Pe bai'r Cynulliad nesaf yn mabwysiadu system bwyllgorau a fyddai, ym marn y Bwrdd, yn cyfiawnhau lefel tal is i gadeiryddion rhai pwyllgorau, mae'r Bwrdd wedi penderfynu y dylai'r gyfradd is honno fod oddeutu 2/3 o'r gyfradd uwch, sef £8,660.

172. Er hynny, ni all y Bwrdd wneud dyfarniad terfynol ar daliadau i gadeiryddion pwyllgorau nes bod system bwyllgorau'r Cynulliad nesaf wedi'i sefydlu. Gan hynny, bydd y Bwrdd yn edrych ar y mater eto, i gadarnhau'r gyfradd derfynol neu'r cyfraddau terfynol, yn gynnar yn y Pumed Cynulliad. Bydd y cyflogau a bennir y pryd hwnnw yn cael eu hôl-ddyddio i ddyddiad y penodiad.

## *Comisiynydd Cynulliad*

173. Mae corff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ai alw'n Gomisiwn y Cynulliad. Aelodau'r Comisiwn yw'r Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad arall, sy'n cael eu hadnabod fel Comisiynwyr.

174. Mae gan y Comisiynwyr ddyletswyddau penodol, sy'n gofyn iddynt weithredu'n annibynnol ar eu pleidiau gwleidyddol. Er eu bod yn cael cymryd i ystyriaeth farn cydweithwyr yn eu grwpiau gwleidyddol, nid ydynt yn eu cynrychioli. Rhaid iddynt weithredu ar y cyd ac maent yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd dros y dyletswyddau sydd wedi'u rhoi iddynt fel Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiynwyr oruchwylio penderfyniadau strategol a wneir gan staff y Comisiwn wrth reoli'r adnoddau sydd wedi'u sefydlu i helpu gwaith y Cynulliad Cenedlaethol, ac i ddwyn rheolaeth y Cynulliad i gyfrif.

175. Asesiad adroddiad yr Hay Group oedd bod pwysau'r rôl hon ychydig yn is na rôl cadeirydd pwyllgor. Er hynny, mae rôl y Comisiynwyr yn bwysig wrth redeg y Cynulliad a barn y Bwrdd yw y dylent barhau'n gydradd â'r cyflog ychwanegol uwch a delir i gadeiryddion pwyllgor.

176. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd cyflog ychwanegol Comisiynwyr y Cynulliad yn £13,000, gan godi cyfanswm cyflog Aelod sy'n dal y swydd i £77,000.

177. Mae'r Bwrdd yn credu bod gwrthblaid effeithiol yn y Cynulliad yn arwain at well llywodraethu. Gan hynny, mae arweinyddion grwpiau'r gwrthbleidiau yn hanfodol ar gyfer perfformiad y Cynulliad. Er y bydd pob un yn ymgymryd â'i rolau yn ôl eu blaenoriaethau a'u harddulliau arwain eu hunain, rhaid i bob un fod â gafael ar pob agwedd ar bolisi a rheolaeth y blaid, a chyflwyno gweledigaeth wahanol i weledigaeth y Llywodraeth i'r genedl.

178. Yn adroddiad y Bwrdd yn 2011 ar gyflogau deiliaid swyddi[42] nodwyd nifer o feysydd cyfrifoldeb allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

– pennu cyfeiriad strategol eu grŵp;

– cynnig gweledigaeth wahanol i weledigaeth y Llywodraeth;

– bod yn wrthblaid adeiladol i'r llywodraeth gan gynnwys gweithio mewn consensws;

– dwyn y Llywodraeth i gyfrif, a'i herio pan fo'n briodol;

– dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth;

– datblygu polisi'r blaid;

– cynrychioli'r Cynulliad;

– bod yn brif ladmerydd ar ran y blaid a'i pholisïau; a

– rheoli'r Aelodau Cynulliad a'r staff yn y grŵp.

179. Yng ngwaith yr Hay Group cafodd cyfrifoldebau'r blaid fwyaf ymysg gwrthbleidiau'r Cynulliad bwysau tebyg i rôl Gweinidog. Sylw'r Bwrdd yw nad yw'r Cynulliad wedi'i seilio ar fodel deuol hanesyddol San Steffan. Yn y Cynulliad, mae rôl arweinwyr yr holl bleidiau yn yr wrthblaid yn hanfodol er mwyn dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

180. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu felly i barhau i dalu lefel sylfaenol o gyflog ychwanegol i bob arweinydd y gwrthbleidiau (o dri neu ragor o Aelodau) er mwyn adlewyrchu cyfraniad eu rolau at gyflawni diben strategol y Cynulliad. Penderfynodd y Bwrdd hefyd y dylai barhau i dalu elfen gyfrannol, yn dibynnu ar faint y grŵp, i adlewyrchu'r cyfrifoldebau a'r cymhlethdodau sy'n rhan o arwain y pleidiau mwyaf. Bydd hyn yn cael ei gapio ar lefel Gweinidog.

[42] *Taliadau Deiliaid Swyddi, Adroddiad Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2011*

181. Bydd y cyflog ychwanegol sylfaenol sy'n daladwy i arweinydd unrhyw wrthblaid (o dri neu ragor o Aelodau) yr un fath â chadeirydd pwyllgor, sef £13,000. Bydd £1,000 arall am bob Aelod yn y grŵp yn daladwy hyd at gyfanswm cyflog (sylfaenol + ychwanegol) o £100,000 (sef cyflog Gweinidog).

**Tabl 9: Cyflogau ychwanegol i Arweinwyr Grwpiau'r Gwrthbleidiau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol**

| | Cyflog 2015 | Cyflog 2016 |
|---|---|---|
| Y Fformwla Sylfaenol | £54,391 o gyflog sylfaenol, ynghyd â £12,420 + £1,000 am bob aelod o'r grŵp hyd at £41,949 | £64,000 o gyflog sylfaenol ynghyd â £13,000 + £1,000 am bob aelod o'r grŵp hyd at £36,000 |
| Enghreifftiau ymarferol | | |
| Arweinydd Grŵp o 3 | £69,811 | £80,000 |
| Arweinydd Grŵp o 5 | £71,810 | £82,000 |
| Arweinydd Grŵp o 10 | £76,810 | £87,000 |
| Arweinydd Grŵp o 15 | £81,810 | £92,000 |

## *Y Pwyllgor Busnes*

182. Yn y Cynulliad presennol, mae lwfansau ychwanegol yn cael eu talu i reolwyr busnes pob un o'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad, ac mae'r swm yn dibynnu ar nifer yr Aelodau Cynulliad sydd gan y grŵp. Mae'r Bwrdd yn newid hyn mewn dwy ffordd: i dalu aelodau'r Pwyllgor Busnes – sef dull y Cynulliad ar gyfer trefnu a rheoli ei fusnes seneddol ffurfiol – ac i dalu'r un swm i bob un, ni waeth beth fo maint y grŵp.

183. Y Llywydd sy'n cadeirio'r Pwyllgor Busnes, sy'n gyfrifol am drefnu busnes y Llywodraeth a busnes y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Y Pwyllgor Busnes hefyd sy'n gyfrifol am gynnig strwythurau a chylchoedd gorchwyl pwyllgorau ar ddechrau Cynulliad newydd, cytuno ar amserlenni i'r pwyllgorau ystyried deddfwriaeth ac ystyried gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog sy'n llywodraethu gweithdrefnau'r Cynulliad. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae pob grŵp yn y Cynulliad yn enwebu Aelod i eistedd ar y Pwyllgor Busnes i gynrychioli ei grŵp.

184. Nid yw gwaith y rheolwyr busnes hyn wedi'i gyfyngu i'r Pwyllgor Busnes ei hun. Mae un agwedd bwysig ar y rôl yn cael ei chyflawni y tu ôl i'r llenni, sef negodi a rheoli busnes a thrafodion y Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn dal i weld y gwaith hwn yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal mewn ffordd effeithiol.

185. Mae rôl rheolwr busnes plaid yn aml yn cael ei chyfuno â rôl y chwip. Mae'r Bwrdd yn glir y dylai rôl rheolwr busnes wrth helpu dibenion strategol y Cynulliad gael ei thalu ond na ddylai gwaith gwleidyddol mewnol chwip plaid gael ei dalu.

186. Gan mai'r Pwyllgor Busnes yw cyfrwng ffurfiol pob grŵp yn y Cynulliad ar gyfer rheolaeth seneddol, mae'r Bwrdd yn bwriadu ei ddefnyddio yn sail ar gyfer talu cyflog ychwanegol. Bydd aelodau'r Pwyllgor Busnes (nad oes ganddyn nhw swydd arall) yn cael cyflog ychwanegol sy'n gyfartal i 2/3 o gyfradd uwch cadeirydd pwyllgor (sef £8,660 yn 2016).

## *Crynodeb o'r penderfyniadau ar daliadau*

187. Mae manylion yr holl newidiadau a chymariaethau â 2015-16 ar gael yn Nhabl 10 isod. Cyfanswm y taliadau yw'r cyflog sy'n cael ei dalu ynghyd â chyfraniadau'r cyflogwr at y pensiwn.

**Tabl 10: Crynodeb o benderfyniadau'r Bwrdd ar gyfer 2016-17**[43]

| Cyflogau deiliaid swyddi | Cyfanswm cyflog 2015-16 | Cyfanswm taliadau 2015-16 | Cyfanswm cyflog 2016-17 | Cyfanswm taliadau 2016-17 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyflog sylfaenol AC | **£54,391** | £67,300 | **£64,000*** | £74,600 |
| | | | | |
| **Rolau yn Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Prif Weinidog Cymru | £135,260 | £167,500 | **£140,000** | £163,200 |
| Un o Weinidogion Cymru | £96,339 | £119,300 | **£100,000** | £116,600 |
| Cwnsler Cyffredinol | £96,339 | £119,300 | **£100,000** | £116,600 |
| Dirprwy Weinidog | £80,775 | £100,000 | **£85,000** | £99,100 |
| | | | | |
| **Rolau yn y Cynulliad Cenedlaethol** | | | | |
| Y Llywydd | £96,339 | £119,300 | **£105,000** | £122,400 |
| Y Dirprwy Lywydd | £80,775 | £100,000 | **£85,000** | £99,100 |
| Comisiynwyr y Cynulliad | £66,810 | £82,700 | **£77,000** | £89,800 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch) | £66,810 | £82,700 | **£77,000** | £89,800 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (is) | £62,670 | £77,600 | **£72,660** | £84,700 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | D/G[44] | D/G | **£72,660** | £84,700 |
| | | | | |
| Arweinydd grŵp gwrthblaid (14)[45] | £80,810 | £100,000 | **£91,000** | £106,100 |
| Arweinydd grŵp gwrthblaid (11) | £77,630 | £96,100 | **£88,000** | £102,600 |
| Arweinydd grŵp gwrthblaid (5) | £71,810 | £88,900 | **£82,000** | £95,600 |
| | | | | |

[43] *Mae'r ffigurau ar gyfer cyfanswm y taliadau wedi'u talgrynnu i'r 100, gan mai amcangyfrifon yw'r rhain.*

[44] *Yn 2015 cafodd taliadau eu gwneud i'r rheolwyr busnes mewn cyfrannedd â maint eu grŵp. Ceir y manylion llawn yn Atodiad A.*

[45] *Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos maint y grwpiau presennol yn y Cynulliad. Gallai grwpiau'r Cynulliad nesaf fod yn wahanol o ran eu maint ond mae'r Bwrdd wedi defnyddio'r ffigurau presennol yn yr amcanestyniad er mwyn rhoi cymhariaeth syml.*

## Ystyriaethau cydraddoldeb

188. Mae'r log yn Atodiad D yn nodi'r ystyriaethau ynglŷn â chydraddoldeb sy'n berthnasol i'r rhan hon o'r Penderfyniad.

189. Cododd Diverse Cymru a chynghorwyr cyfreithiol mewnol y Bwrdd bryderon y gellid barnu bod y darpariaethau presennol yn y cynllun pensiwn ar gyfer cyn bartner neu gyn briod sy'n goroesi yn wahaniaethol – yn benodol o ran y derminoleg a ddefnyddiwyd yn rheolau'r cynllun blaenorol. Ar y cyd â Wragge, Lawrence & Co a Chynghorwyr Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad, bydd y cynllun pensiwn newydd yn egluro'r sefyllfa.

190. Mae goblygiadau'r newidiadau sy'n cael eu gwneud ym mhensiynau'r Aelodau ar gyfer gwahaniaethu ar sail oed wedi'u hystyried hefyd. Mae'r trefniadau diogelu trosiannol ("grandfathering") mewn ymateb i'r ymatebion ymgynghori wedi'u teilwra i sicrhau na fydd yr Aelodau sydd agosaf at oedran ymddeol yn gweld eu buddion yn gostwng.

191. Er y gall ymddangos bod darpariaethau ar gyfer diogelu trosiannol yng nghynllun pensiwn drafft yr Aelodau ar lefel is na'r rhai yn y cynllun diwygiedig i Aelodau Seneddol, mae'r Bwrdd o'r farn bod y buddion cyffredinol yn weddol debyg. Er enghraifft, bydd gan Aelodau'r Cynulliad flwyddyn ychwanegol o gronni o dan eu cynllun presennol – sydd â chyfradd uwch o gyfraniad gan y cyflogwr a lefel uwch o ran buddion. Mae gan y cynigion ar gyfer cynllun newydd i'r Cynulliad hefyd gyfradd gronni uwch na'r cynllun ar gyfer Aelodau Seneddol.

192. Un mater a gododd dro ar ôl tro wrth ystyried materion cydraddoldeb oedd y diffyg data. Mae hyn yn peri ei bod yn anodd asesu lle y gallai materion sy'n effeithio ar unigolyn fod yn dystiolaeth o broblem systemig ehangach. Mae'r Bwrdd yn annog Comisiwn y Cynulliad i ystyried y ffordd orau i gasglu ystod ehangach o wybodaeth am gydraddoldeb oddi wrth yr Aelodau newydd a etholir yn 2016. Bydd y Bwrdd Pensiynau newydd hefyd yn cael ei annog i fonitro effaith gweinyddiaeth y cynllun newydd o safbwynt cydraddoldeb, ac argymell newidiadau os bydd yr aelodaeth yn newid yn y dyfodol.

# 4. Staffio a Chymorth i'r Grwpiau

*Yn y bennod hon mae'r Bwrdd yn amlinellu sut mae'n arfogi Aelodau'r Cynulliad â lefel briodol o gymorth i wneud eu gwaith wrth recriwtio a thalu eu staff cymorth a'r rhai sy'n gweithio i helpu gwaith y grwpiau. Mae staff cymorth yn cael eu talu allan o gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar ran yr Aelod sy'n eu cyflogi.*

*Mae'r Bwrdd wedi cynyddu capasiti'r Aelodau, drwy gynyddu eu lwfans staffio, gan greu swydd newydd 'Uwch-gynghorwr', a rhoi mwy o ryddid iddynt i ddewis sut maent yn defnyddio'u tri aelod o staff cyfwerth ag amser-llawn.*

*Mae'r Bwrdd wedi sefydlu system newydd ar gyfer Cymorth Grŵp, i sicrhau bod swm gosod o gymorth yn cael ei osod yn y system, ni waeth beth fo canlyniad yr etholiad. Yn wahanol i'r system bresennol, bydd hyn yn sicrhau bod modd i'r costau gael eu rhag-weld a'u rheoli. Mae'r Bwrdd wedi ystyried yr ymatebion ynglŷn â chymorth i'r grwpiau yn ei ymgynghorid diweddar ac wedi gwneud diwygiadau yn ôl yr angen.*

*Mae'r manylion llawn ar gael ym Mhenodau 7 ac 8 o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.*

---

193. Mae gwleidyddion sy'n cael eu hethol i unrhyw ddeddfwrfa yn chwarae rhan gymhleth. Yn ogystal ag ymdrin a gwaith achosion unigol yr etholwyr, maent yn craffu ar bolisi, cyllid a deddfwriaeth y llywodraeth ac mae arnynt angen cymorth er mwyn gwneud hyn yn dda. Mewn unrhyw gorff seneddol llwyddiannus mae'r cymorth hwnnw'n dibynnu ar staff medrus o safon.

194. Yn ychwanegol at eu rolau eraill, mae'r holl Aelodau'n gyflogwyr unigol. Mae'r Penderfyniad yn talu costau Aelodau sy'n cyflogi hyd at dri o staff cyfwerth ag amser-llawn yr un. Rhwng y pedwar grŵp plaid, mae rhyw 20 aelod arall o staff yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd. Mae'r staff yn chwarae nifer o rannau gwahanol a gallant gael eu lleoli mewn swyddfa etholaeth neu swyddfa ranbarth, neu yn y Cynulliad. Mae'r mathau o swydd yn cynnwys gweithwyr achosion, ymchwilwyr, rheolwyr swyddfa a swyddogion y wasg.

195. Mae staff yr Aelodau'n chwarae rhan bwysig wrth sbarduno a chryfhau gwaith strategol y Cynulliad drwy roi cymorth ymchwil i'r Aelodau yn y Cyfarfod Llawn ac mewn pwyllgorau, ymdrin â gwaith achosion yr etholaeth, a hybu ymgysylltiad â phobl Cymru. Yn wir, i lawer o etholwyr, bydd eu hymwneud cyntaf â'r Cynulliad yn dod drwy gysylltiad ag aelod o'r staff cymorth.

## Egwyddorion

196. O'r cychwyn cyntaf, mae adolygiad y Bwrdd o'r Penderfyniad wedi clywed pryderon am gapasiti Cynulliad o drigain o Aelodau i graffu ar waith Llywodraeth Cymru, ac i ddatblygu polisïau a chynigion newydd. Mae'r Bwrdd felly wedi ceisio cynyddu'r cymorth sydd ar gael i'r Aelodau er mwyn gwella'u capasiti.

197. Fel yn holl waith y Bwrdd, mae'n gobeithio bod ein cynigion yn cynnig i'r Aelodau fwy o hyblygrwydd, ac ar yr un pryd yn cadw'r dulliau diogelu hanfodol hynny sy'n gwarchod yr Aelodau, eu staff, y trethdalwr ac enw da'r Cynulliad.

198. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cyflawnodd y Bwrdd ddarn mawr o waith ar staff cymorth. Cyflwynodd y Bwrdd fandiau cyflog presennol y staff yn 2011. Yn adroddiad y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2013, tanlinellwyd hefyd yr egwyddor fod nifer annigonol o Aelodau etholedig yn golygu bod angen lefel uwch o wariant ar staff cymorth nag mewn seneddau mwy.

> *"Wrth wneud ein Penderfyniad ar gyfer 2011, cymharwyd hefyd y trefniadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau deddfwrfeydd eraill y DU. Ym marn y Bwrdd, gan fod y Cynulliad yn fach o ran maint, mae'n rhaid i'r Aelodau amldasgio'n barhaus, ac mae angen amrywiaeth eang o gymorth arnynt gan eu staff o ganlyniad. Ar ôl ystyried lefel y cymorth staffio sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad, roeddem yn fodlon ei bod yn briodol gwario mwy o arian yn y maes hwn nag, er enghraifft, yn Senedd yr Alban."*[46]

199. Mae staff yr Aelodau'n hollbwysig o ran sicrhau y gall yr Aelodau gyflawni eu holl ddyletswyddau. Mae'r Bwrdd wedi ceisio sicrhau bod taliadau ac amodau'r staff yn debyg i daliadau ac amodau staff sy'n gwneud gwaith tebyg i aelodau o seneddau eraill.

## Capasiti'r staff

200. Ers mis Gorffennaf 2007 mae'r holl Aelodau yn cael cyflogi tri aelod o staff cyfwerth ag amser-llawn mewn tri band (Bandiau 1, 2 a 3). Mae'r grwpiau'n cael cyflogi staff yn y bandiau hyn, a hefyd ar ddwy radd uwch: Pennaeth Staff a Chymorth Grŵp Ychwanegol.

201. Yn 2012 ymgynghorodd y Bwrdd â' Aelodau ar gynnig i gyflwyno swydd newydd, gradd uchel, yr Uwch-gynghorwr. Er hynny, ar y pryd, chafodd y cynnig mo'i gefnogi gan bawb.

[46] *Dyfyniad o adroddiad Rhagfyr 2013*

202. Nododd yr adroddiad:

> *"Ymgynghorwyd ag Aelodau a staff cymorth ynghylch y broses arfaethedig. Er bod llawer yn croesawu'r cynnig hwn ac yn teimlo y byddai o fudd iddynt fel Aelodau, ac i'r Cynulliad fel deddfwrfa, nid oedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. O'r herwydd, nid yw'n fwriad gennym roi'r cynnig hwn ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, ond gellir dychwelyd ato i'w ystyried yn y dyfodol."*[47]

203. Cafodd y Bwrdd ei arwain gan y dystiolaeth a ystyriodd wrth adolygu'r cymorth a oedd ar gael i'r Aelodau i'r casgliad bod yna achos o hyd dros gynnig rhagor o gapasiti strategol. Er hynny, i gydnabod yr ymgynghoriad blaenorol, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg o ran sut y caiff yr Aelodau ddefnyddio'r capasiti ychwanegol sy'n cael ei drefnu. Mae'r Bwrdd hefyd wedi gollwng y gofyniad bod rhaid cael proses benodi wahanol ar gyfer Uwch-gynghorwyr, fel bod yr holl weithwyr yn cael eu recriwtio a'u penodi drwy'r un system.

204. Yn y Pumed Cynulliad, caniateir i'r Aelodau gyflogi Uwch-gynghorwr fel rhan o'r tîm staff cymorth, os dymunant. Bydd y rôl – sydd â chyflog ar yr un lefel â'r rôl bresennol ar gyfer Cymorth Grŵp Ychwanegol – yn fodd i unigolion benodi i swydd uwch yn eu swyddfeydd. Mae'r swydd yn debyg i rôl yr Uwch-gynorthwyydd Seneddol ar gyfer Aelodau Seneddol yn San Steffan.

205. Bwriad y Bwrdd yw y caiff y rôl hon ei defnyddio i ddarparu ymchwil a briffiadau lefel uchel i'r Aelodau, ond mae'n caniatáu hyblygrwydd i'r Aelodau i ddewis y strwythur yn eu swyddfeydd y maent hwy'n dymuno ei gael. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y bydd amgylchiadau neu flaenoriaethau gwahanol yn arwain at strwythurau a rolau gwahanol yn swyddfeydd yr Aelodau. Er enghraifft, mae ar y Gweinidogion a'r Llywyddion angen llai o gymorth ymchwil canolog nag Aelod Cynulliad ar y fainc gefn sy'n gwasanaethu ar ddau neu fwy o bwyllgorau.

## Y Gronfa Polisi ac Ymchwil

206. Cafodd y Gronfa Polisi ac Ymchwil (PRF) ei chyflwyno ym mis Gorffennaf 2013 yn lle'r hen Gronfa Ymgysylltu. Bwriadwyd iddi fod yn gyfrwng i ganiatáu i'r Aelodau ariannu ymchwil strategol am gyfnod cyfyngedig, gan arbenigwyr allanol. Gall y Gronfa gael ei defnyddio i wneud ymchwil i'r canlynol:

- datblygu polisïau;
- ystyried materion sy'n arwyddocaol i'r etholwyr;
- craffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.

[47] *Adroddiad Rhagfyr 2013, para 92*

207. Mae'r canllawiau[48] ynghylch defnyddio'r cynllun yn nodi:

> "Gallai enghreifftiau nodweddiadol o waith a wneir gynnwys ymchwil ychwanegol i gefnogi Bil Aelod Preifat; ymchwil i'r goblygiadau ar etholwyr yn sgîl polisi neu fenter arfaethedig; astudiaethau dichonoldeb yn ymwneud â maes polisi arfaethedig; a gwaith ymchwil i faterion sy'n effeithio ar grwpiau penodol o etholwyr, fel menywod neu bobl ag anableddau, ac ati."

**Russell George**
Defnyddiodd Russell George AC y Gronfa Polisi ac Ymchwili i gomisiynu pedwar arolwg, a gafodd eu hanelu at drigolion a busnesau lleol. Roedd un o'r arolygon hyn yn canolbwyntio ar ddyfodol Pont Dyfi a helpodd y canlyniadau i fwydo ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar yr opsiynau hyfyw ar gyfer trwsio neu ddisodli'r bont. Edrychodd y tri arolwg arall ar faterion ynglŷn â thraffig y Drenewydd, ffermydd gwynt a busnes lleol a helpodd i ffurfio ymagwedd yr Aelod at y pynciau hyn.

**Grŵp Plaid Cymru**
Comisiynydd grŵp Plaid Cymru nodyn ymchwil ar doll ar ddiodydd siwgr. Cafodd yr ymchwil ddilynol ei defnyddio i gefnogi cynnig polisi newydd i gyflwyno 'treth bop' o 20% ar ddiodydd siwgr. Byddai'r refeniw a geid felly yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau iechyd ychwanegol megis recriwtio rhagor o feddygon i'r GIG, ac i helpu i fynd i'r afael â gordewdra a diabetes.

208. Ers i'r Gronfa gael ei chyflyno, mae'r Aelodau wedi bod yn ei defnyddio'n fwyfwy bob blwyddyn, yn unigol a thrwy gyfuno'u dyraniadau fesul grŵp bach. Gall grwpiau plaid hefyd ariannu prosiectau tebyg drwy lwfans cyllid y grŵp.

209. Yn ystod yr adolygiad, gofynnodd Comisiwn y Cynulliad i'r Bwrdd ystyried sut y gallai'r Bwrdd helpu un o'u blaenoriaethau strategol nhw yn well – sef gwella'r cyfathrebu â'r cyhoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Bwrdd yn cynyddu maint y Gronfa o £2,000 i £2,500 ac yn ehangu'r diffiniad o sut i'w defnyddio. Bydd y diffiniad ehangach newydd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio'r PRF i gyfathrebu ag etholwyr ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

210. Mae'r Bwrdd yn gwybod bod risgiau'n gysylltiedig â defnyddio'r Gronfa fel hyn, yn benodol felly yr argraff y bydd cronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion pleidiau gwleidyddol. I liniaru'r risg, ceir rheolau clir a thryloyw ynglŷn â'r hyblygrwydd ychwanegol, sef rheolau a gyhoeddir cyn dechrau'r Pumed Cynulliad. Bydd swyddogion Comisiwn y Cynulliad yn llunio canllawiau ar ddefnyddio'r Gronfa, gan gymryd cyngor gan y Comisiynydd Safonau annibynnol yn y broses. Bydd y Bwrdd yn adolygu defnydd y gronfa newydd, y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, ar adeg addas ymhen 12-18 mis i

[48] Canllawiau ar y Gronfa Polisi ac Ymchwil (PRF), a gyhoeddwyd gan Gymorth Busnes yr Aelodau, 2015

asesu sut mae'n cael ei defnyddio. Byddai'r opsiwn o ddefnyddio'r Gronfa at waith cyfathrebu'n cael ei ddileu pe na bai'r Bwrdd yn fodlon ei bod yn cael ei defnyddio at ddibenion dilys.

## Cymorth i grwpiau pleidiau

211. Mae system o gymorth ariannol i grwpiau gwleidyddol ar gael ers i'r Cynulliad gael ei ffurfio. Dyma nodweddion allweddol y system sydd ar waith yn 2015-16:

– Mae gan grŵp o dri neu ragor o Aelodau, a gynrychiolir yn Llywodraeth Cymru, hawl i gael ychydig dros £147,797;

– Mae gan grŵp o rhwng tri a 10 o Aelodau, **nad** yw wedi'i gynrychioli yn Llywodraeth Cymru, hawl i gael tua £224,994;

– Mae gan grŵp o fwy na 10 o Aelodau, **nad** yw wedi'i gynrychioli yn Llywodraeth Cymru, hawl i gawl £36,019 arall am bob pump o Aelodau ychwanegol o'r grŵp.

212. Yn ymarferol, mae hyn yn arwain at dalu'r symiau a ganlyn yn 2015-16 i'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad.

**Tabl 11: Dyraniadau cymorth grwpiau 2015-16**

| Grŵp | Aelodau | Yn y llywodraeth | Cyllid |
|---|---|---|---|
| Llafur | 30 | Ydy | £147,797 |
| Ceidwadwyr | 14 | Nac ydy | £261,013 |
| Plaid Cymru | 11 | Nac ydy | £261,013 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 | Nac ydy | £224,994 |
| **Cyfanswm** | **60** | | **£894,817** |

213. At ei gilydd, mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflogi staff i ddarparu cymorth i'r grŵp ar ffurf ymchwil, cyfathrebu a gweinyddu a chymorth arall. Fesul pen, mae'r cyllid yn y Cynulliad, ar yr un pryd yn fwy hael ac yn fwy amrywiol nag mwn mannau eraill.

214. Mae'r cyllid i'r grwpiau yn y Cynulliad yn wahanol i'r Alban a San Steffan mewn dwy ffordd allweddol:

– Mae cyllid yn cael ei roi i <u>bob</u> grŵp, gan gynnwys unrhyw grwpiau yn y llywodraeth;[49]

– Mae'n cael ei seilio ar fandiau yn hytrach na symiau y pen i bob Aelod.

215. Y brif ddadl o blaid dull y Cynulliad yw ei fod yn adlewyrchu maint bach y Cynulliad, gan ganiatáu mesur helaeth o gymorth i alluogi Aelodau sydd â llwyth gwaith rhy fawr i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Mae darparu cymorth i bob plaid yn adlewyrchu'r ethos y tu ôl i'r Cynulliad, yn arbennig yn ei ddyddiau cynnar. Roedd y syniad traddodiadol o lywodraeth a gwrthblaid yn llawer llai amlwg pan gafodd y Cynulliad ei sefydlu am y tro cyntaf yn un corff corfforaethol lle'r oedd gan bob plaid a phob Aelod ryw rôl, o ran theori, wrth wneud penderfyniadau. Heddiw, er bod gwahaniaeth pendant o ran pwy sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb gweithredol, mae arferion gwaith y Cynulliad yn dal yn rhagdybio bod gan bob grŵp ran arwyddocaol i'w chwarae yn y goruchwylio a'r deddfu.

216. Er bod y system bresennol wedi gwasanaethu'r sefydliad yn ddigonol ac er bod cefnogaeth gyffredinol iddi ymysg y grwpiau gwleidyddol presennol, ceir sawl ffactor sydd ym marn y Bwrdd yn cyfiawnhau newid. Yn benodol:

– nid yw'r syniadau a'r cyfiawnhad y tu ôl i'r dyluniad gwreiddiol a'i esblygiad yn dryloyw;

– er bod cefnogaeth eang iddi mor belled, fe allai arwain at ganlyniadau anghyson yn y dyfodol, yn dibynnu ar ganlyniadau etholiadau;

– gallai lefel y cyllid amrywio'n sylweddol pe bai nifer y grwpiau yn y Cynulliad yn newid yn sgil canlyniadau etholiadau neu newid yn niffiniad y Cynulliad o grŵp (tri neu ragor o Aelodau); ac

– nid yw'n darparu cymorth ychwanegol i Aelodau unigol nac i bleidiau bach nad ydynt yn ddigon mawr i fod yn grŵp.

*[49] Yn yr Alban, gall cyllid gael ei hawlio gan blaid mewn llywodraeth glymblaid, ar yr amod nad oes ganddi fwy o weinidogion neu is-weinidogion nag un rhan o bump o'r cyfanswm.*

217. Gan hynny, mae'r Bwrdd wedi penderfynu sefydlu system ddiwygiedig sy'n pasio sawl prawf:

a) Dylai roi blaenoriaeth i gymorth ar gyfer gwaith craffu effeithiol ar y llywodraeth a chynigion ynglŷn â deddfwriaeth;
b) Dylai weithio'n rhesymegol o dan ganlyniadau etholiadol gwahanol a modelau gwahanol o lywodraeth;
c) Dylai sicrhau bod gan bob plaid (gan gynnwys pleidiau'r llywodraeth) ddigon o gymorth gweinyddol i weithredu mewn modd cydlynol ac effeithlon;
d) Dylai cyfanswm cost y cymorth gael ei gyfyngu i swm a bennir gan y Bwrdd a dylai'r cyfan o'r cyfanswm hwnnw gael ei ddosbarthu;
e) Dylai'r swm a roddir i bleidiau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth adlewyrchu eu maint cymharol mewn rhyw fodd;
f) Dylai pleidiau bach ac Aelodau unigol gael cymorth ar lefel sy'n ategu eu gallu i chwarae rhan effeithiol yn y broses graffu;
g) Ni ddylai gwahaniaethau neu newidiadau bach ym maint y pleidiau arwain at newidiadau dramatig yn eu cyllid.

## *System newydd o gymorth i'r pleidiau gwleidyddol a'r Aelodau*

218. Mae'r Bwrdd wedi ymgynghori ynghylch system gyllido ddiwygiedig sy'n pasio'r profion hyn, ac erbyn hyn mae'n rhoi'r system honno ar waith. Daeth yr unig ymatebion a gawsom i'r elfen hon yn ein hymgynghoriad cyhoeddus oddi wrth y pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cynrychioli yn y Cynulliad ar hyn o bryd. Mewn rhai meysydd rydym wedi addasu'r cynigion yng ngoleuni'r adborth a gafwyd.

219. Dyma elfennau allweddol y system newydd i gyllido pleidiau gwleidyddol y Cynulliad:

### *Cyfanswm y cymorth i'r pleidiau*

- Man cychwyn y system newydd yw bod y Bwrdd yn pennu'r cyfanswm a ddyrennir ar gyfer cymorth i'r pleidiau. Yn 2015-16 mae'r cyfanswm sy'n cael ei wario ar gymorth y grwpiau ychydig yn llai na £900,000. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal y gwariant ar y lefel hon yn 2016-17. Cyn etholiad 2016, wrth gwrs, bydd y Bwrdd nesaf yn adolygu lefelau tâl y staff cymorth. Gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn mynd at gostau staff, bydd y Bwrdd yn adolygu'r swm a ddyrennir ar gyfer cyfanswm cymorth y pleidiau yng ngoleuni unrhyw addasiadau yn nghyflogau'r staff cymorth a wneir cyn dechrau'r Pumed Cynulliad.

### *Cyllid i bleidiau'r Llywodraeth*

- Bydd unrhyw blaid sydd wedi'i chynrychioli yn Llywodraeth Cymru'n cael cyllid sy'n cyfateb i £10,000 yr aelod hyd at uchafswm o £150,000.

*Craidd pleidiau y tu allan i'r Llywodraeth*

- Bydd unrhyw blaid sydd â thri neu ragor o Aelodau, nad yw wedi'i chynrychioli yn Llywodraeth Cymru, yn cael swm craidd o £50,000. Er mwyn osgoi amheuaeth, byddai'r isafswm hwn o dri aelod er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid craidd yn parhau'n ddigyfnewid hyd yn oed pe bai Cynulliad yn y dyfodol yn amrywio'i ddiffiniad o isafswm maint grŵp gwleidyddol at ddibenion Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

*Ychwanegiad Aelod nad yw'n rhan o'r Llywodraeth*

- Bydd gweddill cyfanswm y cymorth i'r pleidiau (£900,000 llai swm cyllid pleidiau'r Llywodraeth a chyllid craidd y pleidiau y tu allan i'r Llywodraeth) yn cael ei ddyrannu i bob plaid ac Aelod unigol sydd heb eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru ar sail arian y pen.

220. Yn yr ymgynghoriad cychwynnol, cynigiwyd swm craidd o £150,000 i'r 30 aelod cyntaf ym mhlaid neu bleidiau'r Llywodraeth, ynghyd â £5,000 yn ychwanegol am bob Aelod uwchlaw 30. Cynigiwyd hefyd y câi'r pleidiau mewn clymblaid hyblygrwydd i benderfynu sut y câi'r swm ei ddyrannu rhyngddynt. Chafodd yr ail o'r ddau gynnig hyn mo'i groesawu yn yr adborth ac nid yw'r Bwrdd am i'r cyllid fod yn rhwystr a fyddai'n atal llywodraeth rhag cael ei ffurfio mewn unrhyw fodd. Felly, mae'r Bwrdd wedi penderfynu symud at ddull sydd wedi'i seilio ar arian y pen ynghyd â chap.

221. Clywodd y Bwrdd hefyd y byddai £5,000 am bob Aelod uwchlaw 30 yn gadael y partneriaid lleiaf mewn llywodraeth glymblaid heb ddigon o gyllid. Awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y dylai craidd o £150,000 gael ei dalu i unrhyw blaid yn y llywodraeth. Er bod y Bwrdd yn cydymdeimlo â'r ddadl bod ar unrhyw blaid yn y llywodraeth angen cyllid ystyrlon i'w helpu i drefnu a gweithredu'n effeithiol, mae'r Bwrdd yn credu nad yw lefel gyllid mor uchel yn ddoeth o gofio bod y Bwrdd yn awyddus i ddyrannu cyllid prin er mwyn rhoi blaenoriaeth i waith craffu ar y llywodraeth. Er enghraifft, ym marn y Bwrdd, ni ddylai plaid mewn clymblaid a chanddi, dyweder, dri Aelod, y mae gan un ohonynt swydd Gweinidog, gael lefel mor uchel o gymorth. Drwy gynyddu'r cyllid i bob Aelod i £10,000, mae'r Bwrdd o'r farn bod y dadleuon a'r pwysau cyferbyniol hyn yn cael eu cydbwyso.

222. Ni chafodd cynnig y Bwrdd y dylid cynnig cyllid i Aelodau unigol neu barau o Aelodau mewn pleidiau nad ydynt wedi croesi'r trothwy i ffurfio grŵp a geir yn y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd (tri Aelod) ei gefnogi'n gyffredinol gan y pleidiau gwleidyddol presennol. Bwriad y Bwrdd yw sicrhau bod gan holl Aelodau'r Cynulliad adnoddau i chwarae rhan wrth graffu ar waith y Llywodraeth. Er gwaethaf adborth y grwpiau presennol, mae'r Bwrdd yn bwriadu cadw at ei gynnig gwreiddiol gan gredu y bydd y symiau cymharol fach o dan sylw yn annog unigolion neu grwpiau bach i weithredu'n fwy effeithiol yn y Cynulliad.

## Taliadau

223. Ar gyfer 2015-16 mae cyflogau staff cymorth wedi codi 1.2%, yn unol ag enillion cyfartalog Cymru. Mae'r Bwrdd wedi gohirio penderfyniad ar gyflogau staff cymorth ar gyfer 2016-17 tan yn gynnar yn 2016 er mwyn sicrhau gwybodaeth fwy cyfoes.

224. Er hynny, fe wnaeth y Bwrdd ystyried y trefniadau pensiwn sydd ar gael i'r staff cymorth, gan fod hynny'n fater a gododd ymysg Grŵp Cynrychiolwyr y Staff Cymorth. Dadleuai'r cynrychiolwyr fod cyfraniadau pensiwn y staff cymorth yn is nag mewn rolau tebyg yn y sector cyhoeddus. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y trefniadau presennol – sy'n cynnwys cyfraniad o 10% gan y cyflogwr a dim cyfraniad gan y gweithiwr – yn debyg yn fras i swyddi tebyg yn seneddau eraill y Deyrnas Unedig. Er hynny, nodwyd y diffyg yswiriant bywyd ac mae sylw wedi'i roi i hyn (gweler isod).

## Yswiriant bywyd

225. Er ei bod wedi bod yn bosibl mewn Penderfyniadau blaenorol i'r Aelodau dalu am yswiriant bywyd i'w staff, nid yw'r cynnig wedi'i dderbyn. Dyma fudd cymharol rad sy'n cynnig cryn dawelwch meddwl i'r staff a'u teuluoedd.

226. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu cyflwyno yswiriant safonol i'r holl staff cymorth, a fyddai'n arwain at daliad a fyddai'n cyfateb i ddwywaith eu cyflog ar ddyddiad eu marwolaeth. Yn hytrach nag aros tan ddechrau'r Pumed Cynulliad, penderfynodd y Bwrdd y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2015.

## Dileu swydd

227. Mewn ymateb i adborth gan Grŵp Cynrychiolwyr y Staff Cymorth, edrychodd y Bwrdd yn fanwl ar drefniadau dileu swydd i'r staff cymorth.

228. Er bod llawer yn cael gwybod ymlaen llaw y bydd Aelod yn rhoi'r gorau i'w swydd – er enghraifft pan fo Aelod yn ymddeol ar ddiwedd tymor Cynulliad – mewn rhai achosion, gall y staff golli eu swyddi'n annisgwyl. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y math hwn o golli swydd yn annisgwyl yn haeddu lefel uwch o gymorth.

229. Gan hynny, bydd y rhai sy'n cael rhybudd ymlaen llaw yn dal i gael 1.5 gwaith tâl statudol dileu swydd. Bydd yr aelodau hynny o'r staff cymorth sy'n colli eu swyddi heb rybudd o'r fath oherwydd a) bod yr Aelod oedd yn eu cyflogi wedi marw; b) bod yr Aelod oedd yn eu cyflogi yn peidio â bod yn Aelod yng nghanol y tymor; neu c) bod yr Aelod a oedd yn eu cyflogi yn cael ei drechu mewn Etholiad Cyffredinol, yn cael 2 waith tâl statudol dileu swydd.

230. Mewn ymateb i adborth cadarnhaol i'r ymgynghoriad, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno'r newid hwn flwyddyn yn gynnar, ac felly mae'n gymwys hefyd i staff cymorth a staff y grwpiau o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

231. Yn sgil awgrym gan Grŵp Cynrychiolwyr y Staff Cymorth, aeth y Bwrdd ati hefyd i ystyried a fyddai'n bosibl i'r staff cymorth ildio taliadau dileu swydd pe baent yn cael eu cyflogi ar unwaith gan Aelod arall, yn gyfnewid am wasanaeth di-dor. Roedd yr awgrym hwn yn cynnig y potensial ar gyfer gwell diogelwch i'r staff, a lleihau costau'r trethdalwr. Er hynny, yn sgil y cyngor cyfreithiol a gafwyd, a ohebiaeth â chyrff taliadau seneddol eraill, daeth y Bwrdd i'r casgliad na fyddai hyn yn bosibl o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

## Materion cyflogaeth eraill

### *Cyflogi aelodau o'r teulu*

232. Un pwnc a gododd sawl tro mewn trafodaethau cyhoeddus am ein gwaith, ac mewn rhai ymgyngoriadau, oedd cyflogi aelodau o'r teulu. Cyflwynodd y Bwrdd reoliadau tynnach ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad sy'n sicrhau bod unrhyw benderfyniad i gyflogi aelod o'r teulu'n cael ei oruchwylio gan Wasanaeth Busnes yr Aelodau ac nad yw'r penderfyniad i'w benodi'n cael ei gymryd gan yr Aelod sy'n ei gyflogi. O ganlyniad, dim ond os hwy yw'r ymgeiswyr mwyaf addas ar gyfer y rôl o dan sylw y mae aelodau o'r teulu'n cael eu penodi. Mae'r Bwrdd yn fodlon i'r trefniadau hyn barhau yn y Pumed Cynulliad.

233. Mae'r Cynulliad ei hun yn cyhoeddi manylion yr holl enghreifftiau lle mae aelodau o'r teulu'n cael eu cyflogi gan ACau.

http://www.assembly.wales/en/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/employment_of_family_members.aspx

### *Cyfnodau rhybudd*

234. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ymysg Grŵp Cynrychiolwyr y Staff Cymorth fod cyfnodau rhybudd y staff yn rhy fyr, gan ei gwneud yn anodd recriwtio rhywun i lenwi'r bwlch yn brydlon, mae'r Bwrdd wedi penderfynu cynyddu'r cyfnod rhybudd safonol i ddechreuwyr newydd i wythnos yn ystod y tri mis cyntaf o wasanaeth a phedair wythnos wedyn. Bydd y cyfnodau rhybuddio hyn yn gymwys i staff sy'n rhoi rhybudd i Aelod ac i Aelod sy'n rhoi rhybudd i un o'i staff.

### *Lwfans Staffio Dros Dro*

235. Mae'r Bwrdd wedi gwneud un mân newid yn y Lwfans Staffio Dros Dro (TSA), er mwyn cynnwys darpariaeth y caiff Aelod wneud cais am y lwfans hwn os oes aelod staff wedi'i atal o'i waith os yw'r ataliad hwnnw wedi'i gytuno gyda staff y Comisiwn.

### *Cynllun prentisiaethau*

236. Un syniad a godwyd gan yr Aelodau oedd y gallai cynllun prentisiaethau llwyddiannus Comisiwn y Cynulliad gael ei ymestyn i gynnwys y pleidiau gwleidyddol. Roedd yr adborth ar y cynnig yn gadarnhaol i raddau helaeth, er bod yna gwestiynau am reolaeth linell a materion ymarferol. Nid mater i'r Bwrdd fynd ar ei ôl yw hwn ond mae wedi gofyn i Gomisiwn y Cynulliad ystyried a oes modd effeithiol i gynllun o'r fath gael ei gyflawni.

*Hawliadau teithio a goramser staff cymorth*

237. Er mwyn gwella hyblygrwydd i'r Aelodau, mae'r Bwrdd wedi dileu'r uchafswm o £2,000 ar gyfer hawliadau teithio a goramser staff cymorth. Er nad oedd yr uchafswm yn effeithio ar y mwyafrif o'r Aelodau, roedd yn llesteirio dyrnaid o Aelodau ag etholaethau mawr. Erbyn hyn, yr unig gyfyngiad ar wariant ar deithio fydd faint o gyllid sydd ar gael yng nghyllideb staffio'r Aelod perthnasol.

*Diweddaru polisïau staff cymorth*

238. Mae'r Bwrdd hefyd wedi sbarduno proses i ddiweddaru amryw o bolisïau sy'n ymwneud â chyflogi staff cymorth. Gwaith cymhennu yw hwn i raddau helaeth, i sicrhau bod y polisïau, sy'n prysur agosáu at fod yn bump oed, yn dal yn gyfoes â newidiadau yn y ddeddfwriaeth. Ymgynghorir â Grŵp Cynrychiolwyr y Staff Cymorth yn ystod y broses ddiweddaru.

## Ystyriaethau cydraddoldeb

239. Mae'r adran a ganlyn yn tynnu sylw at faterion a nodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn amlinellu lle mae camau i leddfu anfantais bosibl wedi'u cymryd neu heb eu cymryd a'r rhesymeg dros y penderfyniadau hynny.

240. Gellir gweld y Log Cydraddoldeb yn Atodiad D.

*Oedran*

241. Mewn trafodaethau ag arweinwyr y pleidiau ac eraill, gwelodd y Bwrdd gefnogaeth sylweddol i gyflwyno cynllun prentisiaethau a fyddai'n cynnig cyfle i bobl ifanc weithio i Aelodau Cynulliad unigol neu i bleidiau gwleidyddol.

242. Mewn ymateb i'r cynnig hwn, gofynnodd Diverse Cymru a gâi'r cynllun ei dargedu ar grwpiau sydd heb ddigon o gynrychiolaeth neu a fyddai yna gyfyngiad oedran. Mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd Comisiwn y Cynulliad yn codi'r mater hwn mewn trafodaethau ar ddichonoldeb cynllun o'r fath.

*Priodas a Phartneriaeth Sifil*

243. O ran cyflwyno taliad 'marwolaeth mewn swydd' i ddarparu ar gyfer teuluoedd staff cymorth, bydd y derminoleg a ddefnyddir yn gynhwysol, er mwyn peidio â gwahaniaethu yn erbyn parau o'r un rhyw na'u gosod o dan anfantais.

*Rhyw*

244. Er mwyn cynyddu capasiti strategol y Cynulliad o fis Mai 2016 ymlaen, cynigiodd y Bwrdd y dylid cyflwyno rôl Uwch-gynghorwr i bob Aelod Cynulliad. Er bod yna groeso eang i'r cynnig, mynegwyd pryderon y gallai staff cymorth yn y swyddfeydd etholaeth, yn enwedig y rhai sy'n eithaf pell o'r Cynulliad, gael eu hatal rhag ymgeisio am rôl Uwch-gynghorwr ac y gallai hynny arwain at wahaniaethu ar sail rhyw. Awgrymwyd bod cyfran uwch o staff sydd wedi'u lleoli yn yr etholaethau'n fenyw ac yn tueddu i gael eu cyflogi mewn bandiau tâl is. Er mwyn bwydo'r penderfyniad ar y mater hwn yn llawn, gofynnodd

y Bwrdd am ddata yn dadansoddi'r staff cymorth yn ôl rhywedd a gradd. Nid yw'r ffigurau yn y tabl a ganlyn (a oedd yn gywir ym mis Gorffennaf 2014) yn cynnwys graddau Pennaeth Staff, Cymorth Grŵp Ychwanegol na'r rhai a oedd ar gymysgedd o raddau.

**Tabl 12: Staff cymorth yn ôl rhywedd a gradd (Gorffennaf 2014)**

| | Gwryw | Benyw | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| Band 1 | 41 | 42 | 83 |
| Band 2 | 46 | 50 | 96 |
| Band 3 | 34 | 41 | 75 |
| **Cyfansymiau** | **121** | **133** | **254** |

245. Mae'r Bwrdd yn glir nad oes dim yn y swydd ei hun a ddylai atal menywod rhag ymgeisio am rôl Uwch-gynghorwr. Nid oes gofyn bod y swydd yn cael ei gwneud yng Nghaerdydd ychwaith. Mae Tabl 12 (uchod) yn dangos y dadansoddiad rhywedd ymysg y staff cymorth. Mater i'r Aelodau unigol yw pwy i'w benodi i swyddi, a ble maen nhw'n gweithio. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd y newidiadau yn creu cyfleoedd yr un mor gyfartal i aelodau staff y presennol ac aelodau staff y dyfodol.

# 5. Ad-dalu treuliau eraill

*Yn y bennod hon, mae'r Bwrdd yn amlinellu sut y mae wedi penderfynu ar y costau a'r treuliau sydd i'w had-dalu i Aelodau'r Cynulliad am ymgymryd â'u cyfrifoldebau. Ceir amlinelliad hefyd o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad sy'n ymadael â'u swydd.*

*Pan gafodd y Penderfyniad yn 2011 ei wneud, gwerth am arian a sicrhau atebolrwydd pendant oedd y prif sbardun. Yn yr adolygiad, gwelodd y Bwrdd fod y rheolau weithiau'n ddiangen o gyfyngol. Mae'r Bwrdd wedi ceisio cynyddu'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r Aelodau, gan gadw'r dulliau diogelu hanfodol y mae eu hangen er mwyn i bobl Cymru fod yn hyderus bod arian yn cael ei wario ar sail priodolder ac atebolrwydd a'i fod yn sicrhau gwerth am arian. Bydd y Bwrdd yn cadw llygad ar sut mae'r newidiadau hyn yn gweithio yn y Cynulliad nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn dal i daro'r cydbwysedd cywir*

## Cymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad

246. Mae Aelodau'r Cynulliad yn gymwys i gael cymorth ariannol mewn perthynas â'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad. Mae'r cymorth yn cynnwys:

- costau staff;[50]
- llety preswyl;
- costau swyddfa; a
- theithio.

247. Diben y cymorth ariannol sy'n cael ei roi i Aelodau'r Cynulliad yw eu helpu wrth ymgymryd â'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad. O ran llety, mae gan Aelodau nad ydynt yn byw yn agos i'r Cynulliad hawl i gael llety dros nos pan fo'i angen er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rolau fel Aelodau Cynulliad. Mae ad-dalu costau swyddfa yn galluogi Aelodau i redeg swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth. Mae gan yr Aelodau hawl i gael ad-daliad am eu costau wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r Cynulliad, ac ar draws eu hetholaeth neu eu rhanbarth i ymwneud ag unigolion, sefydliadau a busnesau.

[50] *Mae cymorth staff yn cael ei ddarparu ar wahân, ac ymdrinnir ag ef ym Mhennod x – Cymorth i Aelodau'r Cynulliad.*

248. Wrth bwyso a mesur y cymorth ariannol sydd ar gael i'r Aelodau, mae'r Bwrdd wedi cadw mewn cof ei amcan o ddarparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cymryd i ystyriaeth ei ddyletswydd allweddol ei hun o sicrhau na ddylai penderfyniadau'r Bwrdd atal unigolion sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad, ar sail ariannol.

249. Adolygodd y Bwrdd y darpariaethau presennol ynghylch cymorth ariannol, ac mae'n canmol y Cynulliad am yr arferion da sydd wedi'u sefydlu. Ers Mehefin 2009, mae'r taliadau sy'n cael eu gwneud i holl Aelodau'r Cynulliad wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Mae'r taliadau hefyd yn cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

## Egwyddorion Cymorth Ariannol

250. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn nodi'r egwyddorion ymddygiad personol y mae'n rhaid i'r Aelodau gadw atynt.[51] Mae'r egwyddorion hyn wedi'u seilio ar egwyddorion Nolan ynglŷn â bywyd cyhoeddus, sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd, ac arweinyddiaeth.

251. Mae'r Bwrdd yn cytuno y dylai system cymorth ariannol y Cynulliad gynnig gwerth am arian; bod yn gadarn, yn glir ac yn dryloyw; ac y dylai gael ei hategu gan set o egwyddorion y mae'n rhaid i unrhyw Aelod Cynulliad sy'n dymuno gwneud hawliad gadw atynt. Bwriedir i'r egwyddorion, sydd wedi'u nodi isod, gydategu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

### Gwariant

Dim ond am wariant sy'n angenrheidiol i sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau'n briodol y caniateir i Aelodau'r Cynulliad wneud hawliad.

### Defnydd

Rhaid i'r hawliadau fod yn gywir a rhoi adlewyrchiad teg o ddefnyddio'r adnoddau a hawlir.

### Pleidiau gwleidyddol

Dim ond lle mae'r treuliau'n ymwneud ag Aelod sy'n cyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Cynulliad y caiff costau eu had-dalu. Rhaid peidio â gwneud hawliad sy'n ymwneud â gweithgareddau gwleidyddol pleidiol.

[51] *http://www.assemblywales.org/memhome/mem-commissioner-standards/cod-ymddygiad.htm*

### Budd Personol

Rhaid i'r Aelodau sicrhau nad yw hawliadau'n arwain at fudd ariannol personol uniongyrchol neu anuniongyrchol iddynt eu hunain nac i neb arall, gan gynnwys sefydliadau gwleidyddol, nac yn ymddangos fel pe baent yn arwain at fudd o'r fath.

### Bod yn Agored

Rhaid i'r Aelodau ymrwymo i'r egwyddor o fod yn agored a thryloyw. Cyhoeddir yr hawliadau ar y System Cyhoeddi Lwfansau er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd (yn amodol ar ystyriaethau diogelu data neu ystyriaethau diogelwch) ynglŷn â'r gwariant sydd wedi'i ysgwyddo ac i ba ddiben.

### Cyfrifoldeb Personol

Rhaid i Aelodau unigol o'r Cynulliad gymryd cyfrifoldeb personol am yr holl dreuliau sy'n cael eu hysgwyddo, ac am wneud hawliadau a chadw cofnodion, hyd yn oed os byddant yn dirprwyo'r gwaith o weinyddu'r hawliau i eraill.

### Gwerth am Arian a Rhesymoldeb

Rhaid i Aelodau'r Cynulliad sicrhau mai'r opsiwn mwyaf cost-effeithiol yw unrhyw wariant sy'n cael ei ysgwyddo. Rhaid i'r Aelodau geisio sicrhau bod y gwariant hwnnw'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr ac nad yw'n niweidio enw da'r Cynulliad na'i Aelodau. Mae'r Bwrdd yn derbyn, cyhyd ag y rhoddir cyfiawnhad, nad yr opsiwn rhataf fydd yr opsiwn mwyaf cost-effeithiol o reidrwydd.

### Dogfennau

Rhaid ategu hawliadau â thystiolaeth ddogfennol berthnasol a phriodol.

## Llety Preswyl

252. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i gael ad-daliad am y costau y mae angen eu hysgwyddo wrth aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartref mewn cysylltiad â'u dyletswyddau fel Aelodau. Er mwyn i'r Cynulliad weithredu mewn modd cost-effeithiol, mae'r Bwrdd yn cydnabod y bydd y mwyafrif o'r Aelodau'n dymuno cael prif gartref yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth a chael cymryd rhan yn effeithiol ym musnes y Cynulliad yng Nghaerdydd.

253. Os oes agen i Aelod aros oddi cartref dros nos, mewn cysylltiad â chyflawni ei rôl fel Aelod o'r Cynulliad, gall cost gwneud hynny gael ei had-dalu.

254. Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad roedd y rheolau a oedd yn llywodraethu'r ad-daliad hwn yn dibynnu ar yr etholaeth neu'r rhanbarth yr oedd yr Aelod yn ei gynrychioli. Rhwng 2014 a diwedd y Pedwerydd Cynulliad:[52]


- Caiff Aelodau yn yr 'Ardal Allanol' (a ddiffinnir fel y rhai sy'n cynrychioli etholaethau o fewn ffiniau rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, a rhanbarth Gogledd Cymru) hawlio hyd at £8,820 am aros dros nos yng Nghaerdydd bob blwyddyn. Defnyddir y lwfans hwn fel rheol i dalu cost rhentu llety yng Nghaerdydd hyd at uchafswm o £735 y mis;

- Caiff Aelodau yn yr 'Ardal Ryngol' (a ddiffinnir fel y rhai sy'n cynrychioli etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe yn rhanbarth Gorllewin De Cymru) hawlio hyd at £3,420 am aros dros nos yng Nghaerdydd bob blwyddyn;

- Caiff Aelodau yn yr 'Ardal Fewnol' (pob Aelod arall o'r Cynulliad ) hawlio hyd at £1,425 am aros dros nos yng Nghaerdydd bob blwyddyn.

[52] *Mae'r manylion llawn wedi'u nodi yn y Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau, Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2015, pennod 4.*

**Ffigur 1: Map o Gymru yn dangos ffiniau rhanbarthau'r Cynulliad**




255. Mae'r ffiniau daearyddol caeth yn golygu y gall nifer fach o Aelodau yn yr Ardal Ryngol dreulio mwy o amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r Cynulliad bob dydd na rhai o Aelodau'r Ardal Allanol. Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r system a'r ffiniau sawl tro ac mae wedi dod i'r casgliad y gallai unrhyw system sydd wedi'i seilio ar reolau caeth beri anfantais i rai Aelodau.

256. Oherwydd hynny, penderfynodd y Bwrdd gadw'r system bresennol i Aelodau yn yr Ardal Allanol a'r Ardal Ryngol ond creu mwy o hyblygrwydd yn y Pumed Cynulliad. Mae darpariaeth wedi'i chynnwys hefyd i'r Aelodau ffurfio achos busnes dros ofyn, yng

ngoleuni eu hamgylchiadau teithio personol, am gymhwystra i gael llety preswyl os ydynt o dan anfantais oherwydd lleoliad eu hetholaeth. Er enghraifft, gallai fod gan Aelod o'r Pumed Cynulliad sy'n byw yn yr Ardal Ryngol ac sy'n wynebu amser teithio anarferol ac eithriadol o hir achos rhesymol dros gael ei drin fel pe bai'n byw yn yr Ardal Allanol.

257. Heblaw o dan amgylchiadau eithriadol, mae'n anodd cyfiawnhau cost gwesty i Aelod sy'n byw o fewn llai nag awr o amser teithio i'r Cynulliad. Byddai llawer o bobl sy'n gweithio yn ardal Caerdydd – ac yng ngweddill Cymru – yn cymudo pellter tebyg neu am amser tebyg. Mae'r Aelodau hefyd yn cael hawlio cost teithio rhwng eu cartref a'r Cynulliad.

258. Penderfynodd y Bwrdd felly y dylid dileu'r lwfans aros dros nos i Aelodau yn yr Ardal Fewnol o fis Mai 2016 ymlaen. Er hynny, bydd yna gyfle i'r Aelodau wneud cais i dîm Cymorth Busnes yr Aelodau am ad-daliad o dan amgylchiadau eithriadol.

### Costau gwesty

259. Yn y blynyddoedd diwethaf, cafwyd adegau pan welodd Aelodau fod uchafswm cost gwesty (£95) yn annigonol, am fod gwestai yn aml yn amrywio'u costau ar sail lefel y galw. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd ystafelloedd gwesty yn yr amrediad prisiau hwn ar gael pan fydd digwyddiadau mawr yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd.

260. Nododd y Bwrdd hefyd fod gan bob senedd a chynulliad arall yn y Deyrnas Unedig gyfraddau uchaf sy'n uwch. Er bod y Bwrdd wedi penderfynu peidio â chynyddu'r gost uchaf, mae wedi cytuno rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i fynd y tu hwnt i'r gyfradd uchaf pan gytunir ar hynny ymlaen llaw gyda thîm Cymorth Busnes yr Aelodau.

### Taliadau Morgais

261. Mae nifer fach a gostyngol o aelodau sy'n gwasanaethu ers amser maith yn yr Ardal Allanol yn dal yn cael ad-daliadau ynglŷn â thaliadau llog morgais ar eiddo sy'n perthyn iddynt. Er nad yw ceisiadau newydd wedi cael eu caniatáu i'r Aelodau sydd wedi'u hethol ers mis Mai 2011, cytunodd y Bwrdd y câi nifer fach o Aelodau a etholwyd cyn 2011 barhau â'r trefniadau a oedd yn bodoli y pryd hwnnw. Gan fod cyfraddau llog yn isel, mae hynny wedi creu arbedion sylweddol i'r trethdalwr o'i gymharu â rhentu llety. Mae'r Bwrdd yn fodlon y bydd y niferoedd sydd yn y sefyllfa hon yn lleihau eto yn etholiad 2016, ac yn diflannu ymhen amser.

262. Mae Aelodau sydd yn y sefyllfa hon hefyd yn cael hawlio hyd at 10% o uchafswm y treuliau preswyl tuag at gost y gwaith trwsio hanfodol ar eu heiddo. Nid ydynt yn cael ad-daliadau am gostau eraill sy'n gysylltiedig â llety preswyl, megis prynu nwyddau traul, ni waeth beth fo unrhyw ddadl a gynigir ynghylch arbedion cyffredinol i'r cyllid cyhoeddus yn sgil gwneud hynny.

### Costau cysylltiedig

263. Cytunodd y Bwrdd ym Mhenderfyniad 2010 y dylai Aelodau'r Cynulliad gael eu had-dalu am gostau biliau cyfleustodau, treth gyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu. Ni chaniateir ad-daliadau am waith trwsio, dodrefn, gosodiadau a ffitiadau nac unrhyw agwedd arall ar gynnal neu ddodrefnu'r llety. Mae costau rhent tir a chostau cynnal llety ar rent wedi'u cynnwys yn y gyfradd ar gyfer Treuliau Llety Preswyl.

264. Hefyd ym Mhenderfyniad 2010 penderfynodd y Bwrdd y dylai unrhyw hawliadau gan yr Aelodau am dreth gyngor gael eu capio ar y swm sy'n daladwy am eiddo ym mand F. Rhaid i unrhyw swm uwchlaw'r cap gael ei dalu gan yr Aelod.

### Cyfraddau Gwariant Llety Preswyl

265. Adolygodd y Bwrdd gostau preswyl yn 2014 yn sgil adborth gan yr Aelodau. Ar ôl dadansoddiad o'r farchnad ar gyfer eiddo â dwy ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd, cododd y gyfradd uchaf i Aelodau o'r Ardal Allanol o £8,400 i £8,820 y flwyddyn. Cafodd y terfyn i Aelodau yn yr Ardal Ryngol ei gadw ar £3,420. Ar gyfer 2015 wnaeth y Bwrdd ddim newid yn y naill na'r llall o'r ffigurau hyn.

266. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r symiau hyn ym mis Ionawr 2016 i sicrhau eu bod yn dal yn briodol ar gyfer y farchnad.

## Costau Swyddfa

267. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i wneud cais am gostau swyddfa i ad-dalu holl gostau rhesymol rhedeg swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth. Gall y lwfans hwn gael ei ddefnyddio at nifer o ddibenion ynglŷn â dyletswyddau Aelod o'r Cynulliad, gan gynnwys:

- costau rhentu swyddfa;
- rhentu/prynu offer swyddfa; a
- chostau a ysgwyddir wrth redeg swyddfa.

### Diben a Swm

268. Diben y lwfans ar gyfer costau swyddfa yw galluogi Aelodau'r Cynulliad i redeg swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth. Roedd yr Aelodau a'u staff, yn eu tystiolaeth i'r Bwrdd, yn bendant bod y cyfleuster hwn yn holl-bwysig er mwyn ymwneud yn iawn â'u hetholwyr. Mae eu presenoldeb yn eu hetholaethau neu eu rhanbarthau yn galluogi'r Aelodau i gadw mewn cysylltiad â'r rhai y maent yn eu cynrychioli a sicrhau y gall y cyhoedd gysylltu'n rhwydd â'u cynrychiolwyr etholedig. Mae rhai staff yn cael eu lleoli fel arfer yn y swyddfeydd hyn i helpu'r Aelodau i ymwneud â'r cyhoedd, gan gynnwys gwaith achosion.

269. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad mae lefel y lwfans ar gyfer costau swyddfa wedi codi o £16,242 i £17,014. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Bwrdd wedi bod yn fodlon iddo godi yn unol â chyfradd chwyddiant y CPI.

270. Mae'r amrywio yng nghostau rhentu swyddfa ac yng nghyfraddau trethi busnes ar draws etholaethau a rhanbarthau Cymru wedi bod yn bwnc llosg ers y dechrau. Mae yna rannau o Gymru lle mae'n anodd dod o hyd i swyddfa hygyrch o fewn yr uchafswm, ac mewn ardaloedd eraill mae'r uchafswm gryn dipyn yn uwch na'r swm sy'n cael ei wario.

### Trosglwyddo arian

271. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, roedd yr Aelodau'n cael trosglwyddo symiau a oedd heb eu gwario o'r lwfans ar gyfer costau swyddfa i'r lwfans costau staff ac fel arall. Yn 2010, penderfynodd y Bwrdd y dylai'r arfer hwn ddod i ben, gan nad oedd y Bwrdd wedi'i ddarbwyllo y dylai tanwariant ar lwfansau sy'n cael eu darparu ar gyfer mathau o gymorth pur wahanol gael eu trosglwyddo fel hyn.

272. Er hynny, mae'r penderfyniad hwn wedi'i ailystyried erbyn hyn. Yn ei adolygiad mae'r Bwrdd wedi ailgyflwyno'r gallu i drosglwyddo arian i'r lwfans ar gyfer costau swyddfa. Caiff yr Aelodau drosglwyddo hyd at £4,253 (25% o'r lwfans costau swyddfa) o gostau staff i gostau swyddfa. Ni chaniateir trosglwyddo yn y cyfeiriad arall. Cafodd y mesur hwn ei gyflwyno o 1 Ebrill 2015 ymlaen, mewn ymateb i adborth gan yr Aelodau. Mae'r Bwrdd yn gobeithio y bydd yr hyblygrwydd estynedig hwn o gymorth i'r nifer fach o Aelodau sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i swyddfeydd fforddiadwy yn eu hetholaethau.

273. Mae'r Bwrdd wedi dweud hefyd y caiff yr Aelodau o dan amgylchiadau eithriadol – gyda chymeradwyaeth Gwasanaeth Busnes yr Aelodau ymlaen llaw – dynnu hyd at 25% o'r Lwfans Costau Swyddfa – sef £4,253 o dan y Penderfyniad cyfredol – i lawr o'u dyraniad am y flwyddyn ariannol nesaf. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael yn y Pedwerydd Cynulliad. Bwriedir iddi roi mwy o hyblygrwydd ariannol i'r Aelodau gan gynnal rheolaeth a llywodraethiant priodol hefyd.

### Iechyd a Diogelwch, Diogelwch a Mynediad i Bobl Anabl

274. Pan sefydlodd y Bwrdd y Gronfa Fynediad, roedd y darpariaethau i'r Aelodau ysgwyddo gwariant ynglŷn ag iechyd a diogelwch, diogelwch ac anabledd ar gyfer eu swyddfeydd yn golygu bod rhaid i'r Aelodau dalu'r £1,000 cyntaf o unrhyw gostau o'r fath o'u lwfans. Byddai unrhyw gostau uwchlaw £1,000 at y dibenion hyn yn cael eu talu gan Gomisiwn y Cynulliad, ar yr amod bod tîm Cymorth Busnes yr Aelodau wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw. Ar y pryd fe ddywedodd y Bwrdd y byddai'n cadw llygad ar y materion hyn.

275. Wedi adolygu sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei defnyddio, mae'r Bwrdd wedi penderfynu gostwng y trothwy i £500, gyda Chomisiwn y Cynulliad yn talu unrhyw gostau uwchlaw'r swm hwnnw.

### Rhentu/Prynu Offer Swyddfa

276. Yn *Addas i'r Diben* penderfynodd y Bwrdd y byddai gan bob Aelod newydd ei ethol hawl i gaffael dodrefn swyddfa un waith oddi ar restr ganolog i ddodrefnu swyddfa. Roedd cost yr eitemau a oedd wedi'u cymeradwyo i gael ei thalu o'r stoc neu'r cronfeydd canolog, hyd at uchafswm o £5,000.

277. Yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd i gynyddu hyblygrwydd, erbyn hyn bydd yr Aelodau'n cael defnyddio eu dewis gyflenwr eu hunain wrth ddodrefnu swyddfa. Mae'r uchafswm yn dal yn £5,000.

278. I gydnabod y ffaith bod rhai Aelodau yn eu swydd bellach ers cryn gyfnod o amser, roedd y Bwrdd hefyd yn teimlo ei bod yn briodol helpu Aelodau i ailddodrefnu swyddfeydd. Felly, bydd gan unrhyw Aelod sy'n dychwelyd i'r Cynulliad ym mis Mai 2016 ar ôl cwblhau dau dymor llawn yn y swydd hawl i gael grant unwaith yn unig o hyd at £1,000 yn 2016-17 at gost amnewid dodrefn ac offer sy'n hen neu sydd wedi treulio.

## Teithio

279. Dim ond lle maent wedi gwneud siwrneiau sy'n angenrheidiol mewn cysylltiad â'u dyletswyddau fel Aelod o'r Cynulliad y caiff yr Aelodau hawlio ad-daliad am wariant ar deithio, ac mae'n rhaid i'r trefniadau gael eu seilio ar egwyddorion cost-effeithiolrwydd a chynaliadwyedd.

280. Mae'r Bwrdd wedi ceisio hybu teithio cynaliadwy drwy gynnwys darpariaethau yn ein Penderfyniad ynghylch cludiant cyhoeddus a rhannu ceir. Er hynny, mae'r Bwrdd yn gwybod ei bod yn aml yn ofynnol i Aelodau deithio'n bell o amgylch eu hetholaethau neu eu rhanbarthau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae'r Bwrdd yn derbyn, o dan yr amgylchiadau hyn, ei bod yn ddigon posibl mai siwrnai mewn car fydd y dewis mwyaf cost-effeithiol, o gofio'r galw ar amser yr Aelod.

281. Mae dyrnaid o Aelodau wedi codi pryderon bod cyfradd milltiroedd busnes CThEM yn is ar ôl y 10,000 cyntaf o filltiroedd. Mae'r Bwrdd yn nodi bod cyfraddau CThEM yn cael eu defnyddio'n eang ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac nid yw'n gweld rheswm pam y dylai Aelodau gael eu trin mewn modd gwahanol yn hyn o beth.

### Cyflwyno hawliadau milltiroedd yn electronig

282. Mae'r Bwrdd wedi gwneud un newid er mwyn gwella hyblygrwydd. O ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen, bydd yr Aelodau'n cael hawlio milltiroedd drwy ebost. Mae'r egwyddorion yn aros yr un fath, a bydd rhaid i unrhyw Aelod sy'n gwneud hyn sganio a chadw'r ffurflenni cais perthnasol.

283. Mae gan Aelodau'r Cynulliad sy'n ymadael â'u swydd hawl i gael cymorth ariannol. Mae'r Bwrdd o'r farn y dylai hyn fod yn gytbwys â'r amcan o sicrhau bod cymorth o'r fath a ddarperir gan y Cynulliad yn deg yng nghyd-destun Cymru ac yn rhoi gwerth am arian.

284. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd wedi gwneud addasiadau sylweddol i'r cynllun presennol.

## Grant Adsefydlu

285. Pan fo Aelodau'n peidio â bod yn Aelodau o'r Cynulliad, mae ganddynt hawl i gael grant adsefydlu. Mae'r grant hwn yn ateb diben tebyg i daliad dileu swydd ac, o dan y trefniadau blaenorol, roedd yn cael ei gyfrifo yn ôl fformiwla a seilid ar oedran yr Aelod a'i gyfnod yn y swydd.

286. Ers y Pedwerydd Cynulliad, dim ond os ydyn nhw wedi'u trechu mewn etholiad y mae Aelodau sydd newydd eu hethol yn gymwys i hawlio grant adsefydlu. Nid yw Aelodau sy'n rhoi'r gorau iddi, sy'n ymddeol, neu sy'n penderfynu peidio â sefyll i gael eu hailethol yn gymwys i hawlio grant o'r fath.

287. Er hynny, o dan drefniant pontio, caniatawyd i Aelodau a etholwyd cyn 2011 barhau â'r cynllun blaenorol, a oedd yn caniatáu grant adsefydlu mewn unrhyw amgylchiadau.

288. Roedd y Bwrdd o blaid dod â'r trefniant pontio i ben ac ymgynghorodd â'r Aelodau ar y cynnig hwnnw ym mis Chwefror 2014. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, daeth yn glir y gallai hynny fod wedi creu cymhelliant anfwriadol i Aelodau profiadol roi'r gorau iddi *en masse* yn 2016.

289. Gan hynny, cafodd y cynnig ei ddiwygio, fel y bydd Aelodau sydd â gwasanaeth di-dor cyn 2011 yn dal yn gymwys i gael grant adsefydlu yn 2021 (ar ddiwedd y Pumed Cynulliad), er y bydd y swm yn cael ei leihau 50%. Mae maint grant adsefydlu'n cael ei seilio ar gyflog, oedran a blynyddoedd o wasanaeth. Mae tabl i gyfrifo'r swm wedi'i gyhoeddi ar dudalen 50 o'r Penderfyniad presennol.[53] Ar ôl 2021, dim ond os caiff ei drechu mewn etholiad y caiff unrhyw Aelod grant adsefydlu.

290. Mae'r grant adsefydlu i Aelodau a etholwyd yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011 ac wedyn yn cael ei seilio ar eu cyfnod gwasanaeth ac fe'i cyfrifir ar sail un mis am bob blwyddyn gyflawn o wasanaeth, gyda chap o chwe mis o gyflog.

## Grant Ymddeol oherwydd Afiechyd

291. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y grant hwn – sy'n darparu cymorth ariannol i Aelodau sydd, am resymau iechyd, yn methu parhau fel Aelod o'r Cynulliad – yn dal yn briodol. Gan hynny, nid yw'r ddarpariaeth hon yn newid.

[53] *Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau, Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2015, 10.4 a 10.5.*

## Dirwyn y ben

292. Diben y lwfans dirwyn i ben yw galluogi Aelodau'r Cynulliad i ddod â'u materion i ben pan fyddant yn peidio â bod yn Aelod o'r Cynulliad, gan gynnwys rhwymedigaethau mewn contractau a threfniadau ynglŷn â'u swyddfeydd yn yr etholaeth neu'r rhanbarth.

293. Ar ôl lleihau'r swm yn 2011, mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn dal yn briodol ar gyfer ei ddiben.

## Cymorth i Aelodau ar ôl colli eu sedd

294. Mewn trafodaethau anffurfiol gyda chyn Aelodau, clywodd y Bwrdd mor anodd y gall fod i Aelod sy'n colli ei sedd – yn arbennig os digwydd hynny'n annisgwyl. Cododd y mater hwn hefyd sawl tro yn adroddiad Prifysgol Bangor, *Evaluating Barriers to Entering the Assembly: What Prevents Us From Standing?*

295. Er bod paratoi at fywyd ar ôl gwleidyddiaeth ar ymylon cylch gorchwyl y Bwrdd, mae wedi edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhyw fath o wasanaeth all-leoli – yn cynnig cyngor a chanllawiau i'r Aelodau hynny sy'n colli eu seddi mewn etholiad – boed y rheiny'n Aelodau etholaeth ynteu'n Aelodau rhanbarth.

296. Mae'r Bwrdd wedi argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad edrych yn fanylach ar y ffordd orau i ddarparu gwasanaeth all-leoli/cynghori o'r fath am gyfnod cyfyngedig i helpu Aelodau sy'n colli eu sedd mewn etholiad. Gallai darpariaeth debyg gael ei hestyn hefyd i staff cymorth sy'n gweithio i Aelodau sydd wedi'u trechu, ac i unrhyw Staff Grŵp a fyddai'n colli eu swyddi o ganlyniad i newidiadau etholiadol.

# **Ystyriaethau cydraddoldeb**

297. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod ei gasgliadau'n deg ac yn gyfiawn. Oherwydd hynny, gwahoddodd y Bwrdd Diverse Cymru i ymateb i bob ymgynghoriad a rhoi cyngor gwerthfawr drwy gydol yr adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

298. Mae'r ystod lawn o ystyriaethau cydraddoldeb wedi'i nodi yn y Log Cydraddoldeb yn Atodiad D. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai pryderon penodol a sut mae'r rhain yn cael sylw.

299. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol mai unigolion yw'r Aelodau a chanddynt anghenion a chyfrifoldebau unigryw. Wrth lunio'r darpariaethau a'r gofynion ynglŷn â chymorth ariannol i'r Aelodau, mae'r Bwrdd yn deall y bydd amgylchiadau eithriadol yn codi o dro i dro. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod yr holl Aelodau'n ymwybodol bod y Bwrdd yn gallu darparu cymorth ariannol o dan amgylchiadau eithriadol i sicrhau bod modd i rôl yr Aelod gael ei chyflawni'n iawn.

300. Mae'r Bwrdd wedi rhoi cryn ystyriaeth i sicrhau nad yw'r cymorth ariannol a ddarperir yn y Penderfyniad yn atal neb sydd â chyfrifoldebau gofal rhag dod yn Aelod.

301. Fel rhan o'u hymateb i'r Bwrdd, cododd Diverse Cymru bryderon ynghylch yr heriau sy'n wynebu Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal. Soniwyd am y mater hwn yn adroddiad Prifysgol Bangor ac mae'r Cadeirydd hefyd wedi cael sylwadau gan Aelodau.

302. Dyma'r trefniadau yn y Pedwerydd Cynulliad:

- Caiff yr Aelodau hawlio siwrneiau heb gyfyngiad rhwng eu cartref neu eu hetholaeth a Bae Caerdydd;
- Mae Aelodau sy'n byw yn yr Ardal Allanol yn cael hawlio hyd at £735 y mis i rentu llety dwy ystafell wely, wedi'i ddodrefnu, yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn.
- Mae Aelodau sy'n teimlo bod arnynt angen cymorth ariannol uwchlaw neu y tu hwnt i'r hyn a ddarparwyd yn cael gwneud cais i'r Bwrdd am Dreuliau Eithriadol.[54]

303. Nododd y Bwrdd fod y Penderfyniad presennol yn cynnwys darpariaeth i bartner a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed deithio yn y car yn lle teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. Ar hyn o bryd, nid oes Aelod sy'n defnyddio'r lwfans hwn i'r eithaf. Er hynny, bydd yn cael ei gadw yn y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

304. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd wedi'i gyfyngu i daliadau i'r Aelodau a'u staff. Mater iddynt hwy a'u grwpiau plaid yw'r galwadau beunyddiol ar yr Aelodau, a bydd y galwadau hyn yn dibynnu hefyd ar yr amserlen ar gyfer busnes y Cynulliad fel y cytunir arni gan y Pwyllgor Busnes. Mater i'r Aelodau yw newidiadau yn y modd y mae'r Cynulliad yn gweithio o ddydd i ddydd – ac yn benodol felly i'r Pwyllgor Busnes a'r Llywydd. Mae'r materion hyn y tu allan i gylch gorchwyl y Bwrdd yn llwyr: er hynny, fe gymerodd y Bwrdd y canlynol i ystyriaeth:

- Mae'r Aelodau'n cael eu hethol, nid eu cyflogi ac felly maent fel arfer yn rhydd i wneud pa drefniadau bynnag sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau.
- Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ymgorffori'r gofyniad bod rhaid i amserlenni roi sylw i gyfrifoldebau teuluol yr Aelodau a'u cyfrifoldebau yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth. Mae amserlennu busnes ffurfiol y tu allan i'r oriau rhwng 09:00 a 18:00 yn cael ei osgoi fel arfer ac mae cyfnodau'r toriadau yn cyd-fynd â'r mwyafrif o'r gwyliau ysgol. Bydd busnes y Cynulliad yn parhau ar ôl 18:00 weithiau. Gall grwpiau plaid fod yn hyblyg o ran pa bryd y maent yn gofyn i'r Aelodau gymryd rhan ym musnes y Cynulliad;
- Gall Aelodau sydd â phlant gael talebau gofal plant drwy gynllun aberthu cyflog, ac mae nifer cyfyngedig o leoedd – am brisiau'r farchnad – yn cael eu cadw mewn meithrinfa ym Mae Caerdydd, er lles yr Aelodau;

[54] *Gweler Adran 2.4 o Benderfyniad 2014 ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau*

- Yn achos Aelodau sy’n methu dod i gyfarfodydd pwyllgor yn bersonol, mae’r Bwrdd yn deall bod rhywfaint o gyfle i ddefnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda.

305. Mae’r Bwrdd wedi dod i’r casgliad bod trefniadau presennol y Cynulliad i helpu Aelodau’r Cynulliad sydd â chyfrifoldebau gofal yn ddigonol i raddau helaeth a’u bod yn cynnwys enghreifftiau o arferion da.

306. Er hynny, ystyriodd y Bwrdd hefyd ddarpariaethau sydd ar gael mewn deddfwrfeydd eraill ynglŷn â chyfrifoldebau gofal. Er bod rhai agweddau ar drefniadau’r Cynulliad yn helaethach na’r darpariaethau sydd ar gael mewn deddfwrfeydd eraill yn y Deyrnas Unedig, roedd y Bwrdd yn cytuno bod yna rinwedd mewn cyflwyno hyblygrwydd tebyg i’r hyblygrwydd yn San Steffan lle bydd Aelodau yn yr Ardal Allanol sydd â chyfrifoldebau gofal tuag at ddibynyddion sy’n byw gyda hwy tra byddant yng Nghaerdydd, yn gymwys i wneud cais am lwfans llety preswyl uwch.

## Anabledd

307. Cafodd Cronfa Fynediad yr Aelodau ei sefydlu yn 2012, gan alluogi’r Aelodau i dalu costau gwasanaethau sy’n ateb gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hon yn trefnu bod cyllid ar gael i Aelodau ac aelodau o staff cymorth yr Aelodau sydd ag anabledd i dalu am addasiadau i’w swyddfeydd hefyd. Hefyd, rhoddodd Tîm Cydraddoldebau’r Cynulliad a’r Gwasanaeth Busnes yr Aelodau daflenni ffeithiau i’r Aelodau i roi gwybod iddynt am eu rhwymedigaethau fel cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

308. Mae’r Bwrdd yn argymell y dylai’r Gronfa Fynediad barhau, a fydd yn helpu i sicrhau y bydd unrhyw Aelodau, staff ac ymwelwyr sydd ag anableddau yn gallu cyrraedd eu swyddfeydd etholaeth.

309. Yn ystod yr adolygiad, nododd y Bwrdd y dirywiad yn nefnydd y lwfans aros dros nos ymysg Aelodau yn yr Ardal Fewnol (mae rhagor o fanylion a diffiniadau’r ardaloedd Mewnol ac Allanol i’w gweld yn y Penderfyniad[55]), gan gynnig dileu’r lwfans a chaniatáu yn hytrach i Aelodau’r Ardal Fewnol wneud achos busnes dros aros dros nos o dan amgylchiadau eithriadol. Cododd Diverse Cymru bryder y gallai dileu’r lwfans i Aelodau yn yr Ardal Fewnol effeithio ar Aelodau ag anableddau, yn arbennig felly os byddai sesiynau maith yn y Cyfarfod Llawn a digwyddiadau maith yn golygu ei bod yn anodd neu’n beryglus iddynt fynd adref.

310. Gan gymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth, cytunodd y Bwrdd fod angen hyblygrwydd o dan yr amgylchiadau hyn ac, yn amodol ar achos busnes, bydd gan staff y Comisiwn ddisgresiwn i ddarparu cyllid ar gyfer llety dros nos fel y bo’n briodol.

---

[55] *Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau’r Aelodau, Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ebrill 2015 (Pennod 4)*

# 6. Costau

*Yn y bennod hon rydym yn nodi cost penderfyniadau'r Bwrdd, a'r costau a ysgwyddwyd yn ystod yr adolygiad hwn.*

*Mae'r Bwrdd yn amcangyfrif mai rhyw £14.5 fydd cyfanswm cost y cymorth ariannol a drefnir i ad-dalu'r Aelodau ac i helpu'r Cynulliad i weithredu'n effeithiol yn 2016-17.*

*Mae'r adolygiad ei hun wedi costio £156,000 yn ychwanegol, gan gynnwys yr holl gyngor allanol. Mae'r rhan fwyaf wedi'i hysgwyddo o ganlyniad i'r adolygiad o gynllun pensiwn yr Aelodau a rhoi'r cynllun newydd ar waith. Bydd yr arbedion blynyddol i'r trethdalwr yn sgil y newidiadau yn y cynllun pensiwn yn mwy na gwneud iawn am y gwariant hwn mewn un flwyddyn.*

## Cost y Penderfyniad

311. Mae'r Bwrdd wedi nodi system o gymorth ariannol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac sy'n gost-effeithiol. Mae'r gwariant wedi'i godi mewn rhai meysydd ac wedi'i ostwng mewn eraill. Bydd cyfanswm cost y taliadau a'r cymorth ariannol ar gyfer y Pumed Cynulliad yn costio mwy na'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn fuddsoddiad doeth a phriodol yn nemocratiaeth Cymru.

### Taliadau Aelodau'r Cynulliad

312. Mae'r penderfyniad i rewi tâl yr Aelodau am bedair blynedd cyntaf y Cynulliad hwn yn golygu bod costau taliadau'r Aelodau (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) y cyflogwr) wedi bod yn gyson, sef tua £5.5 miliwn y flwyddyn. Ar gyfer 2015-16, mae cynnydd o 1% o'r cyflog sylfaenol wedi'i wneud a disgwylir y bydd hynny'n codi'r cyfanswm i £5.6m.

313. Er y bydd cynyddu'r cyflogau sylfaenol o ddechrau'r Pumed Cynulliad, 2016-17, i £64,000 yn gynnydd o £640,000 yn y costau, mae gostyngiadau yng nghyflogau rhai deiliaid swyddi a gostyngiad i'r trethdalwr yng nghost cyfraniadau'r cyflogwr at y pensiwn yn gwneud iawn am ryw hanner o hyn.

314. Bydd newidiadau mewn YG, sydd y u allan i reolaeth y Bwrdd yn llwyr, yn ychwanegu £71,000 arall.

315. Mae'n debyg felly y bydd cyfanswm cost taliadau i'r Aelodau yn codi o £5.6m ym mlwyddyn olaf y Cynulliad hwn, 2015-16, i ryw £6m yn 2016-17.

316. Yn ei amcanestyniadau, mae'r Bwrdd wedi defnyddio nifer presennol yr Aelodau ym mhob plaid, nifer presennol y cadeiryddion pwyllgor a maint presennol Llywodraeth Cymru. Fe allai'r pethau hyn i gyd newid yn sgil yr etholiad – er bod yr effaith net yn debyg o fod yn fach.

## Cymorth Aelodau'r Cynulliad

317. Bydd caniatáu i Aelodau'r Cynulliad gyflogi Uwch-gynghorwr ar gyflog uwch o 2016-17 ymlaen yn arwain at gynnydd yn yr uchafswm y caniateir i Aelodau'r Cynulliad ei wario ar staff.

318. Bydd hyn yn cynyddu o £91,879 yn 2015-16, i £95,000 yn 2016-17. Er hynny, dyna'r uchafswm a gâi ei dalu pe bai'r staff i gyd ar frig eu bandiau tâl. Yn ymarferol, gan fod y staff fel rheol yn dechrau ar y band isaf, rhyw 90% o'r uchafswm hwn sy'n cael ei wario at ei gilydd.

319. Yn 2014-15, disgwylir y bydd y gwariant ar daliadau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a staff y grwpiau ychydig o dan £6.7m (o'i gymharu ag uchafswm posibl o £7.6m). Mae hyn yn cynnwys goramser, YG a chyfraniadau pensiwn. Ar gyfer 2015-16 bydd y ffigur hwnnw'n codi i ychydig o dan £6.8m (o'i gymharu ag uchafswm posibl o £7.7m).

320. Yn 2016-17 mae'r Bwrdd yn rhag-weld cynnydd yn yr uchafswm gwariant i £7.95m. Er hynny, gan ei bod yn bosibl y bydd Aelodau Cynulliad newydd yn cymryd amser i benodi staff newydd, ac y bydd llawer o'r rhai a fydd yn dod i mewn yn dechrau ar waelod eu bandiau cyflog, mae'r gwariant gwirioneddol yn debyg o fod yn llai na 90% o'r amcangyfrif hwn (£7.0m).

321. Mae'r cymorth i'r Pleidiau Gwleidyddol, gan gynnwys YG a chyfraniadau pensiwn, wedi bod oddeutu £1m yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Bydd newidiadau'r Bwrdd yn sicrhau na ddylai'r ffigur hwn godi'n sylweddol yn y Pumed Cynulliad.

## Treuliau (Lwfansau)

322. Y tair prif gost yn hyn o beth yw costau swyddfa (cyfartaledd o ryw £725,000 y flwyddyn ar gyfer 2012-13 i 2014-15); teithio (yn hanesyddol rhwng £200,000 a £250,000 y flwyddyn); a lwfansau llety preswyl a'r holl lwfansau eraill (a gostiodd £312,000 yn 2013-14).

323. Cyfanswm cost yr holl dreuliau a lwfansau yn 2013-14 oedd £1.3m ac er bod uchafswm y gyllideb oddeutu £1.7m, mae'r Bwrdd yn amcangyfrif y bydd y gwariant gwirioneddol yn aros oddeutu £1.3m ar gyfer 2014-15.

324. Mae'r amcangyfrif o uchafswm y costau (£1.7m) ar gyfer 2015-16 a 2016-17 wedi'u seilio ar y gyfradd bresennol ar gyfer costau swyddfa a'r lwfans llety preswyl. Er hynny, bydd y Bwrdd yn adolygu'r penderfyniadau hyn ym mis Ionawr 2016.

325. Mae'r Bwrdd yn rhag-weld gwariant o ryw £1.5m y flwyddyn ar gyfer 2015-16 a 2016-17, er y byddai hynny'n codi pe ceid newid o bwys yn naill ai costau swyddfa neu lwfansau llety preswyl.

## Cyfanswm y Costau

326. Bydd cyfanswm costau penderfyniadau'r Bwrdd yn cynyddu yn 2016-17. Mae'r Bwrdd wedi cymryd y penderfyniadau hyn am ei fod yn credu bod angen buddsoddi yn ansawdd a chapasiti'r Cynulliad.

327. Mae cyfanswm y costau wedi cynyddu hefyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac roedd yn £13.5m yn 2014-15. Mae hynny'n cymharu ag amcangyfrif o uchafswm cost ar gyfer 2014-15 o £14.9m.

328. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn edrych ar yr uchafswm cost, er y bydd y costau gwirioneddol yn is. Amcangyfrifir y bydd costau gwirioneddol 2016-17, sef blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad oddeutu £14.5m.

**Tabl 13: Costau ac amcangyfrifon ar gyfer Penderfyniad 2013-2017**

| | GWIRIONEDDOL | | | | | AMCANGYFRIFON | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pob ffigur mwn miloedd | | | | | | (uchafswm) | |
| Cynulliad | Trydydd | Pedwerydd | | | | Pumed | |
| | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** |
| **Taliadau'r Aelodau** | | | | | | | |
| Costau Cyflogau | £3,153 | £3,119 | £3,222 | £3,216 | £3,223 | £3,263 | £3,904 |
| Cyflogau Ychwanegol | £909 | £804 | £832 | £913 | £888 | £907 | £744 |
| Pensiwn | £964 | £930 | £965 | £983 | £979 | £992 | £772 |
| Yswiriant Gwladol | £409 | £416 | £435 | £447 | £444 | £437 | £574 |
| **Cyfanswm** | **£5,435** | **£5,269** | **£5,454** | **£5,559** | **£5,534** | **£5,599** | **£5,994** |
| **Staff Cymorth (gan gynnwys Staff Grŵp)** | | | | | | | |
| Costau cyflogau (gan gynnwys YG | £5,750 | £5,482 | £5,863 | £6,014 | £5,629 | £6,403 | £6,600 |
| YG | | | | | £498 | £650 | £686 |
| Cyfraniad Pensiwn | £494 | £474 | £534 | £581 | £560 | £640 | £660 |
| **Cyfanswm** | **£6,244** | **£5,956** | **£6,397** | **£6,595** | **£6,687** | **£7,693** | **£7,946** |
| **Lwfansau** | | | | | | | |
| Costau Teithio ACau | £196 | £309 | £245 | £236 | £230 | £250 | £250 |
| Teithio a Chynhaliaeth AMSS | £40 | £13 | £67 | £89 | £85 | £90 | £90 |
| Lwfans Costau Swyddfa ACau | £699 | £747 | £778 | £726 | £735 | £1,021 | £1,021 |
| Lwfans Costau Ychwanegol ACau | £241 | £223 | £266 | £242 | £220 | £248 | £248 |
| Cronfa Ymgysylltu/Polisi ac Ymchwil | | | £6 | £15 | £30 | £150 | £150 |
| **Cyfanswm** | **£1,176** | **£1,292** | **£1,362** | **£1,308** | **£1,300** | **£1,759** | **£1,759** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm y Costau** | **£12,855** | **£12,517** | **£13,213** | **£13,462** | **£13,521** | **£15,050** | **£15,699** |

# Cost Adolygiad y Bwrdd

329. Mae'r Bwrdd wedi ysgwyddo amryw o gostau wrth gynnal yr adolygiad hwn. Bydd cyfanswm y gost dros y ddwy flynedd diwethaf ychydig yn fwy na £206,600, er bod tri chwarter y gost yn codi o'r cyngor arbenigol a gomisiynwyd gan y Bwrdd.

330. Mae'r costau a gododd o ddefnyddio arbenigwyr allanol wedi'u nodi yn y tabl isod.

**Tabl 14: costau a gododd wrth i'r Bwrdd ddefnyddio cyngor arbenigwyr allanol.**

| Crynodeb | Sefydliad | Costau (gan gynnwys TAW) |
|---|---|---|
| Cyngor cyfreithiol ar gynllun pensiwn ACau | Wragge Lawrence Graham & Co LLP | £76,218 |
| Cyngor Actiwaraidd ar gynllun pensiwn ACau | PwC | £35,400 |
| Cyngor Actiwaraidd ar gynllun pensiwn ACau | GAD | £12,765 |
| Ymchwil ar rwystrau sy'n atal mynediad i'r Cynulliad | Prifysgol Bangor | £9,850 |
| Ymchwil ar arfarnu swyddi a meincnodi taliadau Aelodau'r Cynulliad | Hay Group | £18,838 |
| Cyngor ar Asesiad o Effaith y Penderfyniad ar Gydraddoldeb | Diverse Cymru | £2,500 |
| Cyngor cyfreithiol ar Wasanaeth Di-dor Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | Geldards | £577 |
| **Cyfanswm:** | | **£156,148** |

331. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae ffioedd a threuliau aelodau'r Bwrdd yn eu gwaith wedi costio £20,256 arall yn 2013-14 a £30,240 yn 2014-15. Dyma gyfanswm o £50,496 dros ddwy flynedd. Mae dadansoddiad manwl o'r costau hyn yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol.

# Atodiad A: Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.
Corff statudol annibynnol yw'r Bwrdd, sy'n gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael lefel o dâl sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad;

- sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau; a

- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw ac ymgynghori â'r rhai y mae'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn debygol o effeithio arnynt, os bydd hynny'n briodol ym marn y Bwrdd.
Penodwyd y Bwrdd drwy broses recriwtio deg ag agored ac mae'n cynnwys Cadeirydd a phedwar Aelod Bwrdd. Ymddiswyddodd y Cadeirydd gwreiddiol, Syr George Reid, ym mis Medi 2013 oherwydd afiechyd. Ymgymerodd Sandy Blair â swydd y Cadeirydd, ac ymunodd yr Athro Laura McAllister â'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2014.
Mae costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan yr aelodau yn cael eu cyhoeddi yn adroddiad blynyddol y Bwrdd. Disgwylir i fersiwn 2015-16 gael ei gyhoeddi yn ystod yr haf. Mae agenda a chofnodion pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=375



**Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)**
Sandy yw cyfarwyddwr blaenorol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (fe ymddeolodd yn 2004). Roedd yn brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac yn Llywydd SOLACE yn 1999-2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus ac wedi bod yn ymddiriedolwr cyrff cyhoeddus gan gynnwys fel cyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy, Ymddiriedolwr i Sefydliad Bevan, Ymddiriedolwr i Growing Space, Is-lywydd i Glwb Busnes Caerdydd a nifer o swyddi ar Gorff Llywodraethu a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Bu'n aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r HSE.



**Mary Carter**

Ymddeolodd Mary o fod yn bartner gyda KPMG ym mis Medi 2008. Mae'n gyn aelod o Gorff Arolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflog, lwfansau digolledu a thaliadau'r fyddin ac mae'n Ymgynghorydd Lleyg ar gyfer Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA (Cytundebau Aml-asiantaeth i Ddiogelu'r Cyhoedd) yng Ngwlad yr Haf . Mae'n gyfreithwraig sydd wedi arbenigo ers dros 25 mlynedd mewn cynghori cwmnïau yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt ynghylch taliadau a chymhellion ar gyfer cyfarwyddwyr/uwch-reolwyr a materion rheoli a threthu cysylltiedig.



**Stuart Castledine**

Cyfrifydd siartredig a fu'n dal nifer o swyddi mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth gyffrednol yn y sector bancio ac yswiriant cyn mynd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae Stuart wedi ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau ymestynnol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i sefydlu cyd-fentra arwyddocaol yn ogystal â bod yn llwyddiannus wrth wyrdroi sefydliadau sy'n methu. Bu Stuart yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlansys Cymru o 2010 i 2014.



**Yr Athro Monojit Chatterji**

Mae'n academydd â phrofiad polisi cyhoeddus pwysig, ac mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn sawl maes, gan gynnwys y ffactorau sy'n pennu cyflogau yn y sector cyhoeddus. Yn ei rôl gyhoeddus arall, mae'n aelod o Bwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar gyfer yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol. Mae'n Gymrawd ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt, yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yn Neuadd y Drindod, Caergrawnt, ac yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Dundee.

Mae'r Athro Chatterji yn gyn-gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub y Deyrnas Unedig (y corff negodi cyflogau) ac mae wedi bod yn aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ynghylch cyflogau, amodau, a threfniadau llywodraethu ar gyfer athrawon a phrifathrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyn-aelod o Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus.



**Yr Athro Laura McAllister**

Mae Laura McAllister yn Athro Llywodraethiant yn Ysgol Reoli Prifysgol Lerpwl ac yn arbenigydd ar ddatganoli. Bu Laura yn aelod o Gomisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2002-04), darparodd gyngor ymchwil i'r Panel Annibynnol ar Gyflogau a Chymorth i Aelodau'r Cynulliad yn 2008-09. Laura oedd cadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol (2013-14).

Mae Laura'n gyn-chwaraewr rhyngwladol ac yn gyn-gapten tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru a enillodd 24 o gapiau, ac yn Gadeirydd Chwaraeon Cymru (sef Cyngor Chwaraeon Cymru gynt). Mae'n Aelod o Fwrdd UK Sport, sef asiantaeth y Llywodraeth ar gyfer chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd, ac o Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru. Mae'n un o Ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig, ac yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru i'r Cyngor Prydeinig.

# Atodiad B: Ymgyngoriadau

Drwy ei waith i gyd, ac yn unol ag adran 2 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, bu'r Bwrdd yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid. Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i bob Aelod o'r Pedwerydd Cynulliad, y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad, y Cwnsler Cyffredinol, Bwrdd Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn presennol ac aelodau o'r cyhoedd am gymryd yr amser i roi tystiolaeth i'w helpu yn ei waith, boed drwy ddod i gyfarfodydd â'r Bwrdd, drwy sesiynau galw heibio rheolaidd y Cadeirydd, drwy ymateb i arolwg ar-lein y Bwrdd neu drwy roi tystiolaeth ysgrifenedig.

Diolchir yn arbennig i'r canlynol:

**Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau'r Cynulliad:**

Peter Black AC, *Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*

Ann Jones AC, *Llafur Cymru*

Elin Jones AC, *Plaid Cymru*

Nick Ramsey AC, *Ceidwadwyr Cymru*

**Grŵp Cynrychiolwyr Staff Cymorth yr Aelodau:**

Anthony Cooper, Chris Binding, David Costa a Sam Hadley, *Llafur Cymru*

Richard Thomas a Karen Roberts, *Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*

Anthony Pickles, *Ceidwadwyr Cymru*

Helen Bradley, Carole Willis, Phil Nifield a Luke Nichols, *Plaid Cymru*

**Ymgyngoreion Allanol:**

Yr Athro Laura McAllister, *Prifysgol Lerpwl (20 Mawrth 2014)*

Gerard Elias CF, *Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Yr Athro Richard Wyn Jones, *Canolfan Llywodraethiant Cymru*

Yr Athro Syr Ian Kennedy, *Cadeirydd IPSA*

Pat McCartan, *Cadeirydd, Panel Adolygu Ariannol Annibynnol Gogledd Iwerddon*

Y tîm swyddogion sy'n gyfrifol am bensiynau'r sector cyhoeddus yn *Nhrysorlys EM*

William Graham (Cadeirydd), a *Bwrdd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Cyngor a gomisiynwyd:**

*Mark Packham, PWC*

*Jon Gay, Hay Group*

*Yr Athro Catherine Robinson a'i chydweithwyr, Prifysgol Bangor*

*Paul Carberry, Kevin Milton a Hannah Beacham, Wragge, Lawrence and Co.*

*Charles Willie, Adele Goodwin, Diverse Cymru*

**Arweinwyr y pleidiau:**

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, *Llafur Cymru*

Andrew RT Davies AC, *Ceidwadwyr Cymru*

Kirsty Williams AC, *Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*

Leanne Wood AC, *Plaid Cymru*

**Y Llywyddion:**

Y Fonesig Rosemary Butler AC

David Melding AC

# Atodiad C: Dogfennau cefndir

Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi'r ymgyngoriadau a ganlyn dros y 13 mis diwethaf, sydd wedi helpu i fwydo'r adroddiad hwn.

- Cynigion ar gyfer y Penderfyniad Drafft yn y Pumed Cynulliad a ddaeth i ben ar 8 Ebrill 2015.
- Newidiadau Arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch Cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad a ddaeth i ben ar 12 Ionawr 2015.
- Newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch y lwfansau i Aelodau'r Pumed Cynulliad a ddaeth i ben ar 15 Rhagfyr 2014.
- Newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad ynghylch y cymorth i Aelodau'r Pumed Cynulliad a ddaeth i ben ar 26 Medi 2014.
- Yr ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol a ddaeth i ben ar 15 Awst 2014.
- Trefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol a ddaeth i ben ar 21 Mai 2014.

Mae rhestr lawn o Benderfyniadau, Adroddiadau Blynyddol ac adroddiadau penodol ar Staff Aelodau'r Cynulliad a thâl Staff Cymorth, a Lwfansau i Ddeiliaid Swyddi (Gorffennaf 2011) ar gael ar wefan y Bwrdd.

***Ymchwil***

Adroddiad yr Hay Group

Adroddiad ar werthuso swydd Aelod Cynulliad a deiliaid swyddi - Hay Group (Saesneg yn unig) **PDF**

Adroddiad Prifysgol Bangor

Ymchwil ar rwystrau i fynediad i'r Cynulliad – Prifysgol Bangor (Saesneg yn unig) **PDF**

Adroddiad Cymdeithas Hansard - Assembly line? The Experiences and Development of New Assembly Members.

http://www.hansardsociety.org.uk/assembly-line-new-ams/

***Deddfwriaeth***

*Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010,*

http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/4/contents

*Gwybodaeth Ystadegol*

*Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ashe/annual-survey-of-hours-and-earnings/index.html

Taliadau Deddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig

*Gallwch ddarllen rhagor am waith yr IPSA a Phanel Adolygu Ariannol Annibynnol Gogledd Iwerddon ar eu gwefannau.*

http://parliamentarystandards.org.uk/Pages/default.aspx

http://ifrp.org.uk/

# Atodiad D: Log Effaith Cydraddoldeb

Mae'r log yn adlewyrchu'r materion a gododd Diverse Cymru ac a gododd mewn tystiolaeth arall a roddwyd i'r Bwrdd ym mhob cyfnod o'r Adolygiad, ystyriaethau'r Bwrdd ynglŷn â'r mater a, lle bo'n briodol, y penderfyniadau a gymerwyd gan y Bwrdd i fynd i'r afael â'r mater.

**Log Materion**

| Nodwedd Warchodedig | Thema'r Adolygiad | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Oedran** | | |
| Mae darpariaethau diogelu trosiannol ("grandfathering") yn peri risg o wahaniaethu ar sail oedran | Pensiynau | Mae diogelu trosiannol yn cynnwys nifer o drefniadau posibl sydd wedi'u bwriadu i amddiffyn aelodau hynaf cynlluniau rhag i newidiadau mewn pensiwn effeithio'n anghymesur arnynt. Nid yw'r Bwrdd yn dymuno effeithio'n amhriodol ar gynlluniau pensiwn yr Aelodau hynny sydd agosaf at oedran ymddeol ac felly mae wedi cytuno i gynnig diogelwch trosiannol. O 2016 ymlaen, bydd pum mlynedd o ddiogelwch trosiannol ar gael i'r aelodau hynny a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran ymddeol arferol ar Ebrill 2012. Cytunodd y Bwrdd na ddylid cynnig rhagor o flynyddoedd o raddol leihau'r ddarpariaeth diogelwch yn y cynllun newydd. |
| Oedran pensiwn: mae oedran pensiwn arferol/oedran pensiwn y wladwriaeth yn peri risg o wahaniaethu ar sail oed (rhaid i bobl ifanc weithio'n hirach na'r rhai sydd bron ag ymddeol ar hyn o bryd). | Pensiynau | Er nad oedd y darpariaethau diogelu trosiannol yn y cynllun drafft mor fuddiol dros gyfnod o bum mlynedd ag yng nghynllun yr Aelodau Seneddol, cydnabu'r Bwrdd fod buddion eraill yn gwneud iawn am hyn. Er enghraifft, bydd gan yr Aelodau flwyddyn ychwanegol o gronni o dan eu cynllun presennol, sydd â chyfraniad uwch gan y cyflogwr a lefel uwch o fuddion. Nododd hefyd fod cynigion cynllun newydd y Cynulliad yn cynnwys cyfradd gronni uwch nag ar gyfer Aelodau Seneddol. Mae hyn o les i'r Aelodau ieuengaf a fydd yn cronni mwy yn ystod eu gyrfaoedd. |
| **Anabledd** | | |
| Diffyg data am gydraddoldeb ymysg Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | Cyffredinol | Mae'r Bwrdd yn annog Comisiwn y Cynulliad i gasglu data am gydraddoldeb ar ddechrau'r Pumed Cynulliad a phob Cynulliad wedyn. Dylai hyn gynnwys Aelodau a staff cymorth sy'n ymuno ar ganol y tymor. |

| | | |
|---|---|---|
| Diffyg cynrychiolwyr etholedig ag anabledd? | Cyffredinol | Yn arolwg Prifysgol Bangor, dyfynnwyd dau o bobl y cyfwelwyd â hwy a awgrymodd y gallai anabledd fod yn rhwystr, yn enwedig wrth ymgyrchu ac oherwydd agweddau corfforol y rôl.Cytunodd y Bwrdd mai mater i'r pleidiau gwleidyddol fynd i'r afael ag ef oedd ymgyrchu gwleidyddol.<br><br>Ym mis Awst 2014, trafododd y Bwrdd y Gronfa Fynediad a sefydlodd er mwyn caniatáu i welliannau mynediad gael eu gwneud yn swyddfeydd yr Aelodau yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth, a oedd yn ddigon eang o ran ei rychwant, a'r lle ar gyfer ffyrdd mwy arloesol o fynd i'r afael â phroblemau'r Aelodau – yn enwedig y rhai sy'n byw ymhell o'r Cynulliad ac a allai ei chael yn anodd cyrraedd Bae Caerdydd.<br><br>Cytunodd y Bwrdd y byddai'n cadw'r Gronfa Fynediad, gan bwysleisio mor bwysig oedd hysbysebu'r ffaith ei bod ar gael. Mae'r Bwrdd hefyd wedi gostwng y trothwy ynglŷn â gwaith ar swyddfeydd i'w gwneud yn fwy hwylus i etholwyr. O ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen, bydd yr Aelodau'n talu'r £500 cyntaf, yn hytrach na'r £1,000 cyntaf o'u lwfans costau swyddfa.<br><br>Dadansoddodd y Bwrdd ddata ar hawliadau teithio diweddar yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a chytunodd fod y system bresennol yn ddigonol. |
| Llety Preswyl | Lwfansau | Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, nododd y Bwrdd y dirywiad yn nefnydd y lwfans ymysg Aelodau yn yr Ardal Fewnol, a chytunodd y dylid dileu'r lwfans gan ganiatáu yn hytrach i Aelodau'r Ardal Fewnol gynnig achos busnes dros aros dros nos o dan amgylchiadau eithriadol. Roedd y Bwrdd o'r farn y gallai fod gan Aelodau ag anabledd – gan gynnwys y rhai yn yr Ardal Fewnol – achos cryfach dros gael lefel uwch o gymorth llety. Cytunodd y Bwrdd y dylid caniatáu i'r Aelodau (gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau) gyflwyno achos busnes dros lefel uwch o lwfans llety byw lle bo'n briodol. |
| **Ailbennu Rhywedd** | | |
| | | Ni chafodd materion penodol eu codi ynglŷn ag ailbennu rhywedd. |
| **Mamolaeth a Beichiogrwydd** | | |
| Trefniadau gwahanol yn y pleidiau gwleidyddol yn gofyn | Cyffredinol | Cytunodd y Bwrdd fod penderfyniadau ynghylch a ddylid caniatáu pleidlais drwy |

| | | |
|---|---|---|
| i'r Aelodau fod yn bresennol yng nghyfarfodydd busnes y Cynulliad i bleidleisio, er enghraifft, trefniadau ar gyfer mamau sy'n bwydo neu bleidleisio drwy ddirprwy? | | ddirprwy neu beidio y tu allan i'w gylch gorchwyl. Nododd y Bwrdd ar sail adroddiad Prifysgol Bangor fod yna bryderon na allai Aelod o'r Cynulliad weithio oriau cydnaws â'r teulu.<br>Cytunodd y Bwrdd mai mater ar gyfer gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd amserlennu busnes y Cynulliad a bod hynny y tu allan i gylch gorchwyl y Bwrdd. |
| **Hil neu Ethnigrwydd** | | |
| Costau trosglwyddo tramor pe bai rhywun yn penderfynu codi ei bensiwn mewn gwlad wreiddiol dros y môr? | Pensiynau | Ni chafodd y Bwrdd dystiolaeth bod Aelod Cynulliad a oedd wedi ymddeol ac a oedd yn byw dos y môr wedi ysgwyddo costau trosglwyddo wrth hawlio'i bensiwn.<br>Ni châi costau trosglwyddo eu hysgwyddo pe bai Aelod yn hawlio ei bensiwn dros y môr. Er hynny, mae'r gronfa bensiwn newydd wedi'i chyfrifo mewn Sterling yn unig ac yn y ffurf honno y caiff ei throsglwyddo i Aelodau'r Cynulliad. |
| Diffyg cynrychiolwyr etholedig o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | Cyffredinol | Nodwyd anawsterau gweinyddol darparu buddion gwahanol mewn cynllun pensiwn bach fel cynllun Aelodau'r Cynulliad. Nid yw'r cynllun pensiwn presennol yn cynnig trefniadau gwahanol i grwpiau gwahanol, megis grwpiau BME. Er hynny, bydd y Bwrdd yn annog y Bwrdd Pensiynau newydd i fonitro agweddau cydraddoldeb y gwaith gweinyddol ynglŷn â'r cynllun newydd, ac i argymell newidiadau os bydd yr aelodaeth yn newid yn y dyfodol.<br>Dyfyniad o adroddiad Prifysgol Bangor ar rwystrau sy'n atal pobl rhag dod i'r Cynulliad: Roedd rhai o'r bobl y cyfwelwyd â hwy (nid pobl BME) yn teimlo y gallai'r ffaith bod gennych gefndir lleiafrif ethnig fod yn rhwystr a fyddai'n eich atal rhag sefyll mewn etholiad neu rhag dod i'r Cynulliad Cenedlaethol. Er hynny, cafwyd teimlad cyffredinol nad systemau'r Cynulliad eu hunain oedd ar fai, ond agweddau yn gyffredinol.<br>Cytunodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 29 Awst fod hyn y tu allan i'w gylch gorchwyl.<br>Teimlai'r Bwrdd y dylai gwaith ymchwil Prifysgol Bangor fod wedi cynnwys grwpiau BME fel rhan o'r broses gyf-weld – rhoddwyd yr adborth hwn i Brifysgol Bangor a newidiodd ei hadroddiad er mwyn sicrhau bod yna ystod eang o ymatebwyr. |
| **Crefydd neu Gredo/Cymunedau Ffydd** | | |
| Darpariaeth foesegol yn y cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau sy'n gofyn amdani | Pensiynau | Dywedodd Diverse Cymru wrth y Bwrdd fod buddsoddiadau pensiwn moesegol yn dderbyniol ar sail grefyddol. Mae'r Bwrdd yn |

| | | |
|---|---|---|
| oherwydd credoau crefyddol? | | deall mai dim ond mewn cynhyrchion ariannol penodol y caiff rhai grwpiau fuddsoddi, ac felly anogir y Bwrdd Pensiynau newydd i fonitro agweddau cydraddoldeb y gwaith gweinyddol ynglŷn â'r cynllun newydd. |
| **Rhyw** | | |
| Darpariaethau i ofalwyr/rhieni unigol, yn enwedig y rhai sy'n byw yn y Gogledd. Menywod yw 92% o'r rhieni unigol (ffynhonnell: Gingerbread). | Cyflogau / Lwfansau | Ymdrinnir â'r materion hyn yn yr adran ynghylch Mamolaeth a Beichiogrwydd – uchod – a'r adran ynghylch Gofalwyr – isod. |
| Rhwystrau sy'n atal menywod rhag dod i'r Cynulliad | Cyffredinol | Nododd arolwg Prifysgol Bangor ar rwystrau sy'n atal menywod rhag dod i'r Cynulliad fod yna argraff ymysg y pleidiau ac ymysg y cyhoedd ynglŷn â sut berson yw ymgeisydd. Dywedodd rhai o'r bobl y cyfwelwyd â hwy eu bod yn teimlo ei fod yn amgylchedd 'macho' neu wryw, a'u bod wedi clywed sylwadau negyddol ynghylch sefyll, yn enwedig os oedden nhw'n famau.<br>Nododd y Bwrdd fod proses dewis ymgeiswyr y tu allan i'w gylch gorchwyl, gan gydnabod yr amodau gwaith a'r oriau cydnaws â theuluoedd a oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd y Bwrdd i godi ymwybyddiaeth o'i allu i dalu treuliau eithriadol. |
| Gallai codi'r Oedran Pensiwn Arferol i 66, 67 a mwy greu effaith anghymesur ar ddynion gan fod disgwyliad oes cyfartalog dynion bedair blynedd yn llai na menywod (ffynhonnell: SYG) | Pensiynau | Cytunodd y Bwrdd y byddai'r cynllun pensiwn newydd yn cydymffurfio â Deddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus ynglŷn ag oedran pensiwn. |
| A allai trefniadau staffio newydd i'r Staff Cymorth roi menywod o dan anfantais yn y gweithle? | | Roedd grŵp cynrychioli'r staff cymorth yn poeni y gallai creu'r rôl newydd i uwch-gynghorwr osod menywod o dan anfantais. Lluniodd y Bwrdd ddadansoddiad o'r patrymau cyflogaeth presennol (gweler yr adran ar Gymorth i'r Aelodau), a phenderfynodd nad oes dim byd yn y swydd ei hun a ddylai atal menywod rhag gwneud cais am rôl uwch-gynghorwr. Nid yw'n ofynnol i'r swydd gael ei lleoli yng Nghaerdydd ychwaith. |
| **Tueddfryd Rhywiol** | | |
| Mae buddiolwyr pensiwn sy'n bartneriaid o'r un rhyw yn parhau yn y cynllun pensiwn newydd | Pensiynau | Adolygodd y Bwrdd y ddarpariaeth ar gyfer cyn bartner/cyn briod sy'n goroesi yn rheolau'r cynllun pensiwn yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 14. Mae'r Bwrdd wedi sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | bod y buddion i bartneriaid o'r un rhyw yn y cynllun pensiwn presennol yn parhau yn y cynllun newydd (a'u bod yn cael eu hegluro'n well yn y cynllun presennol). |
| Rhwystr sy'n atal pobl LGBT (Lesbïaidd, Hoyw, Deurywiol neu Drawsrywiol) rhag dod i'r Cynulliad | Cyffredinol | Gwelodd arolwg Prifysgol Bangor mai cymysg oedd y farn ynghylch a oedd bod yn LGBT yn eich rhwystro rhag dod i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nododd y Bwrdd nad oedd y rhai a ymatebodd yn gweld hyn fel rhwystr i'ch atal rhag cael eich ethol. Er hynny roedd rhai o'r bobl y cyfwelwyd â hwy yn credu y gallai atal pobl rhag sefyll oherwydd argraffiadau'r pleidiau a'r cyhoedd:<br>Cytunodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2014 fod hyn y tu allan i'w gylch gorchwyl a'i fod yn fater i'r pleidiau gwleidyddol. Cydnabu'r Bwrdd hefyd y gydnabyddiaeth allanol sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel gweithle ar sail ei ymroddiad i Gydraddoldeb megis cael ei osod yn 11eg yn y 100 uchaf o gyflogwyr hoyw-gyfeillgar yn y Deyrnas Unedig gan Stonewall UK. |
| **Cyfrifoldebau gofal** | | |
| Siwrneiau Staff, Partneriaid a Phlant | Lwfansau | Mae pryderon wedi'u codi ynghylch siwrneiau plant Aelodau i Fae Caerdydd.<br>Cytunodd y Bwrdd y dylai siwrneiau teuluoedd barhau i gael eu cyfyngu i 12 siwrnai unffordd rhwng y cartref a Bae Caerdydd, ac y dylai fod gan y staff cymorth hawl i gael 18 siwrnai ddychwel rhwng yr etholaeth a Bae Caerdydd. Er hynny, mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw hyn yn cymharu'n ffafriol â San Steffan lle mae siwrneiau teuluoedd wedi'u cyfyngu i 30 siwrnai unffordd *ar gyfer pob dibynnydd*, ac y caiff y staff cymorth wneud hyd at 96 o siwrneiau unffordd, i bob swyddfa.<br>Nododd y Bwrdd fod y Penderfyniad presennol yn cynnwys darpariaeth i'r partner a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed deithio yn y car yn lle teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng Caerdydd ac etholaeth neu ranbarth yr Aelod. Ar hyn o bryd, nid oes Aelod sy'n defnyddio'r lwfans hwn i'r eithaf. Er hynny, fe fydd yn cael ei gadw ar gyfer Penderfyniad y Pumed Cynulliad. |
| Trefniadau gofal | Lwfansau | Mae trefniadau gofal wedi'u trafod gan y Bwrdd sawl tro ers 2011 ac mae'r data cefndir perthnasol wedi'i roi i'r Bwrdd gan y Gwasanaeth Ymchwil.<br>Gan nad yw rôl Aelod Cynulliad yn cydymffurfio â diwrnod 9-5, mae'r Bwrdd wedi parhau i gael sylwadau am y pwnc hwn, gan gynnwys y ddadl |

| | | |
|---|---|---|
| | | y byddai cyflwyno trefn felly yn gyson ag ymroddiad y Cynulliad i gyfle cyfartal. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau, ac yn ehangach, ynglŷn â gwerth cyflwyno cynllun o'r fath i ofalwyr. Nid yw'r ymgyngoriadau blaenorol wedi arwain at newid. Yn fwyaf diweddar, ym mis Mawrth 2014 ymgynghorodd y Bwrdd ar syniadau cychwynnol ar gyflwyno lwfans i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal, gan gynnwys plant, perthnasau oedrannus a phartneriaid ag anghenion penodol. Dywedodd yr Aelodau fod arnynt angen mwy o wybodaeth i fwydo'u syniadau ar ragoriaethau'r cynllun. Mae'r mater yn un sy'n codi barn gref ymysg yr Aelodau a rhanddeiliaid eraill a hynny o blaid ac yn erbyn cyflwyno lwfans o'r fath.<br>Ystyriodd y Bwrdd opsiynau i ofalwyr megis lwfans un gyfradd, trefniant treuliau/ad-daliadau, neu lwfans rhentu uwch i Aelodau'r Ardal Allanol.<br>Trafodwyd y materion hyn ymhellach fel rhan o'r adolygiad ehangach o Lwfansau'r Aelodau. Yn ei gyfarfod ar 16-17 Hydref 2014, trafododd y Bwrdd y ddarpariaeth i ofalwyr yn y Penderfyniad presennol a chymariaethau â'r ddarpariaeth yn Seneddau eraill y Deyrnas Unedig. Nododd fod y ddarpariaeth a'r hyblygrwydd presennol sydd ar gael i'r Aelodau eisoes yn well na'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y mwyafrif o gyflogwyr. Er hynny, mae'r Bwrdd wedi penderfynu cynnig cynnydd yn y lwfans llety preswyl i Aelodau sydd â phlant neu ddibynyddion eraill yn byw gyda hwy fel rhan o'r drefn, a hybu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth ynglŷn â Threuliau Eithriadol yn y Penderfyniad. |

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu i fonitro materion cydraddoldeb yn nes ymlaen eleni.